Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 11/2026

Dyddiad cyhoeddi: 03/02/2026

# Coedwig Genedlaethol Cymru – Gwerthusiad Canol Tymor – Adroddiad Cam 2

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron Rhif digidol ISBN 978-1-80633-923-5

Teitl: Coedwig Genedlaethol Cymru: Gwerthusiad Canol Tymor

Awduron: Andy Parkinson, Anna Burgess, Megan Clark,

Dr Nikola Vousden a Rhys Maher.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Parkinson, A; Burgess, A; Clark, M; Vousden, N; Maher, R. (2025). Teitl. Coedwig Genedlaethol Cymru – Gwerthusiad Canol Tymor – Adroddiad Cam 2. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 11/2026

Ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/coedwig-genedlaethol-cymru-gwerthusiad-canol-tymor-adroddiad-cam-2](https://www.llyw.cymru/coedwig-genedlaethol-cymru-gwerthusiad-canol-tymor-adroddiad-cam-2)

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Tîm Ymchwil i'r Hinsawdd ac i'r Amgylchedd

Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

# Tabl cynnwys

Coedwig Genedlaethol Cymru – Gwerthusiad Canol Tymor – Adroddiad Cam 2 .................1

Rhestr ffigurau .......................................................................................................3

Geirfa ......................................................................................................................4

1 Cyflwyniad a chefndir ........................................................................................5

1.1 Trosolwg o'r dulliau cyflawni ..........................................................................5

1.2 Cefndir deddfwriaethau a pholisi ...................................................................7

1.3 Nodau ac amcanion yr ymchwil .....................................................................8

1.4 Strwythur a chynnwys yr adroddiad ...............................................................9

2 Methodoleg .......................................................................................................10

2.1 Cwestiynau ymchwil.......................................................................................10

2.2 Cynnal y gwaith maes.....................................................................................11

2.3 Dull dadansoddi ..............................................................................................16

2.4 Cyfyngiadau ....................................................................................................16

3 Canfyddiadau ar ôl ymgysylltu â defnyddwyr safleoedd.......................................18

3.1 Trosolwg o safleoedd yr astudiaethau achos..................................................18

3.2 Barn y cyhoedd am goedwigaeth yng Nghymru .............................................20

3.3 Barn cymunedau am y Goedwig Genedlaethol...............................................23

3.4 Profiadau cymunedau hyd yma o safleoedd y Goedwig Genedlaethol ...................26

3.5 Buddion i gymunedau drwy safleoedd y Goedwig Genedlaethol .........................32

3.6 Dyheadau ac awgrymiadau ar gyfer y dyfodol ..................................................40

3.7 Cyfleoedd i'r dyfodol .......................................................................................41

3.8 Barn rhanddeiliaid am y Goedwig Genedlaethol ...............................................42

4 Dulliau gwerthuso effaith .....................................................................................45

4.1 Dulliau gwerthuso effaith a ddefnyddir gan safleoedd coedwig eraill ....................45

4.2 Achrediadau, ardystiadau a safonau .................................................................56

4.3 Offer a fframweithiau pennu gwerth...................................................................58

4.4 Opsiynau ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru ...............................................59

5 Casgliadau ac Argymhellion ...............................................................................74

5.1 Casgliadau ........................................................................................................74

5.2 Y Goedwig Genedlaethol fel cysyniad i gael mwy o goetir yng Nghymru ..............74

5.3 Dulliau gwerthuso effaith....................................................................................77

5.4 Argymhellion .....................................................................................................79

Atodiad A: Cynlluniau gwaith maes yn ôl safle ...........................................................81

Gerddi a Chastell y Waun ........ 81
Coed Cymunedol Mynydd Mawr ........ 81
Coetiroedd Stad Stagbwll ........ 82
Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise (Cwmni buddiant cymunedol) ........ 82
Coed y Bont / Coed Dolgoed ........ 83
Parc Gwledig Porthceri ........ 83
Coetir Ysbryd y Llynfi ........ 84
Coetiroedd Bryn Sirhowy ........ 84
Atodiad B: Offer ymchwilio ........ 86
Cyfweliadau â rhanddeiliaid ar gyfer gwerthuso rhaglen y Goedwig Genedlaethol ........ 86
Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: mesur effaith ........ 87
Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: ymgysylltu â staff rheoli safleoedd ........ 89
Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: ymgysylltu â gwirfoddolwyr ........ 90
Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: grŵp ffocws i ymwelwyr ........ 91
Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: offer ymchwil Ymweliad ag Astudiaeth Achos ........ 93
Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: grŵp ffocws i ymwelwyr ........ 96
Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: Holiadur cymunedol i'r astudiaethau achos ........ 98

## Rhestr ffigurau

Ffigur 3.1 Canran yr ymatebwyr a nododd buddion coetiroedd i'r gymuned leol, Cymru 2017 i 2025 ....21
Ffigur 3.2 Canran yr ymatebwyr a oedd wedi ymweld â choetir yn ystod y 12 mis diwethaf 2017 i 2025 ....22
Ffigur 3.3 Canran yr ymatebwyr a oedd wedi cerdded mewn coetir yn ystod y 12 mis diwethaf 2019 i 2025 ....22
Ffigur 3.4 Canran yr ymatebwyr sydd â mynediad i goetir heb ddefnyddio car na chludiant arall 2017 i 2025....23
Ffigur 3.5: Ymwybyddiaeth o raglen y Goedwig Genedlaethol ymhlith ymatebwyr yr holiadur a gwybod bod y safle yr ymwelwyd ag ef yn rhan o'r rhaglen honno ....25
Ffigur 3.6 Y prif newidiadau y sylwyd arnynt gan ymatebwyr yr holiadur cymunedol....28
Ffigur 3.7 Gweithgareddau hamdden wedi'u cynnal yn safleoedd yr astudiaethau achos ...29
Ffigur 3.8 Buddion ymweld â safle'r Goedwig Genedlaethol yn ôl ymatebwyr yr holiadur cymunedol....33
Ffigur 3.9 Meysydd cytuno'n gryf â datganiadau am goedwigoedd a choetiroedd....34
Ffigur 3.10 Meysydd ehangach cytuno â datganiadau am goedwigoedd a choetiroedd......35
Ffigur 4.1 Hierarchaeth tystiolaeth ....65

## Geirfa

AFC – Cydlynwyr rhaglen Active Forest

AHNE – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

CCAUC – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

CIC – Cwmni buddiant cymunedol

CLA – Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

Defra – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

EWCO – England Woodland Creation Offer

FSC – Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd

MTOF – Fy Nghoeden, Ein Coedwig'

NLHF – Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

ORVal - Pecyn Pennu Gwerth Hamdden yn yr Awyr Agored

PaNS - Arolwg Pobl a Natur

PEFC - Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd

POFS - Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd

POS – Mannau Gwerthu

QALY - Blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd

ReBLS - Arolwg Hydredol Adnewyddu Bioamrywiaeth

SWEMWBS - Graddfa Fer Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin

TWIG - Y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd

UKFS - Safon Coedwigaeth y DU

UKWAS - Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig

WGWE - Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru

WLO - Swyddog Cyswllt Coetiroedd

# 1 Cyflwyniad a chefndir

Nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i greu Coedwig Genedlaethol i Gymru yng ngwanwyn 2020. Daeth hyn yn wreiddiol o faniffesto arweinyddiaeth y Prif Weinidog a'r bwriad oedd creu Coedwig Genedlaethol ar hyd a lled Cymru, yn hygyrch i bawb. Mae'r Goedwig Genedlaethol yn brosiect cenedlaethol, sydd i bara degawdau, a'i nod yw adfer a chynnal coetiroedd presennol a'u cysylltu ag ardaloedd coetir newydd trwy blannu coed.

Crëwyd Rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol drwy ddod â safleoedd coetiroedd sy'n bodoli eisoes at ei gilydd. Yn hydref 2020, cyhoeddwyd 14 safle cyntaf y Goedwig Genedlaethol i fod yn safleoedd arddangos, a'r rhain yn rhan o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru (WGWE) ac wedi'u rheoli a'u cynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r rhaglen lywodraethu bresennol ar gyfer 2021 – 2026, sydd wedi'i diweddaru i ddangos y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, yn parhau â'r ymrwymiad hwn i 'greu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o'r Gogledd i'r De.'

Yn dilyn cynllun Prosiect Arddangos y Goedwig Genedlaethol, datblygodd Llywodraeth Cymru fodel cyflawni ar gyfer y Goedwig Genedlaethol er mwyn cefnogi a pharatoi safleoedd coetiroedd i ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol. Mae'r model hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau cyflawni gan gynnwys rolau staff, cyllid, adnoddau, a Chynllun Statws y Goedwig Genedlaethol. Mae manylion am bob dull cyflawni ac amcanion eu cyflwyno yn y rhestr isod.

## 1.1 Trosolwg o'r dulliau cyflawni

Dull cyflawni 1: Y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (TWIG)

- Dyddiad ei gyflwyno: Mehefin 2022
- Nod: Cynorthwyo i greu, gwella ac adfer coetiroedd, gan ddatblygu llif o safleoedd i'r Goedwig Genedlaethol i'r dyfodol.

Dull cyflawni 2: Fy Nghoeden, Ein Coedwig (MTOF)

- Dyddiad ei gyflwyno: Tachwedd 2022
- Nod: Darparu coed i gartrefi a thirfeddianwyr i'w hybu i blannu coed a gwneud cyfraniadau cynnar i Goedwig Genedlaethol Cymru.

Dull cyflawni 3: Swyddogion Cyswllt Coetiroedd (WLO)

- Dyddiad ei gyflwyno: Medi 2022
- Nod: Cefnogi perchnogion coetiroedd drwy Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol, cyfeirio at gyfleoedd cyllido, a darparu canllawiau ar reoli coetiroedd. Mae un Swyddog Cyswllt ar gyfer pob un o chwe rhanbarth Datganiad Ardal, sef ardaloedd gweithredol a ddefnyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dull cyflawni 4: Grant Coetiroedd Bach

- Dyddiad ei gyflwyno: Ebrill 2023
- Nod: Creu 100 o 'Goetiroedd Bychain' ledled Cymru rhwng 2023 a 2025 i wella bioamrywiaeth a mannau gwyrdd.

Dull cyflawni 5: Cynllun Statws y Goedwig Genedlaethol

- Dyddiad ei gyflwyno: Mehefin 2023
- Nod: Galluogi coetiroedd i ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol drwy fodloni canlyniadau'r Goedwig Genedlaethol a chael cynllun rheoli coetiroedd.

Ym mis Mehefin 2023, agorodd Cynllun Statws y Goedwig Genedlaethol i alluogi coetiroedd nad ydynt yn rhan o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru i ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol, gan gynnwys sefydliadau nid-er-elw a pherchnogion preifat sydd â rheolaeth neu sy'n berchen ar goetiroedd yng Nghymru ac mae'n dal ar agor ar gyfer ceisiadau. I sicrhau statws, rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae eu safle yn bodloni canlyniadau'r Goedwig Genedlaethol a amlinellir isod. Mae un canlyniad hanfodol y mae'n rhaid ei gyflawni (i'w ddangos trwy gael cynllun rheoli coetir sy'n dilyn canllawiau Safon Coedwigaeth y DU [UKFS]). Mae'r canlyniadau eraill yn ddymunol ond nid yn hanfodol. Dyma'r chwe chanlyniad neu ddeilliant lefel uchel ar gyfer Cynllun Statws y Goedwig Genedlaethol:

Canlyniad hanfodol:

- coetiroedd gwydn o ansawdd da, sydd wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda.

Canlyniadau dymunol

- coetiroedd sy'n hygyrch i bobl
- cyfranogiad cymunedau mewn coetiroedd
- coetiroedd cysylltiedig
- coetiroedd a choed deinamig, aml-bwrpas
- coetiroedd sy'n dangos dysg, ymchwil ac arloesi.

Nid cyfle ariannu yw'r Cynllun Statws; mae'n gyfle i fod yn rhan o rwydwaith o goetiroedd ledled Cymru. Dechreuodd cyfarfodydd y rhwydwaith ym mis Mawrth 2024. O fewn y rhwydwaith hwn, mae gan safleoedd fynediad at ystod eang o gefnogaeth gan eu Swyddog Cyswllt Coetiroedd ac adnoddau sy'n cynnwys gweminarau ar-lein, cyfleoedd i rannu, dysgu a chydweithio â rheolwyr safleoedd eraill, digwyddiadau wyneb yn wyneb, arwyddion a byrddau gwybodaeth, ffotograffiaeth a lluniau fideo proffesiynol a hyrwyddo am ddim trwy Croeso Cymru er enghraifft. Ar 26 Tachwedd 2025 ymlaen roedd 72 safle yn y Cynllun Statws, mae'r rhestr lawn o safleoedd y Goedwig Genedlaethol i'w gweld ar y dudalen we Ymweld â Choedwig Genedlaethol Cymru.

## 1.2 Cefndir deddfwriaethau a pholisi

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru (a chyrff cyhoeddus eraill Cymru) i Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Mae'r egwyddor yn cyflwyno'r bwriad i gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan ddiwallu anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod Llesiant, gan gynnwys 'Cymru gydnerth' sy'n hyrwyddo amgylcheddau naturiol bioamrywiol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a 'Chymru iachach' lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl.

Mae amcanion cyffredinol rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r amcanion a amlinellir yn y Ddeddf. Yn fwyaf nodedig gwna hynny drwy amddiffyn natur a mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth (drwy sicrhau coetiroedd cydnerth o ansawdd da, wedi'u rheoli a'u cynllunio'n dda), a thrwy gefnogi iechyd a lles cymunedau drwy annog cyfranogiad cymunedol mewn coetiroedd.

Rhoddodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 rym cyfreithiol i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau ecosystemau iach, cydnerth a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol wrth wynebu heriau creu swyddi, tai a seilwaith. Mae'r Ddeddf yn nodi dyletswydd i osod targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd sy'n meithrin cydnerthedd systemau natur. Nod y Ddeddf yw cefnogi'r amgylchedd naturiol i barhau i sicrhau buddion i'r hirdymor. Mae dyluniad Coedwig Genedlaethol Cymru yn cyd-fynd â'r Ddeddf hon gan ei bod yn anelu at sicrhau buddion amgylcheddol tymor hwy ac etifeddiaeth barhaol i genedlaethau'r dyfodol trwy'r rhwydwaith safleoedd.

Mae amcanion cyffredinol Coedwig Genedlaethol Cymru yn deillio o Strategaeth Coetiroedd i Gymru sy'n amlinellu strategaeth 50 mlynedd ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru. Mae'r weledigaeth sydd yn fersiwn gyfredol y strategaeth a gyhoeddwyd yn 2018 yn dal yr un fath ag yr oedd yn 2001, sef 'bydd Cymru yn adnabyddus am ei choetiroedd o ansawdd uchel sy'n gwella'r dirwedd, sy'n briodol i amgylchiadau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd'.

Wrth wraidd y strategaeth mae'r nod i gynyddu faint o goed sy'n cael eu plannu i gefnogi ehangu coetiroedd a sicrhau rheolaeth dda ar goetiroedd drwy goed sy'n addas ar gyfer yr amgylchedd lleol a chael cymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar bedair thema strategol, pob un yn gysylltiedig â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015):

- ymateb i newid yn yr hinsawdd – drwy leihau ôl troed carbon a chefnogi cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel.
- coetiroedd i bobl – yn diwallu anghenion lleol o ran iechyd, addysg a swyddi a chefnogi llesiant pobl a chymunedau yn ehangach.
- sector coedwigaeth sy'n gystadleuol ac integredig – cefnogi amgylcheddau ac ecosystemau naturiol bioamrywiol sy'n cynnal cydnerthedd.

Wrth ehangu ar y nod ‘coetiroedd i bobl’, sy’n rhan allweddol o strategaeth Coetiroedd i Gymru, dyma’r pedwar canlyniad allweddol sy’n amlinellu sut y gall coetiroedd a choed gyfrannu at wella llesiant pobl:

- Mae mwy o gymunedau yn ymwneud â’u coetiroedd a’u coed lleol ac yn cael budd ohonynt.
- Mae mwy o bobl, o bob oedran, yn cael budd o gyfleoedd addysg a dysgu a ddarperir mewn coetiroedd a choed ac yn agos atynt.
- Mae mwy o bobl yn byw bywydau iachach o ganlyniad i ddefnyddio a mwynhau coetiroedd a choed a byw’n agos atynt.
- Mae mwy o bobl yn cael budd o fusnesau sy’n ymwneud â choetiroedd a chyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig.

Mae Strategaeth Coetiroedd i Gymru hefyd yn nodi uchelgais i blannu o leiaf 2,000ha bob blwyddyn. Nod arall yw cynyddu gorchudd coed yn yr amgylchedd ehangach. Mae rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn cwmpasu’r pedair thema a amlinellir yn Strategaeth Coetiroedd i Gymru, gan ganolbwyntio ar wella mynediad, cynnwys cymunedau a hwyluso dysgu.

## 1.3 Nodau ac amcanion yr ymchwil

Ym mis Mehefin 2024, comisiynwyd Wavehill gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o raglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae’r gwerthusiad yn ymwneud â gweithredu’r cynllun rhwng Medi 2022 a Hydref 2025 ac mae’n defnyddio dulliau sy’n gwerthuso prosesau ac effeithiau. Prif amcanion y gwerthusiad yw:

- gwerthuso’r modd y cynhaliwyd cynllun Coedwig Genedlaethol Cymru o fis Medi 2022 hyd at fis Rhagfyr 2024, gan gynnwys ariannu staff cymorth a chyllid grant sydd ar gael i dirfeddianwyr i helpu i lywio argymhellion ar gyfer modelau cyflawni yn y dyfodol.
- deall barn cymunedau ac aelodau’r cyhoedd am y Goedwig Genedlaethol ac unrhyw brofiadau ers lansio’r Cynllun Statws ym mis Mehefin 2023; ac
- argymell dyluniad ar gyfer asesu effaith gymdeithasol y rhaglen yn y dyfodol, gan gynnwys yr hyn y dylid ei gynnwys yn y rhaglen er mwyn helpu i werthuso effaith gymdeithasol.

Mae’r adroddiad Cam 2 hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaeth yng Ngham 1 y gwerthusiad a hwnnw wedi canolbwyntio ar gynnal rhaglen y Goedwig Genedlaethol o 2022 hyd at Ragfyr 2024 (pwynt bwled 1 uchod), gan gynnwys archwilio pa mor effeithiol oedd y dulliau cyflawni a gyflwynwyd, rolau staff, cyllido a Chynllun Statws y Goedwig Genedlaethol.

Canfu adroddiad Cam 1 fod cyllid y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi cefnogi twf rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol. Yn ogystal ag annog a chefnogi safleoedd i fod yn barod i ymuno â’r Cynllun Statws, gwelwyd o’r cyfweliadau â safleoedd yn y Cynllun ar gyfer

adroddiad Cam 1 fod y Cynllun hefyd yn parhau i gefnogi safleoedd sydd eisoes wedi dod yn aelodau ac, wrth wneud hynny, yn eu cynorthwyo i gyfrannu at chwe chanlyniad lefel uchel y Goedwig Genedlaethol.

Cadarnhaol oedd yr adborth a gasglwyd yn yr holiadur i safleoedd y Cynllun Statws ynghylch y broses o wneud cais i'r Cynllun Statws. Yn ymateb y safleoedd a oedd wedi ymuno â Chynllun Statws y Goedwig Genedlaethol, gwelwyd bod y rhan fwyaf ohonynt yn ystyried y gefnogaeth a'r cyngor a gafwyd gan y Tîm Cyswllt Coetiroedd yn effeithiol iawn.

Cafwyd adborth cadarnhaol hefyd gan ymatebwyr yr holiadur ynghylch bod rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol yn galluogi safleoedd sydd wedi cael Statws Coedwig Genedlaethol i rannu gwybodaeth, arfer a dysgu.

Canfu adroddiad Cam 1 fod nifer fach o randdeiliaid a gyfwelwyd gan Wavehill (y cyfeirir atynt yng ngweddill yr adroddiad fel y tîm gwerthuso) wedi nodi eu bod yn ansicr ai prif ffocws y rhaglen yw cefnogi'r economi ymwelwyr trwy greu llwybr cenedlaethol ynteu cefnogi'r amcanion amgylcheddol sy'n cyd-fynd â nodau craidd Strategaeth Coetiroedd i Gymru. Er bod cefnogaeth unfrydol i'r rhaglen gan randdeiliaid, awgrymai'r ansicrwydd y byddai'n ddefnyddiol ailddatgan y cysyniad, y dull cyflawni a'r amserlenni cysylltiedig a'u cyfleu i'r rhanddeiliaid allweddol.

I grynhoi, awgrymodd adroddiad Cam 1 fod cyflawni'r rhaglen yn mynd rhagddo'n dda a bod y gwahanol fecanweithiau'n cyfuno i gefnogi twf rhwydwaith o safleoedd coetir sy'n gweithredu o fewn ymbarél Coedwig Genedlaethol Cymru. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y cyfle i safleoedd ddysgu oddi wrth ei gilydd ac ymgorffori arfer gorau trwy eu hymgysylltiad â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol yn esgor ar botensial gwirioneddol i helpu safleoedd i ddeall sut i barhau i gyflawni yn erbyn y chwe chanlyniad lefel uchel a sicrhau effeithiau tymor hwy ar goetiroedd a chymunedau.

Mae'r adroddiad Cam 2 hwn yn canolbwyntio ar ddeall barn cymunedau a sefydliadau am y Goedwig Genedlaethol fel cysyniad ar gyfer cynyddu coetiroedd yng Nghymru a'u profiadau hyd yn hyn yn safleoedd y Goedwig Genedlaethol, gan gynnwys unrhyw fanteision a buddion canfyddedig. Mae hefyd yn archwilio pa ddulliau i werthuso effaith fyddai'n addas i'w defnyddio i werthuso'r Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol, a beth sydd angen ei gynnwys yn y rhaglen i alluogi hyn. Nid yw'r gwerthusiad hwn yn ceisio mesur effeithiau amgylcheddol nac economaidd wrth gyflawni cynllun y Goedwig Genedlaethol gan nad dyma ffocws yr ymchwil a gomisiynwyd.

## 1.4 Strwythur a chynnwys yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu i'r adrannau canlynol:

- Methodoleg
- Canfyddiadau yn sgil ymgysylltu â defnyddwyr y safleoedd
- Dulliau gwerthuso effaith
- Casgliadau
- Argymhellion
- Atodiadau.

# 2 Methodoleg

Yn yr adran hon cyflwynir y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Hydref 2025 ar gyfer gwerthuso rhaglen y Goedwig Genedlaethol i Gymru. Yn ystod Cam 2 aethpwyd ati i archwilio barn cymunedau am y Goedwig Genedlaethol ac edrych ar eu profiadau o safleoedd y Goedwig Genedlaethol hyd yma. Roedd gwaith maes y cam hwn hefyd wedi pwyso a mesur gwahanol ddulliau o fesur effaith ar draws yr ystod amrywiol o safleoedd er mwyn llywio argymhellion ar gyfer dylunio fframwaith i fesur effaith y rhaglen yn y dyfodol. Isod ceir trosolwg o'r dull gwerthuso, y camau, a'r prif dasgau.

## 2.1 Cwestiynau ymchwil

Amlinellir isod y cwestiynau ymchwil sy'n llywio cam hwn y gwerthusiad. Mae pob cwestiwn yn ymwneud â maes ffocws penodol yn y gwerthusiad.

### 2.1.1 Cwestiynau ymchwil – Ymgysylltiad y gymuned

1. Pa mor effeithiol y mae cymunedau (gan gynnwys cymunedau Cymraeg eu hiaith) yn cael eu cynnwys wrth sicrhau Coedwig Genedlaethol? A yw'r cymunedau sy'n cymryd rhan wedi'u lleoli'n bennaf yn agos i safleoedd dethol?
2. A oes grwpiau penodol y bu rhwystrau iddynt fod yn rhan o'r gwaith o weithredu'r Goedwig Genedlaethol?

### 2.1.2 Cwestiynau ymchwil – Barn a phrofiadau'r gymuned

3. Beth yw barn cymunedau, mudiadau a sefydliadau am y Goedwig Genedlaethol fel cysyniad ar gyfer cael mwy o goetiroedd yng Nghymru? A yw'r farn hon wedi newid wrth i'r ymyrraeth gael ei chyflwyno?
4. Beth fu profiad cymunedau hyd yn hyn gyda safleoedd y Goedwig Genedlaethol gan gynnwys unrhyw fuddion canfyddedig?

### 2.1.3 Cwestiynau ymchwil – Dulliau gwerthuso effaith

5. Pa ddulliau gwerthuso effaith fyddai'n addas i'w defnyddio wrth werthuso'r Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol?
6. Beth sydd angen ei gynnwys yn y rhaglen i werthuso ei heffaith yn gadarn yn y dyfodol?

## 2.2 Cynnal y gwaith maes

Mae'r prif weithgarwch gwerthuso wedi cynnwys y canlynol:

- Astudiaethau achos o sampl o safleoedd y Goedwig Genedlaethol i gasglu ac archwilio barn a phrofiadau'r gymuned. Dewiswyd y safleoedd ar y cyd â Llywodraeth Cymru a thîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd [troednodyn 1] ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau cynrychiolaeth ar draws rhanbarthau Datganiadau Ardal CNC, yn ogystal â chael cydbwysedd rhwng safleoedd Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru (WGWE) a safleoedd nad ydynt yn rhan o'r ystad honno. Roedd gan bob safle a ddewiswyd sy'n rhan o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru gytundebau rheoli cymunedol ar waith ac fe'u dewiswyd gan y byddai eu rheolwyr mewn sefyllfa dda i gefnogi ymgysylltiad ag aelodau'r gymuned yn ystod ymweliadau â'r safle. Nod y dull dewis safle hwn oedd sicrhau bod mewnwelediadau'n adlewyrchu ystod o wahanol fathau o safleoedd ledled Cymru. Datblygwyd rhestr hir gychwynnol o 16 safle astudiaeth achos posibl gan y tîm gwerthuso. Yna cyfwelwyd â rheolwyr darpar safleoedd i asesu eu haddasrwydd a'u parodrwydd i gynnal gweithgareddau gwaith maes. Archwiliodd y trafodaethau hyn sut roedd pob safle yn ymgysylltu â chymunedau, faint o weithgarwch gwirfoddoli a ddigwyddai'n rheolaidd, eu cynnig ehangach i ymwelwyr (er enghraifft, cysylltiadau ag atyniadau cyfagos neu gyfleusterau ymwelwyr), y monitro ar yr ymgysylltu ag ymwelwyr, ac a oedd unrhyw ddigwyddiadau ar y gweill a oedd yn addas ar gyfer eu mynychu i wneud gwaith maes. Sicrhaodd y broses hon y gallai safleoedd astudiaethau achos a ddewiswyd roi mewnwelediadau pwrpasol i ymgysylltiad a phrofiadau'r gymuned. Yn dilyn y cyfweliadau hyn, nodwyd rhestr fer o naw safle astudiaethau achos addas. Tynnodd un safle yn ôl wedi hynny oherwydd cyfyngiadau staff, gan arwain at sampl terfynol o wyth safle i fod yn astudiaethau achos.

- Datblygu cynlluniau gwaith maes ar gyfer pob safle astudiaeth achos, gyda gweithgareddau ymchwil wedi'u cynnal rhwng Awst a Hydref 2025 (gweler Atodiad A). Lluniwyd pecyn ymchwil i gefnogi casglu data a hwn yn cynnwys:
    - Canllawiau i gyfweliadau lled-strwythuredig â staff rheoli safleoedd, trefnwyr digwyddiadau a gweithgareddau allanol, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr,
    - Canllawiau i grwpiau ffocws ar gyfer ymwelwyr a gwirfoddolwyr,

**Troednodiadau**

[1] Fel y nodwyd uchod, mae Swyddogion Cyswllt Coetiroedd (WLO) yn cefnogi perchnogion coetiroedd drwy Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol, gan eu cyfeirio at gyfleoedd ariannu, a darparu canllawiau ar reoli coetiroedd. Mae Swyddog Cyswllt yn cefnogi pob rhanbarth datganiad ardal penodol yng Nghymru (y De-ddwyrain, y De-orllewin, Canol y De, y Canolbarth, y Gogledd-ddwyrain a'r Gogledd-orllewin).

    - Holiadur cymunedol ar-lein pwrpasol i gasglu barn ymwelwyr a defnyddwyr am y safle astudiaeth achos dan sylw ac am y cysyniad o Goedwig Genedlaethol.

- Cynhaliwyd gweithgareddau gwaith maes mewn wyth safle astudiaeth achos. Roedd hyn yn cynnwys 17 ymweliad â'r safleoedd i gynnal gwaith maes gan y tîm gwerthuso gyda 16 o staff rheoli safleoedd, 46 o wirfoddolwyr, 83 o ymwelwyr a chynrychiolwyr o saith gweithgaredd allanol, fel ysgolion a grwpiau cymunedol lleol. Derbyniwyd 137 o ymatebion gan ymwelwyr ar draws yr wyth safle i'r holiadur cymunedol. Ni ofynnai'r holiadur i ymatebwyr nodi a oeddent yn gwirfoddoli ar y safle yn ystod eu hymweliad. Mae'n debygol y bydd rhagfarn ymateb yng nghanfyddiadau'r holiadur o gofio bod rheolwyr safleoedd wedi hyrwyddo'r holiadur yn rhagweithiol drwy ddefnyddio amrywiaeth o sianeli, a rhai o'r rhain yn debygol o gael eu defnyddio gan bobl sydd â chysylltiadau cryfach â safleoedd coetir, a gall hyn gynnwys gwirfoddolwyr safleoedd. Yn ei dro, gall hyn olygu y gallai'r unigolion hyn fod yn fwy tebygol o ymateb i'r holiadur.
- Dyma fanylion gwaith maes y tîm gwerthuso ym mhob safle astudiaeth achos:
    - Castell y Waun, Rhanbarth Datganiad Ardal y Gogledd-orllewin

        - Gwnaed dau ymweliad â'r safle ym mis Awst a mis Hydref 2025. Yn ystod ymweliad mis Awst, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig wyneb yn wyneb â dau aelod o staff ac wyth ymwelydd, a chynhaliwyd grŵp ffocws gyda deg o wirfoddolwyr sy'n gweithio'n rheolaidd yn ardaloedd Coedwig Genedlaethol yr ystad er mwyn archwilio eu hymgysylltiad â chysyniad y Goedwig Genedlaethol a'u dealltwriaeth ohono. Roedd ymweliad mis Hydref yn cynnwys grŵp ffocws arall gyda thri gwirfoddolwr rheolaidd wedi'u lleoli yng Nghastell y Waun. Yn gyfan gwbl, ar draws yr holl ymgysylltiad â'r safle, siaradodd y tîm gwerthuso â dau aelod o staff, 13 o wirfoddolwyr ac wyth ymwelydd.

        - Hyrwyddwyd yr holiadur cymunedol trwy god QR a arddangoswyd yn y caban ymwelwyr ac yn y coetir drwy gydol fis Medi. Derbyniodd yr arolwg 67 o ymatebion gan ymwelwyr â'r safle.

    - Coed y Bont / Coed Dolgoed (Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru), Rhanbarth Datganiad Ardal Canolbarth Cymru

        - Cynhaliwyd dau ymweliad â'r safle ym mis Awst a Medi 2025. Yn ystod ymweliad mis Awst, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig ag wyth ymwelydd a thri aelod o staff. Roedd ymweliad mis Medi yn cyd-daro â sesiwn gwirfoddolwyr ac wedi cynnwys cyfweliadau lled-strwythuredig â saith gwirfoddolwr. Yn gyfan gwbl, ar draws yr holl ymgysylltiad â'r safle, siaradodd y tîm gwerthuso â thri aelod o staff, saith gwirfoddolwr ac wyth ymwelydd.

    - Dosbarthwyd yr holiadur cymunedol trwy dudalen Facebook y safle a'i hyrwyddo eto yn ddiweddarach yn ystod y gwaith maes. Arddangoswyd taflen yn cynnwys cod QR i gysylltu â'r holiadur ar hysbysfwrdd y safle hefyd. Cafwyd dau ymateb i'r holiadur gan ymwelwyr â'r safle.

- Coed Cymunedol Mynydd Mawr, Rhanbarth Datganiad Ardal y De-orllewin

    - Ymwelwyd â'r safle ym mis Awst a mis Medi 2025. Roedd yr ymweliad cyntaf yn cynnwys cyfweliadau lled-strwythuredig â chwe gwirfoddolwr a chwe ymwelydd mewn gweithgaredd cymunedol. Roedd yr ail ymweliad yn cynnwys cyfweliadau lled-strwythuredig ag un aelod o staff o fudiad allanol a oedd yn cynnal gweithgaredd ac wyth ymwelydd. Yn gyfan gwbl, ar draws yr holl ymgysylltiad yn yr ymweliadau safle, siaradodd y tîm gwerthuso ag un aelod o staff o sefydliad allanol a oedd yn cynnal gweithgaredd, chwe gwirfoddolwr a 14 ymwelydd.

    - Dosbarthwyd yr holiadur cymunedol trwy dudalen Facebook y grŵp Cyfeillion, wedi'i ategu gan daflen oedd â chod QR a ddangoswyd ar hysbysfyrddau'r safle ac mewn meysydd parcio. Derbyniodd yr arolwg 17 ymateb gan ymwelwyr â'r safle.

- Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise, Rhanbarth Datganiad Ardal Canolbarth Cymru

    - Cynhaliwyd dau ymweliad safle yn ystod mis Awst a thrydydd ym mis Medi 2025. Yn ystod ymweliadau mis Awst, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda phump o ymwelwyr, tri aelod o staff a phedwar gwirfoddolwr. Roedd ymweliad Medi wedi cyd-daro â diwrnod agored y safle. Er gwaethaf tywydd gwael yn effeithio ar bresenoldeb, cwblhawyd chwe chyfweliad â gwirfoddolwyr a phedwar cyfweliad ag ymwelwyr yn ystod y digwyddiad. Yn ystod ymweliad mis Medi â'r safle, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig hefyd â thri o drefnwyr gweithgareddau allanol, tri ymwelydd a chwe gwirfoddolwr. Yn gyfan gwbl, siaradodd y tîm gwerthuso â thri aelod o staff, tri aelod o staff o fudiadau allanol yn cynnal gweithgarwch yno (un o bob sefydliad), 10 gwirfoddolwr a naw ymwelydd.

    - Dosbarthwyd yr holiadur cymunedol trwy dudalen Facebook Naturewise a'u cylchlythyr, ynghyd â chod QR hefyd wedi'i rannu yn ystod yr ymweliad â'r safle. At ei gilydd, derbyniwyd 12 ymateb i'r holiadur gan ymwelwyr â'r safle.

- Parc Gwledig Porthceri, Rhanbarth Datganiad Ardal Canol De Cymru

        - Aethpwyd i ymweld â’r safle i gyfweld â dau barcmon ym Mharc Gwledig Porthceri. Oherwydd cyfyngiadau staffio yn yr haf, nid oedd sefydliad allanol wedi gallu dod â gwirfoddolwyr i’r safle fel y cynlluniwyd. Yn lle hynny, cynhaliwyd cyfweliad ar-lein gydag un aelod o staff o dîm y sefydliad allanol. Yn gyfan gwbl, ledled yr holl ymgysylltiadau a’r ymweliad safle, siaradodd y tîm gwerthuso â dau aelod o staff, ac un aelod o staff o sefydliad allanol a oedd yn cynnal gweithgarwch yno.
        - Hyrwyddodd parcmyn y safle’r holiadur cymunedol trwy arddangos dolenni cod QR o amgylch y coetir a’u rhannu â grŵp Cyfeillion Porthceri. Darparwyd manylion cyswllt ar gyfer tair ysgol a oedd wedi defnyddio’r safle hefyd, a’r arolwg wedi’i ddosbarthu iddynt yng nghanol Medi; fodd bynnag, nid oedd unrhyw ymateb wedi’i dderbyn ar adeg yr adroddiad. Cynhaliwyd ymweliad safle dilynol ym mis Medi 2025 i gynyddu nifer yr ymatebion ar y safle i’r holiadur. Derbyniodd yr holiadur 9 ymateb gan ymwelwyr â’r safle.
    - Coetiroedd Stad Stagbwll, Rhanbarth Datganiad Ardal De-orllewin Cymru
        - Cynhaliwyd dau ymweliad â’r safle ym mis Medi 2025 i ymgysylltu’n uniongyrchol â gwirfoddolwyr, ymwelwyr a staff y safle. Roedd yr ymweliad cyntaf wedi cynnwys cyfweliadau lled-strwythuredig â phedwar gwirfoddolwr a dau aelod o staff, tra bod yr ail wedi cynnwys cyfweliadau strwythuredig ag 20 o ymwelwyr. Yn gyfan gwbl, yn ystod yr holl ymgysylltu a wnaed ar y safle, siaradodd y tîm gwerthuso â dau aelod o staff, pedwar gwirfoddolwr ac 20 o ymwelwyr.
        - Hyrwyddwyd yr holiadur cymunedol trwy sawl sianel, gan gynnwys taflen â chod QR a ddangoswyd ar hysbysfyrddau’r safle, cylchlythyr Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, tudalen Facebook yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac e-fwletin y safle. Cafwyd 11 ymateb i’r holiadur gan ymwelwyr â’r safle.
    - Coetiroedd Bryn Sirhowy, Rhanbarth Datganiad Ardal y De-ddwyrain
        - Cynhaliwyd ymweliad â’r safle ym mis Medi 2025 i fynychu digwyddiad ymgysylltu cymunedol. Yn ystod yr ymweliad, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig â phedwar aelod o staff ynghylch datblygiadau ers i’r safle ennill statws Coedwig Genedlaethol, dau randdeiliad o fudiadau allanol a oedd yn cynnal gweithgaredd yno a phedwar gwirfoddolwr a oedd yn cefnogi’r digwyddiad. Yn gyfan gwbl, yn ystod yr holl ymgysylltu yn ymwneud â’r safle, siaradodd y tîm gwerthuso â phedwar aelod o staff, dau aelod o staff o fudiadau allanol a oedd yn cynnal gweithgaredd yno (un o bob sefydliad), pedwar gwirfoddolwr a 15 o ymwelwyr.

        - Dosbarthwyd codau QR i'r holiadur cymunedol i ymwelwyr yn y digwyddiad yn ystod ail ymweliad â'r safle, a'r rhain yn bennaf yn deuluoedd, er mwyn annog llenwi'r holiadur cymunedol. Yn gyfan gwbl, derbyniodd yr holiadur 9 ymateb gan ymwelwyr â'r safle.
    - Coetir Ysbryd y Llynfi (Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru), Rhanbarth Datganiad Ardal Canol De Cymru
        - Cynhaliwyd dau ymweliad â'r safle ym mis Medi 2025, a'r cyntaf ohonynt yn ystod diwrnod gwirfoddolwyr er mwyn siarad â'r rheiny a wnâi waith cynnal a chadw yno ac roedd yn cynnwys dau gyfweliad lled-strwythuredig â gwirfoddolwyr. Yn ystod yr ail ymweliad â'r safle, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig â naw ymwelydd. Yn gyfan gwbl, drwy'r holl ymgysylltiad yn ystod yr ymweliadau â'r safle, siaradodd y tîm gwerthuso â dau wirfoddolwr a naw ymwelydd.
        - Dosbarthwyd y cod QR ar gyfer yr holiadur cymunedol yn ystod yr ymweliad â'r safle. Gwnaed ymweliad dilynol â'r safle ddiwedd Medi 2025 i roi hwb i nifer yr ymatebion yr holiadur. Derbyniodd yr holiadur 10 ymateb gan ymwelwyr â'r safle.
- Adolygiad desg o ymchwil ac adroddiadau effaith perthnasol yn ymwneud â rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd tebyg o bob cwr o'r Deyrnas Unedig. Nod y broses hon oedd arwain yr asesiad ynghylch pa ddulliau gwerthuso effaith fyddai'n addas i'w defnyddio wrth werthuso'r Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol.
- Saith cyfweliad ar-lein lled-strwythuredig, manwl gyda rhanddeiliaid y maes coedwigaeth yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025. Nod y cyfweliadau oedd datblygu dealltwriaeth o gyd-destun ac esblygiad y rhaglen, a chasglu barn ar ei gweithredu ers 2022. Archwiliodd y trafodaethau safbwyntiau ar gysyniad o Goedwig Genedlaethol i Gymru, blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn y dyfodol, a dulliau o fesur llwyddiant.

  Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o Forest Research, Stump Up for Trees, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Prifysgol Bangor, a thri awdurdod lleol sydd â rhan sylweddol yn rhaglen y Goedwig Genedlaethol. Awgrymwyd yr holl randdeiliaid gan naill ai dîm polisi Llywodraeth Cymru neu dîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Saith cyfweliad ar-lein lled-strwythuredig a manwl gyda staff o sefydliadau sy'n cynnal rhaglenni coedwigaeth ledled y DU, hefyd rhwng Gorffennaf a Medi 2025. Archwiliodd y cyfweliadau hyn sut mae cynlluniau eraill yn mynd ati i fesur effaith, yr heriau a wynebwyd, a'r methodolegau a ddefnyddir i asesu canlyniadau. Defnyddiwyd mewnwelediadau o'r trafodaethau hyn i ystyried sut y gallai dulliau tebyg fod yn sail i werthuso effaith yn y dyfodol yng Nghoedwig Genedlaethol Cymru. Roedd y cyfranogwyr wedi cynnwys cynrychiolwyr o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Coedwig Genedlaethol Lloegr, y Comisiwn Coedwigaeth,

Llais y Goedwig, Coedwigaeth a Thiroedd yr Alban (FLS), a mentrau Coedwigoedd yr Hinsawdd.

- Cynhaliwyd gweithdy mesur effaith ar 12fed Medi 2025, a hwnnw'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru, a Forest Research. Rhoddodd y sesiwn gyfle i drafod y dulliau gwerthuso effaith sy'n cael eu defnyddio mewn rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill ledled y Deyrnas Unedig. Roedd hefyd yn gyfle i gasglu barn ar opsiynau addas ar gyfer y Goedwig Genedlaethol ac i archwilio beth fyddai angen ei gynnwys yn y rhaglen i alluogi gwerthuso ei heffaith yn y dyfodol.

## 2.3 Dull dadansoddi

Datblygwyd yr holl offer gwaith maes ar gyfer y gwerthuso (e.e. canllawiau i destun trafod yn y cyfweliadau a'r holiaduron) wrth gyfeirio at y prif gwestiynau ymchwil, ac felly yn sicrhau y gellid alinio dadansoddiad dilynol â'r themâu hyn. Cafodd data a gasglwyd trwy'r dulliau cymysg ei groesgyfeirio a'i ddadansoddi'n thematig. Aethpwyd ati wedyn i godio data ansoddol o gyfweliadau ac ymatebion testun agored yr holiadur gan ddefnyddio fframwaith thematig yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil allweddol, tra hefyd yn caniatáu i themâu newydd ddod i'r amlwg yn unol ag egwyddorion theori hyddysg. Galluogodd hyn synthesis ar draws llinynnau gwaith maes i nodi themâu cyffredin, asesu pa mor aml y digwyddent, ac amlygu unrhyw amrywio mewn barn gan wahanol grwpiau rhanddeiliaid.

Dadansoddwyd data meintiol gan gyfrifo amlder a chroesdablau safonol i archwilio'r atebion a gafwyd yn yr holiadur cymunedol. Roedd rhywfaint o amrywio yn niferoedd yr ymatebion a gafwyd i gwestiynau gwahanol yr holiadur, felly mae'r rhif sylfaenol ar gyfer pob cwestiwn wedi'i gynnwys pan adroddir canrannau.

## 2.4 Cyfyngiadau

Defnyddiodd y gwerthusiad ddull samplu pwrpasol ar gyfer dewis safleoedd ar gyfer yr astudiaethau achos. Dewiswyd safleoedd y gellid cael y cyfleoedd mwyaf i ymgysylltu ag ymwelwyr, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol lleol, ac i archwilio enghreifftiau o arfer da mewn ymgysylltu cymunedol.

Yn ystod y cam dylunio, ystyriodd y tîm gwerthuso a Llywodraeth Cymru ddull arall a fyddai wedi cynnwys cymysgedd o safleoedd oedd â lefelau amrywiol o weithgarwch cymunedol. Fodd bynnag, cytunwyd na fyddai hyn yn debygol o gynhyrchu canfyddiadau digon cyfoethog yn y cam cynnar hwn o weithredu'r Goedwig Genedlaethol ac nad hwn fyddai'r fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Felly, gwnaed y penderfyniad i ganolbwyntio ar safleoedd oedd â gweithgaredd cymunedol mwy sefydledig fel y ffordd fwyaf priodol o fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ymgysylltu ac i gynhyrchu mewnwelediadau defnyddiol.

Ystyriodd y broses ddethol hefyd gapasiti a pharodrwydd rheolwyr safleoedd i ganiatáu a chefnogi gweithgareddau gwaith maes. Gan fod sampl bwrpasol wedi'i defnyddio, ni fwriadwyd i'r farn a'r profiadau a gasglwyd fod yn gynrychioliadol o bob un o'r 72 safle yn

rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru [troednodyn 2]. Yn hytrach, mae'r canfyddiadau'n cynnig darlun i ni o sut mae cysyniad y Goedwig Genedlaethol yn cael ei ddehongli a'i gyflwyno ar lawr gwlad yn y cam hwn o gyflwyno'r rhaglen.

Un o'r heriau methodolegol a gafwyd wrth ymgysylltu ag ymwelwyr a gwirfoddolwyr oedd lefelau isel yr ymwybyddiaeth o gynllun Coedwig Genedlaethol Cymru. Cyfyngodd hyn ar y gallu i gasglu barn ar y cysyniad o'r rhaglen ac a yw barn cymunedau wedi newid wrth i Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol gael ei gyflwyno. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r hyn y gwyddys eisoes am ymwybyddiaeth o Goedwig Genedlaethol Cymru.

Yn arolwg diweddaraf [Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd Cymru] nodir bod canran y bobl sy'n ymwybodol o gynlluniau ar gyfer Coedwig Genedlaethol yng Nghymru wedi gostwng ychydig o 20% yn 2023 i 19% yn 2025, er bod hyn yn parhau i fod yn uwch na'r 12% a gofnodwyd yn arolwg 2021.

Er bod y tîm gwerthuso wedi mynd ar ymweliad sawl tro i safleoedd yr astudiaethau achos ac wedi gwneud pob ymdrech i wneud y mwyaf o gyfleoedd i ymgysylltu ag ymwelwyr, eto amrywio oedd nifer yr ymwelwyr ar draws y safleoedd a'r niferoedd wedi'u dylanwadu gan ffactorau oedd yn cynnwys y tywydd, diwrnod yr wythnos, amser y dydd, unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd wedi'u trefnu ac ymwybyddiaeth leol o'r safleoedd coetir neu goedwig. O ganlyniad, dim ond sampl fach o ymwelwyr a oedd ar gael i'r gwerthusiad, ac nid yw barn a phrofiadau'r rhai a gymerodd ran yn gynrychioliadol o'r holl ymwelwyr na'r gymuned ehangach. Byddai angen gwaith pellach i ehangu unrhyw ymarfer ymgynghori i gasglu barn fwy cynrychioliadol gan ymwelwyr presennol a chymunedau o amgylch safleoedd y Goedwig Genedlaethol. Roedd hyn y tu hwnt i'r cwmpas y cytunwyd arno ar gyfer y gwerthusiad hwn.

Mae cyfyngiad pellach yn ymwneud â deall barn cymunedau am unrhyw newidiadau neu fuddion y tybir sy'n gysylltiedig â safleoedd y Goedwig Genedlaethol, o ystyried y cyfnod cymharol fyr rhwng safleoedd yn cael statws ac amseriad y gwaith maes. O'r wyth safle sy'n astudiaethau achos, ymunodd tri â'r Cynllun Statws yn 2024 ac un yn 2025. Mae pedwar o safleoedd yr astudiaethau achos (Coed y Bont, Parc Gwledig Porthceri, Naturewise a Choetiroedd Bryn Sirhowy) wedi cael cyllid y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (TWIG), ac nid oedd y gweithgareddau a gefnogwyd drwy'r grantiau hyn wedi'u cwblhau eto.

O ganlyniad, mae'r farn a'r safbwyntiau a gasglwyd gan gymunedau yn cynrychioli myfyrdodau cynnar ar fuddion sy'n dal i ddod i'r amlwg, yn hytrach na'r ystod lawn o ganlyniadau a all ddatblygu ar ôl i'r gweithgaredd gael ei gwblhau. Mae'r mewnwelediadau cynnar hyn yn werthfawr a gellid eu hailystyried mewn camau gwerthuso yn y dyfodol i olrhain sut mae argraffiadau a buddion yn esblygu wrth i'r ddarpariaeth fynd rhagddi.

---

**Troednodiadau**

[2] Roedd y nifer hwn o safleoedd yn y Cynllun Statws yn gywir ar 26 Tachwedd 2025.

# 3 Canfyddiadau ar ôl ymgysylltu â defnyddwyr safleoedd

Mae adran hon yr adroddiad yn cyflwyno'r canfyddiadau yn gysylltiedig â barn y gymuned am y Goedwig Genedlaethol fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel. Cyflwyna hefyd ganfyddiadau ar brofiadau cymunedau, mudiadau a sefydliadau hyd yn hyn o is-gasgliad o safleoedd y Goedwig Genedlaethol, gan gynnwys unrhyw fuddion tybiedig. Mae'n ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau ymchwil 3 a 4 fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol. Codwyd y canfyddiadau hyn o sampl o wyth astudiaeth achos sy'n safleoedd y Goedwig Genedlaethol, felly nid ydynt o reidrwydd yn gynrychioliadol o brofiadau ar draws y rhwydwaith o 72 o safleoedd sydd wedi ymuno â Chynllun Statws y Goedwig Genedlaethol.

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi braslun o'r wyth safle sy'n astudiaethau achos. Mae'n cynnwys manylion ynghylch pryd ymunodd y safle â rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru ac a yw'r safle wedi cael Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (TWIG) ai peidio.

## 3.1 Trosolwg o safleoedd yr astudiaethau achos

### 3.1.1 Castell y Waun (Rhanbarth Datganiad Ardal y Gogledd-orllewin)

- Mae Castell y Waun wedi'i leoli yn Wrecsam ac yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, gan fod yn gaer ganoloesol a adeiladwyd ar ddiwedd y 13eg ganrif. Mae'n gartref i ardd â muriau iddi ac mae'n rhan o ystad ehangach o 480 hectar o goetir, dolydd a glaswelltir. Fe'i rheolir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Blwyddyn ymuno: 2024
- Derbyn y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd: Naddo

### 3.1.2 Coed y Bont / Coed Dolgoed (Rhanbarth Datganiad Ardal Canolbarth Cymru)

- Mae'r coetir 60 erw hwn yn eiddo i Lywodraeth Cymru a'i reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi sefydlu cytundeb rheoli cymunedol â Chymdeithas Coetir Cymunedol Coed y Bont. Mae'r coetir yn cynnwys dwy goedwig gyfagos, sef Coed Dolgoed sydd isaf ac yna Coed Cnwch ar ochr y bryn cyfagos. Ceir amrywiaeth o rywogaethau brodorol yn y coetir hwn.
- Blwyddyn ymuno: 2020
- Derbyn y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd: Naddo

### 3.1.3 Coed Cymunedol Mynydd Mawr (Rhanbarth Datganiad Ardal De-orllewin Cymru)

- Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n berchen ar y coetir ac mae wedi'i leoli ar hen safle pwll glo. Mae yma dros 200 erw, ac mae'r cymysgedd hwn o dir fferm a man cloddio glo yn enghraifft o sut y gall natur wella'n gyflym o effeithiau arferion dinistriol ac ymledol.

Mae'r rhan fwyaf o'r llystyfiant a geir yn y parc yn llai na 60 mlwydd oed ac yn tyfu ar rwbel glo wedi'i wastatáu.

- Blwyddyn ymuno: 2023
- Derbyn y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd: Naddo

### 3.1.4 Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise (Rhanbarth Datganiad Ardal Canolbarth Cymru)

- Gardd goedwig yw'r safle 5 erw hwn sydd wedi'i leoli ar dir a ddynodwyd gynt ar gyfer datblygiad fel rhan o ystad ddiwydiannol ar gyrion tref Aberteifi. Daeth i law Cwmni Buddiant Cymunedol Naturewise (CIC) trwy drosglwyddo asedau cymunedol yn 2019.
- Blwyddyn ymuno: 2024
- Derbyn y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd: Do, wedi'i gwblhau ym Mehefin 2023

### 3.1.5 Parc Gwledig Porthceri (Rhanbarth Datganiad Ardal Canol De Cymru)

- Ym Mro Morgannwg mae Parc Gwledig Porthceri, ac mae'n 220 erw o goedwigoedd a dolydd mewn dyffryn cysgodol sy'n arwain at draeth cerrig mân a chlogwyni ysblennydd. Mae gan y parc sawl llwybr natur, safleoedd picnic, caffi a man chwarae antur. Mae'n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg.
- Blwyddyn ymuno: 2023
- Derbyn y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd: Do, yn dal ymlaen

### 3.1.6 Coetiroedd Bryn Sirhowy (Rhanbarth Datganiad Ardal y De-ddwyrain)

- Mae Coetiroedd Bryn Sirhowy yn safle cymunedol sy'n ymestyn dros oddeutu 85 hectar ger Tredegar ym Mlaenau Gwent. Ar un adeg roedd yn safle coetir hynafol ond fe'i cliriwyd i wneud lle i gloddio glo a Gwaith Haearn Sirhowy yn ystod y chwyldro diwydiannol. Plannwyd y rhan fwyaf o'r coetir modern mewn camau rhwng 1985 a 1990 ac mae bellach yn eiddo i Gyngor Blaenau Gwent a'i reoli gan grŵp Coetiroedd Bryn Sirhowy.
- Blwyddyn ymuno: 2025
- Derbyn y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd: Do, yn dal ymlaen

### 3.1.7 Coetir Ysbryd y Llynfi (Rhanbarth Datganiad Ardal Canol De Cymru)

- Mae Coetir Ysbryd y Llynfi ar safle hen Bwll Glo Coegnant a Golchfa Maesteg, ac mae'n 65 hectar. Mae dros 60,000 o goed wedi'u plannu yno, yn wreiddiol gan CNC fel rhan o'r Gronfa Natur, gan gynnwys cymysgedd o goed llydanddail, coed ffrwythau a choed addurnol. Mae'r safle'n cysylltu â llwybr rhwydwaith beicio cenedlaethol Sustrans. Mae'r dirwedd yn cynnwys pyllau, corsydd a rhostir. Llywodraeth Cymru sydd piau'r safle a chaiff ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Blwyddyn ymuno: 2020
- Derbyn y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd: Naddo

#### 3.1.8 Coetiroedd Stad Stagbwll (Rhanbarth Datganiad Ardal De-orllewin Cymru)


- Mae'r coetir yn rhan o Ystad Ystagbwll sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac wedi'i leoli rhwng pentrefi Ystagbwll a Bosherston ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Mae'r coetir wedi'i reoli yn y gorffennol, a choed conwydd wedi'u plannu yn rhan olaf yr ugeinfed ganrif, ac mae wrthi'n cael ei adfer i fod yn goetir llydanddail brodorol.
- Blwyddyn ymuno: 2024
- Derbyn y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd: Do, yn dal ymlaen

## 3.2 Barn y cyhoedd am goedwigaeth yng Nghymru

Mae'n debygol iawn y bydd barn y cyhoedd am goetiroedd a choedwigoedd yn gyffredinol yn dylanwadu ar agweddau'r cyhoedd tuag at raglen Coedwig Genedlaethol Cymru. O'r herwydd, mae'n ddefnyddiol rhoi rhywfaint o gyd-destun ar dystiolaeth bresennol ar agweddau'r cyhoedd tuag at goetiroedd, hamdden mewn coetiroedd ac ymgysylltu cymunedol. Ffynhonnell tystiolaeth allweddol yw canfyddiadau arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd (POFS) Cymru. Mae POFS yn ffynhonnell data allweddol ar agweddau'r cyhoedd tuag at goedwigoedd a materion sy'n gysylltiedig â choedwigaeth ac mae wedi cael ei gynnal bob dwy flynedd ers 1995. Mae canfyddiadau arolwg 2025, yn seiliedig ar 1,038 o ymatebwyr, yn rhoi cyd-destun defnyddiol ar gyfer newid mewn agweddau at amrywiaeth o feysydd perthnasol i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

Credai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr i arolwg 2025 (87%) fod y coetiroedd yn eu hymyl yn darparu o leiaf un budd i'r gymuned leol – mae hyn yn ostyngiad o 2023, lle nododd 96% o'r ymatebwyr o leiaf un budd. Roedd y gefnogaeth i feysydd budd penodol a gyflwynwyd i'r ymatebwyr wedi gostwng neu aros yn sefydlog o'i gymharu â 2023. Mae Ffigur 3.1 yn cyflwyno'r prif feysydd, a nodwyd gan y tîm gwerthuso oherwydd eu buddion cymdeithasol posibl, lle mae cefnogaeth y cyhoedd wedi lleihau ers 2021.

**Ffigur 3.1 Canran yr ymatebwyr a nododd buddion coetiroedd i'r gymuned leol, Cymru 2017 i 2025**





Disgrifiad o ffigur 3.1: Siart bar llorweddol yn dangos canran yr ymatebwyr yng Nghymru (2017–2025) a nododd buddion coetiroedd i gymunedau. Mae'r prif fuddion yn cynnwys darparu lleoedd ar gyfer bywyd gwyllt (hyd at 85%) a hamdden (hyd at 77%), tra bod denu ymwelwyr a defnydd addysgol yn is.

Ffynhonnell: Forest Research 2025

Mae canfyddiadau arolwg POFS yn awgrymu bod angen ymdrechion parhaus i hyrwyddo buddion coetiroedd i bobl, bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Yn ystod yr un cyfnod, cofnododd yr arolwg hefyd ostyngiad bach yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi ymweld â choetir yn ystod y 12 mis diwethaf, gan ostwng o 72% yn 2017 i 68% yn 2025. Fodd bynnag, fel y dangosir yn Ffigur 3.2, mae'r canrannau wedi cynyddu a gostwng ddwywaith rhwng 2017 a 2025.


**Ffigur 3.2 Canran yr ymatebwyr a oedd wedi ymweld â choetir yn ystod y 12 mis diwethaf 2017 i 2025**




Ffynhonnell: Forest Research 2025

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi ymweld â choetir yn ystod y 12 mis diwethaf am y gweithgareddau yr oeddent wedi'u gwneud yno. Mae'r holiadur yn nodi gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn nifer y bobl sy'n cerdded mewn coetiroedd, gan ostwng o 89% yn 2019 i 62% yn 2025. Fel y dangosir yn Ffigur 3.3 isod, mae'r canrannau wedi gostwng ym mhob pwynt arolwg ers 2019.

**Ffigur 3.3 Canran yr ymatebwyr a oedd wedi cerdded mewn coetir yn ystod y 12 mis diwethaf 2019 i 2025**





Ffynhonnell: Forest Research 2025

Mae lefelau bodlonrwydd â'r coetir yr ymwelwyd ag ef yn uchel wrth i fwyafrif (94%) yr ymatebwyr i arolwg 2025 gytuno y byddent yn ymweld â'r coetir eto a 92% yn dweud y byddent yn argymell y coetir neu'r goedwig i ffrind neu berthynas. Mae hyn yn cyd-fynd â'r

data a adroddwyd mewn adroddiadau POFS Cymru blaenorol (2017-2023) pan oedd lefelau'r bodlonrwydd yn uchel.

Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (58%) i arolwg 2025 fod yna goetir neu goedwig y gallent eu cyrraedd yn hawdd heb ddefnyddio car neu gludiant arall. Fodd bynnag, mae hwn yn gyfran is na'r arolwg a gofnodwyd yn 2017 lle dywedodd bron i ddwy ran o dair (65%) o'r ymatebwyr fod yna goetir neu goedwig y gallent eu cyrraedd yn hawdd heb ddefnyddio car neu gludiant arall. Dyma hefyd y gyfran isaf a gofnodwyd dros y pum arolwg diwethaf fel y dangosir yn Ffigur 3.4 isod.

**Ffigur 3.4 Canran yr ymatebwyr sydd â mynediad i goetir heb ddefnyddio car na chludiant arall 2017 i 2025**




Ffynhonnell: Forest Research 2025

Nid yw'r fethodoleg a maint y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer POFS Cymru yn galluogi adrodd am unrhyw wahaniaethau yn ôl a yw ymatebydd yr holiadur yn byw ger un o safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru ai peidio.[troednodyn 3] Fodd bynnag, mae canlyniadau'r holiadur ar y meysydd buddion a nodwyd gan ymatebwyr yn awgrymu bod lle i hyrwyddo'r ystod o fuddion y gallai pobl eu cael o ymweld â safleoedd coedwig a choetiroedd. Ym marn y tîm gwerthuso, pwysleisia hyn y cyfraniad cadarnhaol y gall rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru ei wneud i ymdrechion i hyrwyddo buddion safleoedd coedwigoedd a choetiroedd ac annog mwy o bobl i ymweld â nhw.

## 3.3 Barn cymunedau am y Goedwig Genedlaethol

Mae adran hon yr adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau ynghylch barn cymunedau am y Goedwig Genedlaethol fel cysyniad ar gyfer cynyddu coetiroedd yng Nghymru. Mae'n archwilio a yw'r safbwyntiau hyn wedi newid wrth i'r ymyrraeth ddechrau cael ei chyflwyno.

**Troednodiadau**

[3] Mae Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd yn arolwg trawsdoriadol a gynhelir ar-lein yn seiliedig ar samplu cwota. Felly nid yw'r canfyddiadau'n awgrymu canfyddiadau ar lefel y boblogaeth.

### 3.3.1 Ymwybyddiaeth o gynllun Coedwig Genedlaethol Cymru

Ac eithrio Coed Cymunedol Mynydd Mawr a Choetir Cymunedol Coed y Bont / Coed Dolgoed, yn seiliedig ar gyfweliadau ar y safleoedd ag ymwelwyr, isel oedd lefelau'r ymwybyddiaeth o gynllun Coedwig Genedlaethol Cymru ymysg ymwelwyr. Holodd y tîm gwerthuso 83 o ymwelwyr ar draws saith o safleoedd yr astudiaethau achos. Yn y pum safle astudiaeth achos lle'r oedd ymwybyddiaeth o'r Goedwig Genedlaethol yn isel, mewn pedwar o'r safleoedd hyn nid oedd yr un o'r ymwelwyr a gyfwelwyd wedi clywed am raglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Yng Nghoetiroedd Stad Stagbwll, roedd nifer fach o ymwelwyr wedi clywed am y rhaglen.

Nid yw barn yr ymwelwyr hyn o reidrwydd yn gynrychioliadol o lefelau ymwybyddiaeth ymhlith y sylfaen ymwelwyr ehangach ar draws y safleoedd hyn, fodd bynnag, awgryma hyn bod angen gwaith pellach i gefnogi safleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen.


Pan nodai gwirfoddolwyr ar draws safleoedd yr astudiaethau achos eu bod wedi clywed am y rhaglen, cyfyngedig yn aml oedd eu gwybodaeth am yr hyn yr oedd yn ei olygu.

Roedd lefelau ymwybyddiaeth ymatebwyr yr holiadur cymunedol gryn dipyn yn uwch. Roedd tua 53% o'r bobl a lenwodd yr holiadur wedi clywed am Goedwig Genedlaethol Cymru (72/137 o ymatebwyr). Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd rhagfarn ymateb yng nghanfyddiadau'r holiadur cymunedol o gofio bod rheolwyr y safleoedd wedi mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo'r holiadur drwy amrywiaeth o sianeli a bod ymatebwyr oedd â chysylltiadau cryfach â safleoedd coetir yn fwy tebygol o ymateb i'r holiadur. O'r herwydd, nid yw'r rhain yn uniongyrchol gymharol â chanfyddiadau yn deillio o gyfweliadau ag ymwelwyr ar y safle. Hefyd, ni ofynnai'r holiadur cymunedol i ymatebwyr ddweud a oeddent yn ymwelydd neu'n wirfoddolwr felly nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng ymatebion.

Ni wyddai bron i ddau o bob tri o'r ymatebwyr i'r holiadur cymunedol (64% neu 88/137) bod y safle yr oeddent wedi ymweld ag ef yn ddiweddar yn rhan o'r rhaglen. Dengys hyn fod angen cefnogi safleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ar draws eu grwpiau defnyddwyr, gan gynnwys ymwelwyr a gwirfoddolwyr.

Mae dadansoddiad manylach o'r atebion i'r holiadur yn dangos bod pobl a oedd wedi clywed am raglen y Goedwig Genedlaethol yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol bod y safle yr oeddent wedi ymweld ag ef yn rhan o'r rhaglen. Mae Ffigur 3.5 dros y dudalen yn dangos, ymhlith y rhai nad oeddent wedi clywed am raglen y Goedwig Genedlaethol, fod 11% o'r ymatebwyr (7/65) yn gwybod bod y safle yr oeddent yn ymweld ag ef yn rhan o'r rhaglen, tra ymhlith y rhai a oedd wedi clywed am y rhaglen mae'r ffigur hwn yn 58% (42/72).

**Ffigur 3.5: Ymwybyddiaeth o raglen y Goedwig Genedlaethol ymhlith ymatebwyr yr holiadur a gwybod bod y safle yr ymwelwyd ag ef yn rhan o'r rhaglen honno**




Ffynhonnell: holiadur cymunedol Wavehill

Arwyddion yn safle'r goedwig (45% neu 33/74) neu rywun wedi sôn (38% neu 28/74) oedd y ffyrdd mwyaf cyffredin y clywodd ymatebwyr yr holiadur am y rhaglen. Dim ond cyfran fach (6% neu 4/72) o'r ymatebwyr a nododd eu bod wedi ymweld â gwefan y llywodraeth i ddysgu am y rhaglen.

I ddangos y pwynt hwn ymhellach, thema gyffredin a godwyd gan ymwelwyr a gwirfoddolwyr a gyfwelwyd mewn pedwar o safleoedd yr astudiaethau achos oedd y gellid gwneud mwy i godi proffil y rhaglen y tu hwnt i'r arwyddion sylfaenol a ddarperir fel rhan o ymuno â'r rhwydwaith. Ymysg yr awgrymiadau a gynigid oedd posteri a gwybodaeth ar fyrddau arddangos ac o fewn cyfleusterau ar y safle ond hefyd i reolwyr safleoedd rannu gwybodaeth trwy eu sianeli priodol ar y cyfryngau cymdeithasol.

### 3.3.2 Cefnogaeth i'r syniad o Goedwig Genedlaethol i Gymru

Er bod lefelau ymwybyddiaeth o gynllun Coedwig Genedlaethol Cymru yn isel ymysg yr ymwelwyr a'r gwirfoddolwyr a gyfwelwyd ar y safleoedd, roedd consensws yn eu plith o ran cefnogaeth i'r syniad o Goedwig Genedlaethol i Gymru fel ffordd o blannu coed neu ar gyfer rheoli da ar goetiroedd presennol pan eglurwyd hyn gan y tîm gwerthuso.

Cefnogir y canfyddiad hwn gan atebion yr holiadur cymunedol. Pan ofynnwyd iddynt am eu barn ar gysyniad Coedwig Genedlaethol Cymru fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel, cadarnhaol iawn oedd yr adborth gan ymatebwyr yr holiadur (90% neu 123/137).

> "Mae'n syniad gwych yn fy marn i. Mae angen i ni gadw cymaint o fannau â phosibl yn agored i fywyd gwyllt ffynnu." Ymatebydd holiadur Castell y Waun

> "Rwy'n meddwl ei fod yn syniad da. Mae rheolaeth o ansawdd uchel yn gostus. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Goedwig Genedlaethol yn cael ei chlymu i

gwricwlwm yr ysgol, gyda dosbarthiadau'n ymweld â safleoedd a chanllawiau yn egluro cynefinoedd a'r creaduriaid a'r adar sy'n byw yno. Byddai hyn yn rhoi rhyw fath o werth yn ôl trwy wneud pobl ifanc yn fwy sensitif i fyd natur." Ymatebydd holiadur Parc Gwledig Porthceri

"Ffordd dda iawn o sicrhau dyfodol llawn coed gwyrdd yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau i ddod yn ogystal â chael mannau cymunedol hardd ar gyfer y presennol." Ymatebydd holiadur Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise

"Dwi'n meddwl ei fod yn syniad ardderchog. Yn sicr, byddai'n gwella fflora a ffawna gwyllt yng Nghymru. Bydd rheoli ansawdd yn helpu gan fod coetiroedd sydd wedi'u hesgeuluso yn ddolur i'r llygad." Ymatebydd holiadur Coed Cymunedol Mynydd Mawr

## 3.4 Profiadau cymunedau hyd yma o safleoedd y Goedwig Genedlaethol

Defnyddiwyd grwpiau ffocws, cyfweliadau wrth ymweld â safleoedd, a holiadur cymunedol i archwilio a deall profiadau cymunedau o safleoedd y Goedwig Genedlaethol hyd yn hyn.

### 3.4.1 Cymunedau'n cymryd rhan ac yn llywodraethu

Yn Adolygiad Tystiolaeth y Goedwig Genedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, pwysleisiwyd y corff sylweddol o dystiolaeth sy'n awgrymu bod hwyluso a galluogi cael cymunedau lleol yn rhan o lywodraethu coetiroedd, ac yn benodol coetiroedd cymunedol, yn arwain at fuddion cymdeithasol sylweddol ar ffurf cyfalaf cymdeithasol (sy'n cynnwys ymddiriedaeth, ymdeimlad o berthyn a chydlyniant cymunedol).

Yn ôl yr adroddiad, mae tystiolaeth o Gymru yn awgrymu bod cymunedau'n dal i deimlo eu bod wedi'u heithrio o gael llywodraethu 'coedwigoedd cyhoeddus'. [troednodyn 4] Mae cynnwys cymunedau yn y coetiroedd yn un o chwe chanlyniad Coedwig Genedlaethol Cymru.

Mae cael cymunedau i fod yn rhan uniongyrchol o ddylunio a chynllunio'r rheolaeth ar goetiroedd neu weithgareddau a gynhelir ar safleoedd coetiroedd wedi'i gynnwys yng Nghanllawiau'r Cynllun Statws fel un o'r ffyrdd y gall cymunedau fod yn rhan o'r broses.

Roedd yr holiadur cymunedol yn cynnwys cwestiwn ynghylch a ymgynghorwyd â phobl ai peidio ynghylch cynlluniau ar gyfer rheoli safle'r coetir yr ymwelwyd ag ef. Nododd mwyafrif y bobl a ymatebodd i'r holiadur (84% neu 114/136) nad oedd unrhyw un erioed wedi eu holi ynghylch cynlluniau ar gyfer rheoli'r safle. Nododd ychydig dros draean o ymatebwyr yr holiadur cymunedol (38% neu 28/74) y byddent yn hoffi bod yn rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol. Ym marn y tîm gwerthuso, mae hyn yn dangos y potensial i reolwyr safleoedd gael barn a chefnogaeth o bosibl gan gymunedau i'w cynorthwyo i fwrw ymlaen â'u cynlluniau rheoli coetir.

**Troednodiadau**

[4] Yng nghyd-destun yr adroddiad Adolygiad Tystiolaeth Coedwig Genedlaethol Cymru: Buddion i Gymdeithas, mae hyn yn golygu Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru.

### 3.4.2 Newidiadau y sylwyd arnynt ers i'r safleoedd ymuno â'r Cynllun Statws


Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a atebodd yr holiadur cymunedol wedi bod yn ymweld â'u safle ers dros 2 flynedd (85% neu 117/137) ac felly roeddent mewn sefyllfa dda i roi eu barn a'u profiadau o unrhyw newidiadau yr oeddent wedi sylwi arnynt ers i'r safle ymuno â'r Cynllun Statws. Roedd un o'r cwestiynau yn yr holiadur cymunedol yn gofyn i ymatebwyr sôn am y prif newidiadau yr oeddynt wedi sylwi arnynt yn y safle yr aethant iddo. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

Y prif newidiadau y sylwyd arnynt gan ymatebwyr yr holiadur cymunedol oedd llwybrau wedi'u gwneud yn fwy hygyrch (45% neu 56/124), plannu coed (29% neu 36/124), cael gwared ar goed (25% neu 31/124) a chynnydd mewn gweithgarwch gwirfoddol (23% neu 28/124). Mae pedwar o'r safleoedd sy'n astudiaethau achos, sef Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise, Parc Gwledig Porthceri, Coetiroedd Bryn Sirhowy a Choetiroedd Stad Stagbwll, wedi derbyn cyllid trwy TWIG. Mae cyllid grant TWIG yn rhoi cefnogaeth ar gyfer creu, gwella ac adfer coetiroedd ac felly mae'n debygol bod y newidiadau hyn wedi'u hariannu trwy'r grant hwn yn y safleoedd penodol hyn.

Yng Nghoetiroedd Bryn Sirhowy, er enghraifft, mae cyllid grant trwy TWIG wedi helpu i wella'r cyfleusterau, gan wneud y safle'n fwy hygyrch ac, yn seiliedig ar adborth gan staff y safle a gwirfoddolwyr, yn fwy deniadol i'r gymuned leol ei ddefnyddio. Mae hyn wedi cynnwys gosod llwybr hygyrch i gadeiriau olwyn drwy'r coetir a chyfleuster toiled parhaol newydd, creu ardal bwrpasol i baratoi bwyd fel rhan o weithdai gydag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol, a gosod paneli solar i ddarparu ffynhonnell ynni adnewyddadwy ar gyfer cabanau'r ysgol goedwig.

Yn Ffigur 3.6 ceir rhagor o fanylion am y prif newidiadau y sylwyd arnynt gan ymatebwyr yr holiadur cymunedol ym mhob safle sy'n astudiaeth achos.

**Ffigur 3.6 Y prif newidiadau y sylwyd arnynt gan ymatebwyr yr holiadur cymunedol**




Ffynhonnell: holiadur cymunedol Wavehill. N= 124

Ar draws tri o safleoedd yr astudiaethau achos, nododd nifer fach o ymwelwyr a gyfwelwyd ar y safle eu gwerthfawrogiad o unrhyw waith a oedd yn cael ei wneud i wneud eu safle coetir yn hygyrch i bawb. Mae dau o'r safleoedd lle crybwyllwyd hyn wedi sicrhau cyllid TWIG sy'n cefnogi creu llwybrau hygyrch, gosod seddi mainc, a chreu llwybrau natur.

Mae'r newidiadau hyn a welwyd gan ymatebwyr yr holiadur cymunedol yn gadarnhaol o gofio bod yr Adolygiad Tystiolaeth y Goedwig Genedlaethol yn awgrymu mai hygyrchedd yw un o'r prif rwystrau i fynd i goetiroedd, yn enwedig i bobl hŷn sydd â phroblemau symudedd a phobl anabl. Mae cael llwybrau a thraciau clir a hygyrch hefyd yn un o'r pum prif reswm (44% o'r ymatebwyr) dros ddewis ymweld â choetiroedd fel yr adroddwyd yng nghanfyddiadau POFS Cymru 2025. Mae'r ffocws hwn ar hygyrchedd yn cyd-fynd ag amcan allweddol rhaglen y Goedwig Genedlaethol, wrth iddi anelu at sicrhau bod 'coetiroedd yn hygyrch i bobl'.

Dim ond cyfran fach o ymwelwyr a gyfwelwyd ar y safleoedd eu hunain ym mhob un o'r wyth safle sy'n astudiaeth achos oedd yn gallu tynnu sylw at unrhyw newidiadau penodol yr oeddent wedi sylwi arnynt ers i'r safle ymuno â'r Cynllun Statws. Pan soniwyd am newidiadau, yn achos dau safle (Coetir Ysbryd y Llynfi a Choed Cymunedol Mynydd Mawr) roedd hyn yn ymwneud ag arwyddion newydd ac yn achos un safle crybwyllwyd cwympo a thorri coed (Coed Cymunedol Mynydd Mawr).


Yn aml, roedd ymwelwyr a oedd wedi defnyddio'r safle ers cryn amser (dros 2 flynedd) yn ansicr pryd yn union y gwnaed unrhyw newidiadau ar safleoedd, a hynny'n golygu nad oeddent yn gallu priodoli hyn i'r adeg ers i'r safle ymuno â'r Cynllun Statws.

### 3.4.3 Gweithgareddau hamdden y safleoedd

Gwnaed y mwyafrif o’r ymweliadau â’r safleoedd gan y tîm gwerthuso yn ystod mis Medi a dechrau mis Hydref 2025. Un canlyniad i amseriad yr ymweliadau hyn â’r safleoedd oedd nad oeddent yn cyd-daro ag unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau a gynhaliwyd gan safleoedd dros fisoedd yr haf, gan y gallai hynny wedi rhoi cyfle i gyfweld ag ymwelwyr a oedd yn cymryd rhan yn uniongyrchol mewn gweithgareddau hamdden wedi’u trefnu. O ganlyniad, roedd bron pob ymwelydd a oedd ar yr wyth safle yn mynd am dro yn gyffredinol neu’n mynd â’u cŵn am dro, a hynny wedi cyfyngu ar allu’r gwerthusiad i archwilio profiadau o weithgareddau hamdden eraill ar y safleoedd. Fodd bynnag, mae cyfweliadau â rheolwyr y safleoedd ac adolygu gwefannau safleoedd yr astudiaeth achos wedi rhoi manylion am ystod o weithgareddau hamdden wedi’u trefnu a rhai hunangyfeiriedig a gynhelir ac a gefnogir ar y safleoedd.

Gofynnai’r holiadur cymunedol i ymwelwyr y safleoedd pa weithgareddau hamdden y maent yn eu gwneud yn safle’r Goedwig Genedlaethol yr oeddent wedi ymweld ag ef. Gallai’r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn. O’r 137 o ymatebion a dderbyniwyd, yr atebion mwyaf cyffredin oedd cerdded (82%), mynd â chŵn am dro (64%) a gwylio bywyd gwyllt (64%). Fodd bynnag, mae canfyddiadau’r holiadur cymunedol yn dangos, ar draws yr wyth safle astudiaeth achos, fod pobl yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sydd hefyd yn cynnwys rhedeg (12%), beicio (9%), crefftau coed (8%), a physgota (1%). Pan atebai ymatebwyr ‘rhywbeth arall’, roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau gwirfoddoli yn bennaf ond hefyd chwilota yn y gwyllt am fwyd a marchogaeth ceffylau. Ceir rhagor o fanylion yn Ffigur 3.7.

**Ffigur 3.7 Gweithgareddau hamdden wedi’u cynnal yn safleoedd yr astudiaethau achos**




Ffynhonnell: holiadur cymunedol Wavehill. N= 137

Ym marn y tîm gwerthuso, mae hyn yn dangos y cyfraniad y mae'r safleoedd unigol yn ei wneud i feysydd polisi sy'n ymwneud â chael pobl yn egnïol a mabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Gallai ymchwil bellach asesu maint y cyfraniad at ffyrdd iach o fyw ar draws rhwydwaith y 72 o safleoedd Cynllun Statws, a hyn wedi'i archwilio'n fanylach yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

### 3.4.4 Rolau a chyfleoedd gwirfoddoli

Roedd yn amlwg o ymweliadau'r tîm gwerthuso â'r safleoedd fod pob un o'r wyth safle yn cael eu cefnogi'n gryf gan wirfoddolwyr. Un enghraifft yw bod rheolaeth Coed y Bont, coetir 60 erw sy'n eiddo i CNC, yn cael cymorth Cymdeithas Coetir Cymunedol Coed y Bont, sef grŵp o wirfoddolwyr a sefydlwyd yn 2008. Mae gan Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise, a reolir gan gwmni buddiant cymunedol Naturewise, gronfa reolaidd o wirfoddolwyr sy'n cwrdd bob dydd Mawrth a thrydydd Sadwrn y mis ac yn gwneud amrywiaeth o dasgau i gefnogi rheolaeth y safle.

Mae cyfweliadau â staff safleoedd a chyfweliadau â grwpiau ffocws a gwirfoddolwyr yn saith o safleoedd yr astudiaethau achos yn awgrymu bod yr adnodd gwirfoddol hwn yn galluogi'r safleoedd hyn i gynnal amrywiaeth o weithgareddau rheoli coetir ac ymgysylltu cymunedol, ar yr un pryd â bod yn fuddiol i'r gwirfoddolwyr eu hunain.

> "Mae'r Parcmyn bob amser yn rhoi'r neges i ni ein bod ni'n helpu i gynnal y safon yn yr ystad. Mae'n bwysig bod llwybrau troed yn cael eu cadw ar agor, a gallwn ni helpu i wneud hynny'n fwy rheolaidd." Grŵp ffocws gwirfoddolwyr Castell y Waun

Mae rôl bwysig gwirfoddolwyr wrth gefnogi amcanion rhaglen y Goedwig Genedlaethol i'w gweld yng Nghoetiroedd Bryn Sirhowy, sef coetir cymunedol tua 85 hectar ger Tredegar ym Mlaenau Gwent. Mae'r tîm gwirfoddolwyr yno yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau masnachol gan gynnwys cael gwared ar goed, teneuo, gwaith perllan/coetir, bondocio a chwympo coed, torri coed tân, tocio, strimio, clirio prysgwydd a llystyfiant a melino. Mae gan y coetir hefyd siop sydd â staff gwirfoddol sy'n gwerthu cynhyrchion amrywiol fel pecynnau cychwyn tân/coed tân, byrddau torri a chladin.

Mae safle Coetiroedd Bryn Sirhowy yn fodel defnyddiol ar gyfer safleoedd coetir eraill ynghylch cynhyrchu refeniw trwy siop ar y safle wedi'i chefnogi gan wirfoddolwyr. Fel yr amlinellwyd gan staff y safle, caiff refeniw o'r siop ei ailfuddsoddi i gefnogi rheoli a chynnal a chadw'r coetir yn y dyfodol. Cynhyrchir refeniw hefyd trwy werthu meinciau coffa, cyflwyno coed er cof a chreu aelodaeth coetir. Yn seiliedig ar gyfweliadau â staff y safle, mae ehangder y rolau gwirfoddol sydd ar gael ym Mryn Sirhowy hefyd wedi bod yn fan cychwyn i rai gwirfoddolwyr symud i gyflogaeth â thâl gan ddefnyddio'r sgiliau rheoli coetiroedd a choedwigoedd a gawsant wrth wirfoddoli.

Mae gwirfoddolwyr Coetiroedd Bryn Sirhowy hefyd wedi esgor ar fuddion ehangach i'r gymuned leol y tu hwnt i'r coetir, er enghraifft drwy ddefnyddio eu sgiliau i greu gwelyau plannu mewn gerddi cymunedol a gerddi tyfu yn y fro. Yn seiliedig ar gyfweliadau â gwirfoddolwyr ar y safle, mae hyn hefyd wedi helpu i godi proffil y coetiroedd a'r cyfleoedd hamdden ynddynt i bobl leol.

Ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr, sef hen bwll glo yn Sir Gaerfyrddin, mae Grŵp Cyfeillion gweithgar yn cynnal y safle. Amlygodd cyfweliadau ar y safle gyda gwirfoddolwyr bod eu gweithgarwch yn cynnwys clirio llystyfiant, rheoli planhigion ymledol, gosod a chynnal a chadw llwybrau a seilwaith. Mae'r gwirfoddolwyr hefyd yn trefnu gweithgareddau awyr agored fel teithiau cerdded tywys a llwybrau gweithgareddau i blant ac mae ganddynt gysylltiadau â mudiadau lleol gan gynnwys Cadwch Mynydd Mawr yn Daclus, Tîm Blynyddoedd Cynnar Cwm Gwendraeth a Chanolfan Deuluoedd y Tymbl.

Yng Ngardd Goedwig Gymunedol Naturewise, mae gwirfoddolwyr yn cefnogi'r safle trwy reoli siop Eco sydd ar ystad ddiwydiannol gerllaw. Yn y siop gwerthir amrywiaeth o nwyddau ail-law ac mae'n darparu tua £12,000 y flwyddyn sy'n helpu i gyllido rheolaeth yr ardd goedwig gymunedol.

Mae potensial i waith gwirfoddolwyr mewn safleoedd Cynllun Statws gyfrannu'n uniongyrchol at nifer o ganlyniadau'r Goedwig Genedlaethol, yn enwedig y rheiny sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr i ddarparu ystod o gyfleoedd hamdden a dysgu. Fel y gwelwyd ar draws safleoedd yr astudiaethau achos, mae gwirfoddolwyr hefyd yn cefnogi'r canlyniad gorfodol o 'goetiroedd gwydn o ansawdd da, sydd wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda'.

Fodd bynnag, yn seiliedig ar gyfweliadau ar y safle a grwpiau ffocws gyda gwirfoddolwyr, pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn ymwybodol a oedd eu gwaith gwirfoddol wedi cefnogi'r safle i gyfrannu at ganlyniadau rhaglen ehangach y Goedwig Genedlaethol, roedd gwirfoddolwyr yn aml yn nodi nad oeddent yn ymwybodol o hyn. Roedd hyn yn amlwg mewn adborth gan wirfoddolwyr Ystad Castell y Waun a Choetiroedd Stad Stagbwll. Gall hyn amlygu cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r Goedwig Genedlaethol ac adborth i wirfoddolwyr ar bwysigrwydd eu cyfraniad.

#### 3.4.5 Gwybodaeth a dehongli

Awgrymodd cyfweliadau gydag ymwelwyr a gwirfoddolwyr ar safleoedd Castell y Waun, Coetir Ysbryd y Llynfi a Choed y Bont (Dolgoed) nad oedd Coedwig Genedlaethol Cymru bob amser yn amlwg ar wefannau'r safleoedd hyn. Awgrymodd yr holl ymwelwyr a gwirfoddolwyr a gyfwelwyd ar y safleoedd hyn y byddai'n ddefnyddiol hyrwyddo rhaglen y Goedwig Genedlaethol trwy'r sianeli ar-lein a ddefnyddir gan reolwyr safleoedd i gynorthwyo â'r ymdrechion i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y fenter.

Er enghraifft, mae manylion am ystad Castell y Waun ar gael trwy wefan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wrth iddi hyrwyddo'r 480 erw o goetir, dolydd a glaswelltiroedd â thenantiaid a chyfleoedd i ymwelwyr ddarganfod 'tirwedd llawn coed hynafol, blodau gwyllt, adar a phryfed'. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad gan y tîm gwerthuso, canfuwyd nad yw cynnwys y dudalen we ar hyn o bryd yn cyfeirio at y Goedwig Genedlaethol er bod y safle wedi ymuno â'r Cynllun Statws ym mis Medi 2024 [troednodyn 5]

Thema arall a ddaeth i'r amlwg mewn cyfweliadau gydag ymwelwyr yng Nghoed Cymunedol Mynydd Mawr a Choetiroedd Stad Stagbwll oedd yr awydd am ragor o

---

**Troednodiadau**

[5] Aethpwyd ar y dudalen ar 15 Hydref 2025.

wybodaeth am gynefinoedd, gwaith cadwraeth a dulliau rheoli coetiroedd, gan gynnwys byrddau dehongli mewn lleoliadau addas. Mae'r gwaith hwn ar y gweill yng Nghoetiroedd Stad Stagbwll fel rhan o'r grant TWIG sy'n dal ymlaen. Mae Parc Gwledig Porthceri a Choetiroedd Bryn Sirhowy hefyd yn elwa o gyllid grant TWIG gan ei fod yn helpu i wella arwyddion a dehongliadau yn y safleoedd.

## 3.5 Buddion i gymunedau drwy safleoedd y Goedwig Genedlaethol


Un o amcanion Cam 2 y gwerthusiad oedd archwilio a deall y manteision a'r buddion i gymunedau a geir drwy safleoedd y Goedwig Genedlaethol. Mae ymchwil flaenorol wedi amlinellu'r buddion posibl sydd ar gael trwy safleoedd coetiroedd a choedwigoedd. Mae Adolygiad Tystiolaeth y Goedwig Genedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cyflwyno tystiolaeth o'r manteision a'r anfanteision cymdeithasol a diwylliannol ehangach a allai fod yn ganlyniad i goetiroedd. Yn yr adroddiad tynnir sylw at gorff sylweddol o dystiolaeth am y cysylltiadau rhwng ymwneud â choed, coetiroedd, a choedwigoedd ac iechyd meddwl a lles, ac iechyd corfforol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi enghreifftiau o fentrau coedwigoedd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac sydd wedi targedu grwpiau penodol yn y gymdeithas, gan gynnwys y rheiny sydd leiaf egnïol, y rhai ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl, neu'r bobl hynny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Drwy'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws yn ystod ymweliadau â'r safleoedd, ynghyd â'r holiadur cymunedol, daethpwyd i ddysgu am y buddion i bobl a chymunedau yn wyth safle'r astudiaethau achos. Er nad yw'r safleoedd hyn o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r 72 safle sy'n ffurfio rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, eto mae'r is-adrannau canlynol yn dangos y buddion a adroddwyd gan wirfoddolwyr ac ymwelwyr. Dengys y canfyddiadau hyn werth casglu tystiolaeth o ystod llawer ehangach o safleoedd fel rhan o unrhyw ddull mesur effaith yn y dyfodol ar gyfer y rhaglen. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

### 3.5.1 Y buddion a geir o ymweld â safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru

Gofynnwyd i bobl a ymatebodd i'r holiadur cymunedol pa fuddion, os rhai o gwbl, yr oeddent wedi'u cael yn sgil eu hymweliad â safle'r coetir. Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis mwy nag un budd. Dengys yr atebion yr ystod eang o fuddion a gafwyd o'u hymweliad â'r safle sydd yng Nghoedwig Genedlaethol Cymru. Er mai iechyd corfforol gwell (85% neu 115/136) ac iechyd meddwl gwell (84% neu 114/136) oedd y buddion mwyaf cyffredin a adroddwyd, mae'r ymatebion yn dangos ehangder y buddion a ddeilliai o ymweld â'r safleoedd coetir a choedwig. Nododd ychydig dros ddwy ran o dair (68% neu 92/136) o ymatebwyr yr holiadur fod eu safle coetir neu goedwig wedi gwella ansawdd eu bywyd yn gyffredinol. Mae Ffigur 3.8 isod yn rhoi rhagor o fanylion.

**Ffigur 3.8 Buddion ymweld â safle'r Goedwig Genedlaethol yn ôl ymatebwyr yr holiadur cymunedol**





Ffynhonnell: holiadur cymunedol Wavehill. N= 136

Ym marn y tîm gwerthuso, mae hyn yn arwydd bod rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn cyfrannu at ystod o amcanion polisi cenedlaethol gan gynnwys amcanion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr holiadur cymunedol hefyd i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag amrywiaeth o ddatganiadau am goedwigoedd a choetiroedd. Dangosodd yr ymatebion gytuno cryf â'r datganiadau 'maent yn fannau pwysig i fywyd gwyllt' (89% neu 119/134), 'maent yn lleoedd lle gall pobl ymlacio a lleddfu straen ynddynt' (83% neu 109/132), 'maent yn gwneud ardaloedd yn llefydd brafiach i fyw ynddynt' (83% 111/134), 'maent yn llefydd lle gall pobl wneud ymarfer corff a chadw'n heini ynddynt' (82% neu 111/135) ac 'maent yn llefydd lle gall pobl gael hwyl a mwynhau eu hunain ynddynt' (77% neu 103/134). Ceir manylion pellach yn Ffigur 3.9.


**Ffigur 3.9 Meysydd cytuno'n gryf â datganiadau am goedwigoedd a choetiroedd**




Ffynhonnell: holiadur cymunedol Wavehill. N= 136

Prin oedd y meysydd yr anghytunai pobl â'r datganiadau, a hynny'n dangos y buddion cadarnhaol y mae ymatebwyr yr arolwg yn eu cysylltu â safleoedd coetiroedd a choedwigoedd. Yn Ffigur 3.10 gwelir yr ymatebion sy'n dangos y meysydd lle cytunid â'r datganiadau.

**Ffigur 3.10 Meysydd ehangach cytuno â datganiadau am goedwigoedd a choetiroedd**




Disgrifiad o ffigur 3.10: Siart bar llorweddol yn dangos cytuno â datganiadau am goedwigoedd a choetiroedd. Mae cytuno'n gryf ar ei uchaf ar gyfer "mannau i ddysgu am yr amgylchedd" (60%), ac yna "dysgu am ddiwylliant neu hanes lleol" (41%). Mae datganiadau eraill, fel dod â'r gymuned ynghyd a chyfrannu at yr economi leol, yn dangos lefelau cymysg o gytundeb.

Ffynhonnell: holiadur cymunedol Wavehill. N= 136

Dengys canfyddiadau'r holiadur bod y cytuno mwyaf gan amlaf yn ymwneud â phwysigrwydd coetiroedd i'r amgylchedd a buddion hamdden gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles corfforol. Ychydig yn llai cryf oedd y cytundeb ynghylch rôl coedwigoedd a choed i'r cymunedau a'r economi leol. Gall hyn ddangos y mathau o fuddion y gallai'r rhaglen eu hyrwyddo ymhellach yn y dyfodol.

Y prif fuddion o ymweld â safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru a adroddwyd gan yr 83 o ymwelwyr a oedd wedi'u holi gan y tîm gwerthuso oedd gwelliannau i'w hiechyd a'u lles. Disgrifiodd ymwelwyr fuddion cynhenid [troednodyn 6] yn deillio o dreulio amser yn y safleoedd coedwig a chysylltu â natur, ynghyd â buddion cyfrannol [troednodyn 7] a gafwyd o gymryd rhan mewn gweithgarwch wedi'i drefnu neu ddysgu sgiliau newydd.

> "Rwy'n cwrdd â phobl yma, rwyf wedi cwrdd â llawer o bobl oedrannus yma sy'n wirioneddol unig ond pan maen nhw'n cerdded yma maen nhw'n cwrdd â

**Troednodiadau**

[6] Buddion cynhenid (*intrinsic*) yw'r gwobrau mewnol, annirweddol sy'n deillio o'r weithred o wneud rhywbeth er ei fwyn ei hun, fel ymdeimlad o gyflawni rhywbeth, twf personol, neu foddhad.

[7] Buddion cyfrannol (*instrumental*) yw'r buddion ymarferol neu'r canlyniadau defnyddiol a geir o rywbeth, er enghraifft ennill profiad a sgiliau i helpu i gael swydd.

> cherddwyr eraill ac weithiau'n cael cyfle i sgwrsio." Ymwelydd â Pharc Coetir y Mynydd Mawr

> "Mae'r castell a'r gerddi yn wych i ymweld â nhw ond y peth gorau i mi yw bod y coed a'r teithiau cerdded ar gael 24 awr y dydd a mynediad am ddim. Mae fy nghŵn wrth eu bodd â'r lle ac mae wedi gwella ansawdd eu bywyd nhw a minnau'n fawr, o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl." Ymatebydd holiadur cymunedol Castell y Waun

> "Mae fy merch fach wrth ei bodd yma, gall hi sblasio mewn pyllau dŵr, edrych ar natur, mae'r drysau tylwyth teg yn ffab, mae hi wrth ei bodd yn dod o hyd iddyn nhw a'r tylwyth teg. Mae'n dda i fy lles innau hefyd, mynd allan am gwpl o oriau mewn lleoliad hyfryd." Ymwelydd â Pharc Coetir y Mynydd Mawr

Cydnabuwyd gan ymwelwyr ar draws pob safle fod buddsoddiad ariannol mewn safleoedd yn bwysig i wella eu cyfraniad at amcanion bioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd yn ogystal ag i ddarparu adnoddau i gymunedau gysylltu â natur.

> "Mae'r safle'n anhygoel. Yn y lluniau o'r lle yn y gorffennol, dim ond cae a rhedyn oedd yno, ond nawr mae gennych chi'r safle hwn sydd ag ardaloedd natur gwahanol, pyllau, dolydd gwyllt, perllannau, ardaloedd tyfu cymunedol, mae'n wych ac mae'r safle'n hygyrch iawn ac mae ganddo'r holl gyfleusterau y gall unrhyw un ymweld ag ef." Ymwelydd â Naturewise

### 3.5.2 Astudiaeth achos: Ymgysylltu â phobl sydd ag anghenion cymorth ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr

Defnyddir Parc Coetir y Mynydd Mawr yn lleoliad ar gyfer mudiadau a sefydliadau allanol. Mae'r rhain yn cynnwys Tir Coed a Choed Lleol sy'n cynnal hyfforddiant awyr agored, gweithgareddau coetir a natur sy'n canolbwyntio ar gefnogi canlyniadau dysgu, iechyd a lles ar gyfer cymunedau. Ynghyd â'r Grŵp Cyfeillion gweithgar sy'n cefnogi'r safle, y sefydliadau a'r mudiadau hyn yw'r catalydd ar gyfer ymgysylltu cymunedol, gan gydweithio ochr yn ochr â pharcmyn yr awdurdod lleol i gefnogi gweithgareddau addysgol ac ymgysylltu.

Mae gan Goed Lleol hanes o gyrraedd a gweithio gyda phobl o'r gymuned a allai fod yn cael bywyd yn anodd ac yn agored i niwed. Pwysleisiodd staff a gyfwelwyd gan y tîm gwerthuso y gall eu gwaith yn y Mynydd Mawr fod yn drawsnewidiol i'r unigolion hyn trwy feithrin eu hyder, eu cydnerthedd a'u hannog i chwilio am gyfleoedd pellach yn eu cymuned. Mae hyn wedi cynnwys un cyfranogwr a gymerodd ran yn eu hyfforddiant ac a aeth yn ei flaen wedyn i rôl wirfoddol ac sydd bellach wrthi'n mynd drwy'r broses o ddod yn arweinydd gweithgareddau cyflogedig ar safle'r coetir.

### 3.5.3 Y buddion a geir o fod mewn partneriaeth â mudiadau allanol

Mewn pedwar o safleoedd yr astudiaethau achos, cyfwelodd y tîm gwerthuso â sefydliadau neu fudiadau allanol a oedd yn gweithio mewn partneriaeth â safleoedd, gan gynnwys cynnal gweithgareddau a gwasanaethau i grwpiau targed yn y gymuned. Yn seiliedig ar gyfweliadau â staff a gwirfoddolwyr y safle, roedd yr holl sefydliadau hyn yn helpu safleoedd

i ymestyn eu cyrhaeddiad i'w cymunedau priodol tra hefyd yn gwneud y defnydd mwyaf o'r cyfleusterau sydd ar gael ar safleoedd i gefnogi ystod o effeithiau cymdeithasol.

Mae enghreifftiau'r astudiaethau achos a gyflwynir isod yn cynnig dysgu gwerthfawr. Maent yn dangos ehangder yr effaith y gall safleoedd y Goedwig Genedlaethol ei chael ar gymunedau. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n ymgysylltu ac yn cefnogi amrywiaeth o bobl, gan gynnwys y rhai a allai fod heb gynrychiolaeth ddigonol ym mhroffil ymwelwyr safleoedd coetiroedd a choedwigoedd. Mae enghreifftiau pellach yn amlwg ar draws y rhwydwaith ehangach o safleoedd y Cynllun Statws fel y dangosir yn eu ceisiadau i ymuno â rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru.

### 3.5.4 Astudiaeth achos: Cydweithio â phartneriaid ym Mharc Gwledig Porthceri

Ym Mharc Gwledig Porthceri, mae tîm y parcmyn wedi bod yn gweithio gydag Innovate Trust ers dros wyth mlynedd. Mae Innovate Trust yn gweithio gyda phobl anabl i'w cefnogi i fyw yn annibynnol â chymorth. Cyniga gyfleoedd i'r bobl maent yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn tasgau cadwraeth a meithrin sgiliau amgylcheddol drwy weithgareddau amrywiol a rhaglenni hyfforddi.

Mae'r Cynllun Rheoli Coetir ar gyfer Parc Gwledig Porthceri yn cynnwys ymrwymiad i wella hygyrchedd y safle a chefnogi rolau gwirfoddolwyr. Mae parcmyn y safle wedi trefnu sesiynau wythnosol gydag Innovate Trust, a'r staff yn gwerthfawrogi ansawdd y gweithgareddau sgwrsio a'r cyfleoedd sydd wedi'u trefnu:

> "Maen nhw'n gosod tasgau priodol i'n pobl, swyddi go iawn y mae'r parcmyn angen help gyda nhw, nid dim ond ticio'r bocs." Cyfweliad â chynrychiolydd o Innovate Trust

Ym marn y tîm gwerthuso, mae'r gwaith ym Mharc Gwledig Porthceri gydag Innovate Trust yn enghraifft o'r hyn a wneir ar safleoedd i hyrwyddo cynhwysiant a chyfrannu at iechyd a lles yr unigolion sy'n cymryd rhan. Gall hyn hefyd dynnu sylw at y cyfleoedd i gyfrannu at amcanion cynhwysiant, iechyd a lles ar raddfa fwy, pe bai dulliau tebyg yn cael eu mabwysiadu ar draws y Goedwig Genedlaethol i bartneru â mudiadau a sefydliadau ledled Cymru sydd hefyd yn cefnogi pobl anabl. Pwysleisiodd staff o Innovate Trust effaith gadarnhaol eu gwaith gyda Pharc Gwledig Porthceri ar y bobl maen nhw'n eu cefnogi. Dywedwyd ganddynt fod y rolau gwirfoddoli wedi galluogi'r bobl a gefnogir ganddynt i ennill ystod o sgiliau (e.e. garddio, cyfathrebu, rheoli amser) yn ogystal â darparu ystod o fuddion iechyd meddwl a chorfforol. Mae'r rolau gwirfoddoli wedi canolbwyntio'n gryf ar ryngweithio cymdeithasol, ac adroddodd y staff fod hyn wedi helpu'r bobl maen nhw'n eu cefnogi i ddatblygu cyfeillgarwch newydd.

### 3.5.5 Astudiaeth achos: Creu cyfleoedd ar gyfer dysgu yng Ngardd Goedwig Gymunedol Naturewise

Ceir enghraifft arall o fanteision gweithio mewn partneriaeth i gymunedau yng Ngardd Goedwig Gymunedol Naturewise yn Aberteifi. Mae'r safle'n gartref i amryw o fudiadau sy'n gweithio gyda chymunedau lleol ac yn eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys The Lighthouse, sef

prosiect dysgu hunangyfeiriedig i blant saith oed a hŷn wedi'i leoli yng ngardd y goedwig ar y safle ac Ein Cegin, sef cegin gymunedol sy'n gweithio i gael mwy o bobl i ddefnyddio bwyd a gynhyrchir yn gynaliadwy trwy weithdai coginio cymunedol ymarferol.

Defnyddir y safle hefyd gan raglen Dechrau'n Deg sy'n cefnogi teuluoedd â phlant ifanc dan bedair oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Adroddodd staff o Dechrau'n Deg y gall y teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi ymlacio mewn man awyr agored fel safle Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise gan ei fod yn llai ffurfiol a bod gan blant bach y lle i redeg o gwmpas. Pwysleisiwyd ganddynt hefyd nad oes gerddi eu hunain gan lawer o'r teuluoedd a gefnogir gan eu gwasanaeth, felly mae eu gwaith ar y safle yn rhoi cyfle pwysig i deuluoedd gysylltu â natur. Mae Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise hefyd wedi croesawu grwpiau o blant o ysgolion lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau plannu coed ac wedi dysgu am bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.

Ym marn y tîm gwerthuso, mae'r gweithgareddau hyn sy'n digwydd yng Ngardd Goedwig Gymunedol Naturewise yn cefnogi ystod o amcanion polisi gan gynnwys cefnogi lles meddyliol oedolion a phlant, mynd i'r afael â thlodi a chynyddu gwirfoddoli.

### 3.5.6 Astudiaeth achos: Defnyddio dull Gwyddoniaeth Dinasyddion yng Nghoetiroedd Bryn Sirhowy

Codwyd tystiolaeth am y dull Gwyddoniaeth Dinasyddion yn ystod yr ymweliad i safle Coetiroedd Bryn Sirhowy, a hwythau'n gweithio gyda Buglife, sef elusen sy'n ymroddedig i warchod pob infertebrat. Maent yn cynnal ystod o brosiectau sydd wedi canolbwyntio ar adfer a gwella cynefinoedd gan gynnwys gwaith o fewn coetiroedd. Sefydlodd yr elusen bartneriaeth â grŵp Coetiroedd Bryn Sirhowy fel rhan o'u gwaith ar safleoedd rwbel glo.

Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys pobl leol yn cynnal arolygon ar bryfed, sydd yn ei dro wedi cefnogi'r elusen i ddysgu am rywogaethau pwysig fel miltroed Maerdy, a elwir yn 'Bwystfil Maerdy'. Adroddodd staff o Buglife fod cyfranogiad y gymuned leol wedi helpu i addysgu pobl am fioamrywiaeth Coetiroedd Bryn Sirhowy a safleoedd coetir eraill.

Mae Buglife Cymru wedi partneru ag artist lleol yng Nghoetiroedd Bryn Sirhowy i wneud llyfr i blant o'r enw 'the great bug life rescue' i addysgu plant lleol am y fioamrywiaeth yn eu hardal. Mae'r gwaith yng Nghoetiroedd Bryn Sirhowy yn tynnu sylw at fanteision safleoedd sy'n ymgysylltu â chymunedau drwy ddefnyddio dull Gwyddoniaeth Dinasyddion, a'r allbynnau ohono yn cynhyrchu data i gefnogi gwaith cadwraeth yn y dyfodol.

Ym marn y tîm gwerthuso, gall annog a chefnogi safleoedd Cynllun Statws i ddefnyddio dull Gwyddoniaeth Dinasyddion gefnogi'r garreg filltir genedlaethol yng Nghymru i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella sefyllfa rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad amlwg erbyn 2050.

Byddai defnyddio Gwyddoniaeth Dinasyddion fel dull yn golygu cael y capasiti a'r sgiliau i gasglu data i gynorthwyo dealltwriaeth am sefyllfa rhywogaethau mewn coetir neu goedwig. Gall defnyddio'r data hwn fod yn sail i waith a dulliau yn y dyfodol o gefnogi adferiad rhywogaethau ar draws safleoedd Cynllun Statws ac ar safleoedd coetiroedd a choedwigoedd yng Nghymru yn ehangach. Fel y dangosir yn eu ceisiadau i ymuno â

rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru, mae llawer o safleoedd y Cynllun Statws eisoes yn defnyddio dull Gwyddoniaeth Dinasyddion, a hynny'n dangos cyfraniad cyfunol tebygol y rhaglen at amcanion bioamrywiaeth ac adferiad rhywogaethau.

#### 3.5.7 Buddion i wirfoddolwyr

Mae pob un o safleoedd yr astudiaethau achos yn defnyddio ac yn cefnogi gwirfoddolwyr. Mae corff cynyddol o dystiolaeth ar fanteision a buddion gwirfoddoli i unigolion (iechyd, lles, cysylltiadau cymdeithasol) ac i gymunedau (balchder mewn lle, cydlyniant cymdeithasol) (Davies ac eraill, 2024). Mae'n debyg fod y gwaith gan y safleoedd i greu amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli a *visiteering* [troednodyn 8] yn cyfrannu'n uniongyrchol at y targed yng Nghymru i gynyddu canran y bobl sy'n gwirfoddoli 10% erbyn 2050, sef un o'r 7 nod lles cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae Castell y Waun, sydd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, yn cael ei reoli gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'i gefnogi gan ddau grŵp o wirfoddolwyr. Y grŵp cyntaf yw gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Caer sy'n grŵp sefydledig a phrofiadol o wirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith adfer cynefin ar safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Ngogledd Orllewin Lloegr a De Ddwyrain Cymru. Maent yn gweithredu unwaith yr wythnos, gan gylchdroi eu gweithgareddau mewn gwahanol safleoedd gan gynnwys Castell y Waun.

Mae ail grŵp llai o wirfoddolwyr rheolaidd yn cyfrannu dau i dri diwrnod yr wythnos i weithgarwch ar y safle. Mae gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Caer yn ystyried eu gwaith fel 'campfa werdd' [troednodyn 9] gan gyfarfod yn rheolaidd i gynorthwyo ar y safle. Mae cyfweliadau a gynhaliwyd gyda gwirfoddolwyr ar y safle yn dangos eu bod yn gwerthfawrogi elfen gymdeithasol eu gwaith yn arbennig ac wedi magu balchder mawr wrth gyfrannu at reoli safle'r coetir.

Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar Coed y Bont (Dolgoed) a chaiff ei reoli gan CNC sydd wedi sefydlu cytundeb rheoli cymunedol gyda Chymdeithas Coetir Cymunedol Coed y Bont. Mae'r safle yn cefnogi cronfa o wirfoddolwyr sy'n gwneud amrywiaeth o dasgau adfer a chynnal a chadw ar y safle.

Roedd consenswS ymhlith y gwirfoddolwyr a gyfwelwyd gan y tîm gwerthuso mai eu cymhellion dros fod yn rhan o'r safle oedd rhoi rhywbeth yn ôl i'w cymuned leol ond hefyd i elwa o'r cysylltiadau cymdeithasol â gwirfoddolwyr eraill. Mae adran nesaf yr adroddiad hwn yn rhoi awgrymiadau ar ffyrdd o gasglu data ar waith gwirfoddolwyr ar draws safleoedd y Cynllun Statws ac i fesur y buddion a gânt o'u rôl wirfoddoli.

---

**Troednodiadau**

[8] Mae 'visiteering' yn cyfeirio at ffordd hyblyg o wirfoddoli am gyfnod byr y gall ymwelwyr ei wneud mewn lleoliad, yn aml ar yr un diwrnod. Fe'i disgrifir yn aml fel math o "ficro-wirfoddoli" oherwydd ei fod yn gofyn am ymrwymiad amser byr ac wedi'i integreiddio i ymweliad.

[9] Mae "Campfa Werdd" yn rhaglen ymarfer corff awyr agored lle mae aelodau'r gymuned yn gwneud gweithgarwch cadwraeth ac amgylcheddol ymarferol, fel plannu coed, garddio, neu reoli coetiroedd. Ei nod yw gwella iechyd a lles corfforol a meddyliol cyfranogwyr wrth wella mannau gwyrdd lleol ar yr un pryd.

### 3.6 Dyheadau ac awgrymiadau ar gyfer y dyfodol

Ar y cyfan roedd holl staff y safleoedd a gyfwelwyd gan y gwerthusiad yn cefnogi'r syniad o gyfleoedd yn y dyfodol i gysylltu â rhwydwaith ehangach y safleoedd sydd yn y Cynllun Statws a dysgu o'r rhwydwaith hwnnw. Mae hyn eisoes yn digwydd trwy Rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru sy'n cynnal digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb yn benodol i alluogi safleoedd i ddysgu oddi wrth ei gilydd a dysgu o ymchwil ehangach a rhaglenni tebyg o bob cwr o'r Deyrnas Unedig. Cyfeiriodd pedwar safle yn benodol at werthfawrogi cefnogaeth ac arweiniad parhaus y Tîm Cyswllt Coetiroedd – a'r gefnogaeth honno yn cynnwys trefnu'r Rhwydwaith.

Yn ystod cyfweliadau, dywedodd dau reolwr safle eu bod yn bwriadu buddsoddi ymhellach yn y cyfleusterau ymwelwyr sydd ar eu safleoedd, er enghraifft, trwy greu llwybrau beicio mynydd. Mae gan dri o'r safleoedd brosiectau grant TWIG ar y gweill a phan fydd y rhain wedi'u cwblhau byddant yn gwella cyfleusterau yn y safleoedd hyn megis creu llwybrau hygyrch neu osod cyfleusterau ymwelwyr newydd megis toiledau. Dywedodd pob rheolwr safle eu bod hefyd yn archwilio opsiynau i ddatblygu eu gweithgareddau menter a'u ffrydiau incwm i'w helpu i gael adnoddau ar gyfer cyflawni eu cynlluniau rheoli coetiroedd.

Dangosodd cyfweliadau â staff yng Nghoetir Ysbryd y Llynfi, sydd wedi'i leoli ar safle hen Bwll Glo Coegnant a Golchfa Maesteg, eu bod yn teimlo bod y diffyg cyfleusterau toiled a man parcio gwael yn cyfyngu ar eu cynnig i ymwelwyr. Er bod y safle yn anelu at ehangu'r ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau a gynigir er budd cymunedau lleol, roedd angen buddsoddiad i wella ei gyfleusterau i ymwelwyr.

Mae'r safle, sy'n rhan o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru, bellach yn cael ei reoli gan Gyfeillion Llynfi o dan gytundeb sy'n trosglwyddo'r rheoli o Gyfoeth Naturiol Cymru i'r grŵp gwirfoddolwyr. Yn ddiweddar dyfarnwyd Gwobr Gymunedol y Faner Werdd i'r safle, sef meincnod ar gyfer parciau a mannau gwyrdd dan reolaeth gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, mae diffyg cyfleusterau addas yn golygu nad ydynt yn gallu cynnal ymweliadau ysgolion ac mae gweithgareddau gwirfoddol wedi'u cyfyngu i 2 awr. Er bod y safle'n cynnig sesiynau gwirfoddoli rheolaidd, gan gynnwys sesiynau galw heibio, dywedodd staff y safle wrth gael eu cyfweld eu bod yn cael trafferth cynnal a thyfu niferoedd eu gwirfoddolwyr, a hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar y capasiti sydd ar gael i reoli'r safle sy'n cynnwys cael y gymuned leol i ymwneud â'r coetir. Mae hyn yn dangos y gallai rhai safleoedd yn y Cynllun Statws fod angen cyllid a chefnogaeth yn y dyfodol i'w galluogi i wireddu eu potensial fel ased i gymunedau lleol neu i gryfhau'r effaith gadarnhaol y maent eisoes yn ei chael. Mae cyllid grant TWIG wedi bod yn un dull gan raglen y Goedwig Genedlaethol i gefnogi safleoedd i wella eu cyfleusterau fel rhan o'u taith i ymuno â'r Cynllun Statws. Fodd bynnag, efallai yn y dyfodol na fydd y cyllid fydd ei angen ar safleoedd o reidrwydd yn cael ei ddarparu trwy raglen y Goedwig Genedlaethol ond yn hytrach trwy fod safleoedd yn canfod ac yn sicrhau ffynonellau eraill o gymorth ariannol i'w galluogi i barhau i fuddsoddi yn eu coetir.

Dyheadau ac awgrymiadau ar gyfer y dyfodol oedd un o'r cwestiynau yn yr holiadur cymunedol a ddosbarthwyd gan reolwyr safleoedd fel rhan o'r gwerthusiad. Gofynnwyd i ymatebwyr yr holiadur cymunedol beth arall yr hoffent ei weld ar safle'r coetir. Cafwyd ateb

i'w cwestiwn hwn gan 103 o'r 137 o'r ymatebwyr, a'r atebion yn amrywio, a hynny'n debygol o adlewyrchu amrywiaeth safleoedd yr astudiaethau achos.

Roedd y chwe awgrym y soniwyd amdanynt amlaf yn ymwneud â gwella cyfleusterau ymwelwyr, yn bennaf mannau eistedd (n=10), llochesi neu guddfannau adar (n=9), cyfleusterau i gefnogi cynnal digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol (n=7), biniau baw cŵn (n=6), cynnal a chadw llwybrau troed (n=6), a llwybrau ceffylau gwell gan gynnwys ar gyfer marchogion (n=5). Mae'r dyfyniadau isod yn dangos rhai o'r gwelliannau yr hoffai ymatebwyr eu gweld.

> "Hoffwn weld mwy o fannau eistedd i orffwyso gan fy mod yn anabl a llefydd da i edrych ar fywyd gwyllt. Hefyd ardal fach, dan do i gysgodi rhag y glaw sydd â seddi wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol a fydd yn cyd-fynd â'r amgylchedd." Ymatebydd i holiadur cymunedol Coetir Ysbryd y Llynfi

> "Blychau nythu ar gyfer ystod eang o adar, nid yn unig rhai bach, ond hefyd ar gyfer rhywogaethau fel y cudyll coch a'r dylluan wen. Hefyd, byddai bwrdd hysbysiadau yn hysbysebu gweithgareddau yn y parc fel plannu coed, casglu sbwriel neu deithiau cerdded tywys drwy natur yn ddefnyddiol. Dim ond ar ôl iddynt ddigwydd y byddaf yn clywed am bethau fel sesiynau casglu sbwriel, pan fydd adroddiad amdanynt yn y papur lleol." Ymatebydd i holiadur cymunedol Parc Gwledig Porthceri

Er bod rhai ymatebwyr yn awyddus i'w safleoedd gynnwys mwy o arwyddion, marciau ffordd a byrddau gwybodaeth (n=13), roedd dau ymatebydd yn awyddus i'r rhain gael eu cyfyngu er mwyn sicrhau bod safleoedd yn cael eu cadw fel mannau naturiol i fwynhau natur.

> "Arwyddion gwell i bobl wybod ble mae'r lle a sut i gyrraedd yma a byrddau gwybodaeth i ddweud wrth bobl am y coetir a bywyd gwyllt." Ymatebydd i holiadur cymunedol Coetiroedd Bryn Sirhowy

Soniodd nifer fach o ymatebwyr (n=3) am y dyhead i safleoedd gyflwyno rhywogaethau a gollwyd fel bele'r coed neu faedd gwyllt.

## 3.7 Cyfleoedd i'r dyfodol

Drwy'r dystiolaeth gyfunol a gasglwyd o ymgysylltu ar y safleoedd â staff, ymwelwyr, gwirfoddolwyr a mudiadau allanol, ynghyd ag atebion yr holiadur cymunedol yn yr wyth safle sy'n astudiaethau achos, gellid gweld yr ystod eang o fuddion a gynhyrchir gan y coetiroedd a'r coedwigoedd sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws. Er nad yw safleoedd yr astudiaethau achos o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r buddion a gynigir gan bob safle yn y Cynllun Statws, eto maent yn dangos bod Rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn darparu ystod amrywiol o fuddion cadarnhaol i bobl a'u cymunedau.

Ym marn y tîm gwerthuso, mae'r dystiolaeth a gynhyrchwyd drwy ymweliadau â safleoedd yr astudiaethau achos yn awgrymu bod ystod o opsiynau a chyfleoedd ar gyfer adeiladu ar y gwaith presennol gyda chymunedau sy'n amlwg yn y safleoedd hyn. Un o'r themâu mwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r ymweliadau oedd pwysigrwydd rhannu arferion, dysg a

gwybodaeth ar draws y rhaglen i gefnogi safleoedd i reoli eu coetiroedd. Mae hyn eisoes ar waith drwy Rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru. Gall rhannu gwybodaeth ac arfer gorau yn effeithiol gynorthwyo safleoedd yn unigol yn ogystal â'r rhaglen gyfan i gyflawni yn erbyn canlyniadau lefel uchel Coedwig Genedlaethol Cymru a'r cerrig milltir cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Er bod gwirfoddolwyr yn cefnogi pob safle yn yr astudiaethau achos, codwyd pryderon yn ystod cyfweliadau gyda phob rheolwr safle a'r gwirfoddolwyr eu hunain ynghylch heriau cynyddol wrth recriwtio gwirfoddolwyr i sicrhau capasiti pwysig i gynorthwyo rheoli coetiroedd. Ym marn y tîm gwerthuso, un cyfle i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru yw sicrhau bod gan safleoedd Cynllun Statws broffil ar blatfform Gwirfoddoli Cymru, sy'n helpu mudiadau i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli. Gellid bwrw ymlaen â hyn drwy hyrwyddo'r platfform yn uniongyrchol i safleoedd drwy rwydwaith y Goedwig Genedlaethol neu drwy archwilio opsiynau i'r rhaglen broffilio'r safleoedd yn uniongyrchol gyda'r platfform.

Yn sgil y pwyslais cryf ar gefnogi iechyd a lles gwirfoddolwyr ac ymwelwyr, mae cyfleoedd hefyd i safleoedd Cynllun Statws gael eu hyrwyddo ar wefan Dewis Cymru, sef gwefan sy'n helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth am sefydliadau, mudiadau a gwasanaethau a all eu helpu i gymryd rheolaeth ar eu lles eu hunain.

Yn fwy cyffredinol, dangosodd adborth a gasglwyd yn ystod ymweliadau â safleoedd a thrwy'r holiadur cymunedol pa mor bwysig oedd darparu adnoddau a chefnogi gwaith hyrwyddo parhaus ar gyfer y rhaglen gyfan ac ar gyfer safleoedd unigol yn y Cynllun Statws. Er bod gan safleoedd fodd o gael gafael ar ystod eang o gefnogaeth gan eu Swyddog Cyswllt a'u hadnoddau, gan gynnwys arwyddion a byrddau gwybodaeth, ffotograffiaeth a lluniau fideo proffesiynol a hyrwyddo am ddim trwy Croeso Cymru, mae'n debyg y bydd angen gwaith hyrwyddo parhaus i gynorthwyo'r safleoedd i ddenu gwirfoddolwyr ac ymwelwyr.

Yn y cyfweliadau â rheolwyr y safleoedd amlinellwyd ystod o gyfleoedd i wella'r cyfleusterau i ymwelwyr ar eu safle neu gyflwyno gweithgareddau menter newydd i gynhyrchu incwm i gefnogi gweithredu cynlluniau rheoli – gweler adran 3.6. Fodd bynnag, roedd y gallu i wireddu'r cyfleoedd hyn yn dibynnu ar argaeledd cefnogaeth ariannol fel yr un a ddarperir gan grant TWIG sy'n rhan o raglen Goedwig Genedlaethol Cymru neu gyllid o'r tu allan i'r rhaglen.

### 3.8 Barn rhanddeiliaid am y Goedwig Genedlaethol

Gan adeiladu ar farn rhanddeiliaid ar y Goedwig Genedlaethol fel yr adroddwyd yn adroddiad Cam 1 y gwerthusiad, cwblhaodd y tîm gwerthuso nifer fach (n=7) o gyfweliadau rhwng Gorffennaf ac Awst 2025 gyda rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â pholisi ac ymarfer coedwigaeth yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o Forest Research, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Prifysgol Bangor, Stump Up for Trees, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bro Morgannwg.

Pwrpas y cyfweliadau hyn oedd archwilio barn ar yr hyn y mae rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn ceisio'i gyflawni a chysyniad y Goedwig Genedlaethol fel ffordd o blannu coed neu reoli coetiroedd presennol yn dda. Roedd cytundeb barn yng

nghefnogaeth y rhanddeiliaid hyn i sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel.

Roedd yr adborth yng Ngham 2 gan yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â pholisi ac ymarfer coedwigaeth yng Nghymru wedi dangos dyhead am ragor o wybodaeth a mewnwelediad ynghylch sut mae'r rhaglen yn gweithredu a'r ystod o fuddion y mae hi'n esgor arnynt, ar lefel safleoedd unigol ac ar lefel rhwydwaith. Mewn gwirionedd, mae'r rhwydwaith o 72 o safleoedd [troednodyn 10] eisoes yn esgor ar fuddion a manteision i gymunedau ac i fyd natur a chynefinoedd, fel y disgrifiwyd ganddynt yn eu ffurflen gais am Statws Coedwig Genedlaethol i Gymru. Cefnogir y canfyddiad hwn yn yr asesu ar geisiadau i'r Cynllun Statws a'r asesiad hwnnw wedi nodi, fel yr amlinellwyd yn adroddiad Cam 1, fod 93% o'r 55 safle nad ydynt yn safleoedd Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hasesu i fodloni'r holl ganlyniadau anorfodol. Roedd cefnogaeth gref i rannu dysgu ar draws rhwydwaith y safleoedd, i barhau i fod yn sail i'w rheoli ansawdd, ond hefyd i gefnogi ymdrechion eiriolaeth i arddangos gwerth a chyfraniad y rhaglen i ystod o feysydd polisi.

Ymysg rhanddeiliaid, gwahanol oedd lefelau eu hymwneud â'r rhaglen, ac felly roedd graddfa'r ymwybyddiaeth o'r cynnydd a wnaeth y rhaglen yn amrywio. I'r rheiny oedd yn fwy cyfarwydd â'r rhaglen, y teimlad cyffredinol oedd bod y cynnydd wedi bod yn gadarnhaol ers 2022, gyda rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol yn parhau i adeiladu momentwm a phroffil. Awgrymodd y rhai a nododd eu bod yn llai cyfarwydd y byddai'r rhaglen yn elwa o weithgarwch cyfathrebu cryfach i gynyddu ymwybyddiaeth o dwf y rhwydwaith.

Gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn ynghylch dyfodol rhaglen y Goedwig Genedlaethol ar ôl 2025. Mynegwyd barn gymysg ynghylch a ddylai'r rhaglen ganolbwyntio ar gydgrynhoi ac atgyfnerthu'r rhwydwaith presennol neu a ddylai barhau i ehangu nifer y safleoedd, er na fynegwyd barn gadarn gan bawb y naill ffordd na'r llall. Pan roddai rhanddeiliaid eu barn, roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a fyddai ehangu parhaus y rhwydwaith yn lleihau faint o gefnogaeth y gallai safleoedd presennol ei gael gan y tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd. Ym marn y tîm gwerthuso, mae hwn yn faes a fyddai'n elwa o gael eglurhad o ystyried y goblygiadau capasiti a rheolaeth ar y tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd sy'n gysylltiedig â'r gwaith o naill ai ddal ati i ehangu neu atgyfnerthu'r safleoedd presennol.

Thema gyffredin a godwyd i raddau amrywiol ym mhob cyfweliad â rhanddeiliaid oedd argaeledd adnoddau i gefnogi safleoedd presennol i reoli eu coetiroedd yn dda neu adnoddau i ddarpar safleoedd i wneud gwaith adferol i'w cael i sefyllfa lle gallent wneud cais i ymuno â'r rhwydwaith (e.e. gwneud unrhyw waith torri coed angenrheidiol neu glirio llwybrau presennol i sicrhau bod safleoedd yn ddiogel ac yn hygyrch i aelodau'r cyhoedd).

Er bod cydnabyddiaeth nad yw rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru wedi'i chynllunio i ddarparu cyllid refeniw parhaus i safleoedd coetiroedd sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws, awgrymodd tri rhanddeiliad y gallai fod angen cyllid ychwanegol ar safleoedd yn y rhwydwaith i'w galluogi hwy a'r rhaglen ehangach i wireddu eu potensial.

**Troednodiadau**

[10] Roedd y nifer hwn o safleoedd yn y Cynllun Statws yn gywir ar 26 Tachwedd 2025.

Nid oedd unrhyw awgrym yn ystod y cyfweliadau hyn â rhanddeiliaid y dylai'r cyllid hwn gael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru o reidrwydd, ond yn hytrach y dylai'r gwaith o barhau â'r opsiynau i gefnogi neu gyfeirio safleoedd at ffynonellau cymorth cyllid gael ei wneud fel rhan o waith y tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd a thrwy rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru. Awgrymodd un rhanddeiliad y gellid archwilio modelau cyllid gwyrdd [troednodyn 11] fel mecanwaith i sicrhau cyllid a buddsoddiad i gefnogi perchnogion coetiroedd i reoli eu safleoedd a mabwysiadu arferion sy'n meithrin cynaliadwyedd, gwydnwch a hyblygrwydd.

Maes arall y cytunid arno a oedd yn amlwg o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid oedd cefnogaeth gref i sefydlu dull clir o gasglu tystiolaeth ar sut mae safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru yn cyfrannu at ystod o feysydd polisi. Roedd hyn yn cynnwys cyfraniadau tuag at yr uchelgeisiau a nodir yn Strategaeth Coetiroedd i Gymru, rheoli risg llifogydd, Cynllun strategol Sero Net Llywodraeth Cymru, blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr a thargedau i godi lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol.

Yn gysylltiedig â hyn roedd dyhead i gael mwy o waith hyrwyddo i arddangos cyfraniadau at addysgu, hysbysu a dylanwadu ar farn y cyhoedd ar fanteision safleoedd coetir a choedwig. Tynnodd dau randdeiliad sylw at y ffaith y gellid alinio ymdrechion i gynyddu nifer yr ymwelwyr a'r gwirfoddolwyr sy'n ymgysylltu â safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru ag ymdrechion i gynyddu'r defnydd ar Wyddoniaeth Dinasyddion a chynhyrchu data gwerthfawr a dealltwriaeth o rywogaethau ar draws safleoedd coetir a choedwigoedd.

Ym marn y tîm gwerthuso, byddai ehangu defnyddio dull Gwyddoniaeth Dinasyddion yn y safleoedd Cynllun Statws nad ydynt eisoes yn ei ddefnyddio yn golygu bod potensial i gyfrannu tystiolaeth a mewnwelediad i lywio datblygiad polisi yn y dyfodol a rheoli coetiroedd yn effeithiol, ar draws rhaglenni Coedwig Genedlaethol Cymru yn ogystal ag mewn coedwigoedd a choetiroedd yn fwy cyffredinol.

**Troednodiadau**

[11] Diffinnir cyllid gwyrdd fel unrhyw fenter ariannol sy'n ariannu prosiectau a gwasanaethau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd neu sy'n rheoli risgiau amgylcheddol.

# 4 Dulliau gwerthuso effaith

Erbyn diwedd mis Tachwedd 2025, mae rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru yn cynnwys 72 o safleoedd. Ar draws y rhwydwaith, mae safleoedd yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau, gweithgareddau a rhaglenni cymunedol. Amlinellwyd enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn a'r buddion cysylltiedig yn adran flaenorol yr adroddiad hwn. Gwelir ystod y gweithgareddau hefyd yng ngharfan ddiweddaraf y deg safle i ymuno â'r rhwydwaith ym mis Mehefin 2025 a hwythau'n cynnig rhaglenni cymunedol a mentrau iechyd. Mae'n bwysig bod y rhaglen yn ei chyfanrwydd yn gallu asesu'r effaith y mae'r gweithgareddau hyn yn ei chael a, lle bo modd, y cesglir gwybodaeth ar draws pob safle. Felly, un o amcanion y gwerthusiad hwn oedd argymell dyluniad ar gyfer asesu effeithiau cymdeithasol yn y dyfodol, gan gynnwys yr hyn y dylid ei gynnwys yn y rhaglen i gefnogi mesur effaith.

Mae adran hon yr adroddiad yn seiliedig ar ymchwil desg a chyfweliadau â sefydliadau sy'n rheoli rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd mewn rhannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae hefyd yn pwyso ar weithdy mesur effaith a gynhaliwyd gyda staff o Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Goedwig Genedlaethol, cynrychiolwyr o'r tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd a Forest Research, sef gweithdy i adfyfyrio ar rai o'r dulliau posibl ar gyfer mesur effaith rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn y dyfodol. Mae'r gwerthusiad hwn wedi canolbwyntio ar opsiynau i fesur effaith gymdeithasol. Er bod effeithiau economaidd ac amgylcheddol hwythau'n bwysig i'r rhaglen, canolbwyntir yma ar yr elfen gymdeithasol er mwyn sicrhau bod gan y gwerthusiad hwn gwmpas clir a'i fod yn cynnig argymhellion mewn perthynas â mesur effaith gymdeithasol.

Dylai unrhyw ddull ar gyfer mesur effaith gymdeithasol geisio alinio ac ategu gweithgareddau a monitro sy'n canolbwyntio ar fesur effeithiau amgylcheddol ar draws safle Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y fframwaith monitro 30x30 sy'n ymgorffori ystod o fetrigau posibl i fesur cynnydd yn erbyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i 30x30, sef y targed byd-eang i amddiffyn 30% o dir, dŵr croyw a moroedd ar gyfer pobl a natur erbyn 2030. Dylai'r dull mesur effaith gymdeithasol a fabwysiedir gan Goedwig Genedlaethol Cymru hefyd gyd-fynd ag ymchwil a wneir yn y safleoedd Cynllun Statws gan randdeiliaid coedwigaeth yng Nghymru.

## 4.1 Dulliau gwerthuso effaith a ddefnyddir gan safleoedd coedwig eraill

Mae ymchwil flaenorol wedi pwysleisio natur 'dameidiog' y dystiolaeth ar effeithiau a chanlyniadau coetiroedd a choedwigoedd cymunedol. Er bod newid wedi bod mewn ffocws o fesur effeithiau bioffisegol (e.e. plannu coed) yn unig i fesur effeithiau cymdeithasol, awgryma'r dystiolaeth y gall monitro a gwerthuso ganolbwyntio'n ormodol ar fesur allbynnau yn hytrach na'r effeithiau tymor hwy ar bobl a chymunedau. Ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, mae mesur effeithiau dros y tymor hwy yn hytrach na chanolbwyntio ar allbynnau yn unig yn bwysig ac felly mae'r adroddiad hwn yn anelu at argymell ffordd o wneud hyn.

Mae'r tîm gwerthuso wedi adolygu'r rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd canlynol i ddeall ac archwilio eu dulliau o fesur effaith ac i nodi gwersi i hysbysu Rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru:

- Coedwig Genedlaethol Lloegr – fe'i sefydlwyd yn 1991 gan y National Forest Company, sef elusen dan oruchwyliaeth bwrdd o ymddiriedolwyr, yn ogystal â bod yn gorff hyd braich Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o greu Coedwig Genedlaethol i Loegr.

- Rhaglen Active Forests yn Lloegr – partneriaeth hirdymor rhwng Forestry England a Sport England sy'n anelu at annog pobl i ddechrau'r arfer o wneud gweithgarwch corfforol am oes i ymwelwyr â choedwigoedd Lloegr.

- Y Comisiwn Coedwigaeth – adran Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am ddiogelu, ehangu a hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar goetiroedd yn Lloegr.

- Coedwigoedd a Thiroedd yr Alban (Forestry and Land Scotland) - asiantaeth Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am reoli coedwigoedd a thiroedd cenedlaethol yr Alban.

Mae'r adolygiad wedi amlygu amryw o ddulliau o fesur effaith gymdeithasol yn ogystal â dysgu gwerthfawr y cyfeirir ato drwy gydol yr adrannau canlynol.

### 4.1.1 Coedwig Genedlaethol Lloegr

Mae Coedwig Genedlaethol Lloegr yn ymestyn dros Swydd Gaerlŷr, Swydd Derby a Swydd Stafford ac yn cwmpasu tua 200 milltir sgwâr. Sefydlwyd y fenter yn 1991 gan fod â ffocws ar drawsnewid tirwedd ôl-ddiwydiannol trwy greu coedwig ar draws Canolbarth Lloegr, gan gysylltu coedwigoedd gweddilliol hynafol Charnwood a Needwood. Mae'r fenter yn cynnig cyllid a chyngor ar draws ystod o themâu, o blannu coed a rheoli coetiroedd i dwristiaeth a'r celfyddydau. Mae hon yn fenter ar wahân a gwahanol i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

Ers ei lansio, mae Coedwig Genedlaethol Lloegr wedi sefydlu ei hun fel labordy byw, gan gydweithio â phrifysgolion, cyrff llywodraethol a sefydliadau annibynnol i ddeall, mesur a chynyddu'r effaith gadarnhaol ar bobl, natur a chynaliadwyedd. Mae ystod eang o ymchwil ac astudiaethau effaith ar gael o'u gwefan. Mae'r systemau monitro a sefydlwyd gan y fenter yn canolbwyntio ar asesu effaith uniongyrchol y rhaglen yn ogystal â'i chyfraniad at amcanion polisi ehangach y DU. Mae tîm y rhaglen yn casglu amrywiaeth o ddangosyddion, gan gynnwys:

- Nifer y coed a blannwyd (yn ôl math y rhywogaeth)
- Canran gorchudd coedwig (6% yn 1991 i 25% yn 2025)
- Canran y coedwigoedd sydd â mynediad i'r cyhoedd
- Llwybrau beicio newydd wedi'u creu (km)
- Llwybrau newydd drwy goedwig wedi'u creu (milltiroedd)

- Nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd sydd wedi cymryd rhan
- Nifer y grwpiau gwirfoddol sy'n rheoli coetiroedd
- Nifer oriau gwirfoddolwyr sy'n cefnogi gweithgarwch coedwig
- Nifer yr ymwelwyr bob blwyddyn
- Nifer y swyddi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth
- Cyfraniad at yr economi leol (£) yn seiliedig ar STEAM
- Nifer y prentisiaethau a'r hyfforddeiaethau
- Cyfanswm y grantiau i dirfeddianwyr (nifer a £).

Mae'r dangosyddion hyn yn ymwneud yn bennaf â gweithgareddau ac allbynnau a all gyfrannu at ganlyniadau ac effeithiau yn hytrach na dangos tystiolaeth o'r effeithiau eu hunain. Er enghraifft, mae casglu gwybodaeth am nifer y gwirfoddolwyr sy'n rheoli coetiroedd yn werthfawr ond nid yw'n rhoi unrhyw fewnwelediad i effaith gwirfoddoli ar y gwirfoddolwyr eu hunain na'r bobl sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau coedwig y maent yn eu cefnogi. Dengys hyn bwysigrwydd deall beth y gall gwahanol fetrigau ei ddangos yn ogystal â'u cyfyngiadau.

Caiff y dangosyddion eu casglu drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys:

- o'r ffurflenni cais i'r rhaglen grantiau a weinyddir gan y National Forest Company ar gyfer plannu coed a chefnogaeth i reoli coetiroedd a chynefinoedd.
- o wybodaeth a gedwir gan eu tîm Cymunedau ac Addysg (data ymgysylltu ag ysgolion a gwirfoddolwyr).
- o ddata blynyddol a ddarperir gan asiantau coedwigaeth, contractwyr a cholegau lleol mewn perthynas â phrentisiaethau a hyfforddeiaethau.

Mae Coedwig Genedlaethol Lloegr hefyd wedi elwa o adnoddau ariannol i'w galluogi i gomisiynu capasiti ymchwil allanol i gefnogi ymdrechion casglu data ac asesu effaith. Mae hyn wedi cynnwys comisiynu contractwyr ymchwil i ddeall barn y cyhoedd ynghylch creu Coedwig Genedlaethol Lloegr. Yn 2008, casglwyd barn 202 o bobl gan ddefnyddio cymysgedd o holiaduron ar y stryd a chyfarfodydd grwpiau ffocws. Rhoddodd y canlyniadau fewnwelediad i farn pobl am ddiogelwch safleoedd coetiroedd a pha mor hygyrch ydynt, gweithgareddau hamdden a gynhaliwyd a barn am effaith y fenter ar gymunedau lleol. Y bwriad oedd ailadrodd yr arolygon hyn bob tair i bum mlynedd.

Diweddarwyd yr ymchwil am farn y cyhoedd yn 2014 gan ddefnyddio'r un fethodoleg â'r ymchwil yn 2008. Llwyddodd ymchwil 2014 i gael 238 o ymatebion gan dynnu adborth o atebion holiadur a saith sesiwn grŵp ffocws. Roedd cwestiynau craidd yr ymchwil yn cynnwys:

- Pa rannau o'r Goedwig ydych chi'n ymweld â nhw fwyaf?

- Beth yw eich rhesymau dros fynd i’r mannau penodol hyn?
- Sut byddech chi’n graddio’r mannau hyn (o ran cynnal a chadw tirwedd, llwybrau, meysydd parcio, dehongli, diogelwch ac arwyddion)?
- A oes unrhyw rannau o’r Goedwig lle credwch bod digon o goed bellach?
- Ym mha ffyrdd y mae eich cymuned leol wedi elwa o greu’r Goedwig?
- Sut byddech chi’n crynhoi’r effaith y mae creu’r Goedwig wedi’i chael arnoch chi’n bersonol?
- Pa bryderon, os o gwbl, sydd gennych chi ynglŷn â thwf y Goedwig yn y dyfodol?
- Sut gallai’r National Forest Company ei gwneud hi’n haws i bobl gymryd rhan yn natblygiad y Goedwig yn y dyfodol?

Comisiynwyd contractwr ymchwil ganddynt hefyd i bennu profiad ymwelwyr, deall proffil ymwelwyr, patrymau ymweld, cymhellion dros ymweld, dulliau cludiant/teithio a lefelau boddhad. Cynhaliwyd yr ymchwil hwn yn 2007 drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb ag ymwelwyr mewn pum safle porth ac un safle nad yw’n borth (nid yw’r adroddiad yn egluro’r gwahaniaeth rhwng safleoedd porth a safleoedd nad ydynt yn borth). Cwblhawyd cyfanswm o 1,350 o gyfweliadau. Gwnaed yr ymchwil hwn i roi modd i safleoedd porth fesur effeithiolrwydd buddsoddiadau a wnaed mewn cyfleusterau a gwasanaethau i gynyddu nifer yr ymwelwyr ac i ddeall sut y gellid gwella safleoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw fanylion eu cynnwys yn yr adroddiad ynghylch i ba raddau y helpodd yr ymchwil safleoedd porth i fesur effeithiolrwydd eu buddsoddiadau.

Mae’r National Forest Company hefyd yn cynnig cyngor ynghylch twristiaeth gynaliadwy a dysgu yn yr awyr agored ac mae hefyd wedi helpu i sefydlu Rhwydwaith Coedwigoedd Cymunedol sy’n rhoi cefnogaeth i grwpiau cymunedol a gwirfoddol sy’n creu neu’n gofalu am goetiroedd lleol.

Lles cadarnhaol yw un o dair colofn y gwaith a wneir gan y National Forest Company ac mae’n cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i dirfeddianwyr sy’n rheoli coetiroedd i gasglu adborth ar effaith gweithgareddau mewn coetiroedd a choedwigoedd. Er bod bwriad i fuddsoddi ymhellach yn eu dull mesur effaith, yn benodol i ganolbwyntio ar fesur lles, cysylltedd â natur a thwristiaeth, mae cynrychiolwyr a gyfwelwyd o’r National Forest Company yn cydnabod yr angen i leihau’r baich gweinyddol ar safleoedd coetiroedd ac osgoi mynd â chapasiti oddi wrth y gwaith o reoli a chyflenwi coetiroedd. Cydnabu’r National Forest Company hefyd bod risg o fabwysiadu dull seilo sy’n methu â chydbwyso casglu data ar effaith amgylcheddol heb gasglu data ar farn ymwelwyr a chymunedau. Mae’r National Forest i gyhoeddi fframwaith effaith ddiwedd 2025. [troednodyn 12]

Er bod y dull monitro a mesur a fabwysiadwyd gan Goedwig Genedlaethol Lloegr yn berthnasol i Goedwig Genedlaethol Cymru, nid yw’n uniongyrchol drosglwyddadwy. Mae

**Troednodiadau**
[12] Nid oedd yr adroddiad hwn wedi’i gyhoeddi ar adeg ysgrifennu.

hyn yn rhannol oherwydd bod Coedwig Genedlaethol Cymru am gael dull gwahanol, cenedlaethol o greu coedwig genedlaethol drwy gael nifer o safleoedd yn hytrach nag ehangu coedwig mewn un ardal. Er bod rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn dosbarthu grantiau i reolwyr safleoedd coetiroedd a choedwigoedd, er enghraifft drwy gynllun grant TWIG, nid yw'r grantiau hyn wedi'u cysylltu â'r Cynllun Statws.

Mae'r dull a fabwysiadwyd gan Goedwig Genedlaethol Lloegr yn dangos amserlen bosibl ar gyfer casglu data dangosyddion perfformiad allweddol, wrth i'r gwaith cynnal arolwg a chasglu data i'w ailadrodd bob tair i bum mlynedd i sicrhau digon o amser i fedru sylwi ar newidiadau a'u mesur. Ym marn y tîm gwerthuso, mae hwn yn amlder sy'n debygol o fod yn addas ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru gan ei fod yn lleihau'r baich gweinyddol a'r gost ar safleoedd yn y Cynllun Statws ar yr un pryd â sicrhau bod modd mesur cynnydd yn y cyflawni.

### 4.1.2 Rhaglen Active Forests

Mae Rhaglen Active Forests yn bartneriaeth hirdymor rhwng Forestry England a Sport England. Nod y rhaglen hon yw creu arferion gweithgarwch corfforol am oes i ymwelwyr â choedwigoedd Lloegr. Mae Forest Research yn arwain ar y monitro a'r gwerthuso, gan ddefnyddio dull cymysg sy'n cynnwys defnyddio holiaduron i gyfranogwyr, casglu data ansoddol ac astudiaethau achos effaith. Mae Active Forests wedi bod ar waith ers 2014 ac mae wedi cynnwys sawl cam o gyflawni. Mae cwmpas, dull ac amcanion pob cam yn wahanol, gyda chamau diweddarach yn adeiladu ar gamau blaenorol ac yn mynd ymhellach. Cyflwynwyd cam peilot (Cam 1) y prosiect rhwng 2014 a 2017 yn cynnwys pum safle coedwig.

Rhwng 2017 a 2022 daeth carfan ehangach o 18 safle coedwig yn rhan o'r rhaglen gyflawni graidd (Cam 2). Cyflwynwyd Cam Pontio pellach yn 2022 a 2023 yn cynnwys pedwar safle coedwig ac yna'r rhaglen graidd Cam 3 gyfredol sy'n cynnwys 16 safle coedwig ac i weithredu rhwng 2023 a 2026.

Mae'r rhaglen hefyd wedi ymgorffori cynllun peilot presgripsiynu cymdeithasol a gynhaliwyd rhwng 2019 a 2023 mewn dau safle coedwig ac yna ei ehangu i'r rhaglen presgripsiynu cymdeithasol gyfredol sy'n gweithredu rhwng 2023 a 2026 ac sy'n cynnwys 4 safle coedwig.

Nod y rhaglen yw gwella iechyd a lles pobl trwy eu cysylltu â choedwigoedd y wlad. Cefnogwyd y gwaith o gynnal y rhaglen gan gydlynwyr rhaglen Active Forest (AFC), sef cydlynwyr sy'n cael eu cyflogi ym mhob safle coedwig i gefnogi ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau wedi'u trefnu. Ochr yn ochr â hyn, datblygwyd a chryfhawyd seilwaith mewn safleoedd coedwigoedd er mwyn cefnogi mwy o hygyrchedd a chyfle ar gyfer gweithgareddau hamdden. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) a sefydlwyd ar gyfer y rhaglen gan Sport England a Forestry England i'w gweld isod.

### 4.1.3 Dangosyddion Perfformiad Allweddol rhaglen Active Forests

Mae Sport England wedi sefydlu'r dangosyddion perfformiad allweddol canlynol ar gyfer y rhaglen:

- Cynnydd yng nghanran y boblogaeth sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol o leiaf unwaith yr wythnos.
- Gostyngiad yng nghanran y bobl sy'n segur yn gorfforol.
- Cynnydd yng nghanran y bobl sy'n defnyddio mannau awyr agored ar gyfer ymarfer corff / iechyd

Mae Forestry England wedi sefydlu'r dangosyddion perfformiad allweddol canlynol ar gyfer y rhaglen:

- Cael pum miliwn o ymweliadau gweithgarwch corfforol dros 20 o safleoedd coedwig.
- Defnyddio mewnwelediadau i dargedu pobl llai egnïol i annog gweithgarwch amlach.
- Cynyddu nifer ac amrywiaeth ymwelwyr â choedwigoedd y wlad.

Defnyddiwyd methodoleg gymysg i fonitro yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol uchod a gwerthuso'r rhaglen. Ar gyfer Cam 2 y rhaglen, a gwblhawyd yn 2022, roedd hyn yn cynnwys:

- Data llif: dadansoddiadau gan Gydlynwyr Active Forest ar ymweliadau chwarterol yn ôl gweithgaredd a nifer yr ymweliadau. Darperir manylion hefyd ar nifer oriau / gwirfoddolwyr;

- Data holiadur i gyfranogwyr: arolwg byr a gesglir trwy ddyfais llechen ar y safle gan Gydlynwyr Active Forest /gwirfoddolwyr ac ar-lein trwy wefan Forestry England. Rhoddir manylion am y gweithgareddau a gynhaliwyd, lefel gweithgarwch corfforol a demograffeg;

- Holiadur dilynol: wedi'i anfon trwy e-bost 3 mis ar ôl yr holiadur i gyfranogwyr i asesu newidiadau mewn lefelau gweithgarwch, ynghyd â manylion ar fuddion, rhinweddau, cymhellion a rhwystrau i unigolion gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ar safleoedd Active Forests.

Cefnogwyd y broses ymchwil gan Gydlynwyr Active Forest a gwirfoddolwyr wrth iddynt ddefnyddio'r offer ymchwil a chydlynu casglu data. Mae'r adroddiad effaith ar gyfer Cam 2 yn rhoi manylion am y meysydd dan sylw gan yr ymchwil, sef:

- Cyfanswm nifer yr ymweliadau.

- Tystiolaeth o newid ymddygiad gan gyfranogwyr gweithgareddau wedi'u trefnu o ran lefelau gweithgarwch ac arferion gwahanol drwy ddefnyddio holiaduron i gyfranogwyr cyn gweithgaredd ac ar ei ôl.

- Buddion a adroddwyd gan gyfranogwyr, gan gynnwys lles meddwl, lles corfforol, cwrdd â phobl newydd.

- Ysgogiadau a rhesymau dros gymryd rhan a adroddwyd gan gyfranogwyr.

- Adborth ar rinweddau pwysicaf y safleoedd coedwig i unigolion, er enghraifft dewis da o lwybrau ar gyfer gweithgarwch corfforol, digon o le parcio, arwyddion clir a thoiledau glân.

Defnyddiodd yr ymchwil ddata arolwg hefyd i amcangyfrif buddion cost blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALY) yn ôl y prif weithgarwch corfforol a wnaed gan ymatebwyr. Gwnaed hyn drwy ddilyn methodoleg a ddefnyddiwyd mewn prosiect ymchwil cynharach yn 2018 a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu dangosydd ar gyfer y buddion i iechyd corfforol o hamddena mewn coed. Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar wneud 30 munud o weithgarwch corfforol dwyster cymedrol bob wythnos. Cyfrifwyd y buddion cronnus fesul person dros gyfnod y gweithgareddau yn seiliedig ar eu habsenoldeb/presenoldeb bob wythnos/pythefnos.

Yn ogystal â llunio adroddiadau diwedd camau, mae'r rhaglen hefyd wedi creu cyfres o astudiaethau achos effaith sydd wedi'u cyhoeddi ar ei gwefan. Mae canfyddiadau'r peilot presgripsiynu cymdeithasol hefyd o bosibl yn berthnasol i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru o ystyried proffil sefydliadau fel Innovate UK sy'n gweithio'n weithredol gyda safle yn y Cynllun Statws fel yr amlinellir yn yr astudiaethau achos a gyflwynir yn is-adran 'Y buddion a geir o fod mewn partneriaeth â mudiadau allanol' yr adroddiad hwn.

Nod y cynllun peilot presgripsiynu cymdeithasol yn rhaglen Active Forests oedd mynd i'r afael â rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau coedwig, ymgysylltu â phobl anactif a phobl gymharol egnïol sydd â chyflyrau iechyd ysgafn i gymedrol a chyflawni canlyniadau iechyd a lles.

Roedd yr adroddiad wedi gwerthuso cynllun peilot presgripsiynu cymdeithasol, sef Feel Good In the Forest, gan ganolbwyntio ar ddau safle coedwig a oedd yn y cynllun peilot: Coedwig Chopwell yng ngogledd-ddwyrain Lloegr a Choedwig Gymunedol Thames Chase yn ne-ddwyrain Lloegr. Yn debyg i raglen graidd Active Forests, roedd Cydlynwyr y rhaglen wedi bod â rôl ganolog wrth gefnogi'r dull cymysg a ddefnyddiwyd i fonitro a gwerthuso'r cynllun peilot. Roedd y prif ddulliau casglu data yn cynnwys:

- Data presenoldeb unigolion mewn gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol a gasglwyd yn y ddau safle coedwig.
- Data gan Gydlynwyr Active Forests ar ymweliadau grŵp yn ôl gweithgaredd a nifer yr ymweliadau.
- Data holiadur i gyfranogwyr unigol: arolwg byr a gasglwyd ar bapur neu drwy ddyfais llechen gan y Cydlynwyr yn darparu manylion am y gweithgareddau a gyflawnwyd, lefel gweithgarwch corfforol a demograffeg.
- Arsylwadau cyfranogwyr in situ a wnaed wrth wneud gweithgarwch corfforol gyda chyfranogwyr i archwilio rhyngweithiadau, mewnbwn arweinwyr a deall sut y cyflwynwyd y gweithgaredd.
- Grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda chyfranogwyr, gwirfoddolwyr, asiantau atgyfeirio a darparwyr gweithgareddau i archwilio cymhellion, buddion a galluogwyr.

Roedd y gwerthusiad yn cynnwys dau brif becyn offer safonol ar gyfer asesu lles, sef cwestiynau lles personol y Swyddfa Ystadegau Gwladol 4 (ONS4) a chwestiynau Graddfa Fer Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (SWEMWBS). Cafodd yr offer hyn eu hymgorffori mewn arolygon i alluogi cymharu â samplau cenedlaethol gan eu bod yn cael eu defnyddio'n helaeth mewn amrywiaeth o ymyriadau lles. Mae'n bwysig nodi nad yw'r adroddiad yn nodi sut mae'n priodoli newidiadau mewn lles i weithgarwch coedwigoedd.

Yr hyn y mae rhaglen ymchwil a gwerthuso rhaglen Active Forests yn ei amlygu yw beth sy'n bosibl, os gellir sicrhau bod capasiti ac adnoddau ar gael ar y safle, i gefnogi gwaith casglu data a mesur effaith gyda sefydliadau/mudiadau a darparwyr cyflawni. Mae hefyd yn dangos gwerth gweithgareddau peilot i gynorthwyo dysgu ac adnabod modelau cyflawni y gellir eu mabwysiadu gan safleoedd coedwig eraill.

Er nad yw maint y gweithgareddau hamdden egnïol a phresgripsiynu cymdeithasol a ddarperir ar draws safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru wedi'i fapio, mae tystiolaeth o safleoedd yr astudiaethau achos yn awgrymu y gallai elfennau'r dull monitro a mesur effaith a ddefnyddir gan raglen Active Forests fod yn addas ar gyfer asesu effaith y rhaglen yn y dyfodol. Er enghraifft, gellid defnyddio arolygon i gyfranogwyr cyn gweithgarwch/digwyddiad ac ar ei ôl i fesur effeithiau sy'n ymwneud â lefelau gweithgarwch corfforol neu fuddion lles cymryd rhan mewn gweithgareddau a gynhelir ar safleoedd y Cynllun Statws.

Sonia'r adroddiad ymchwil hefyd am yr heriau sydd ynghlwm â defnyddio pecyn ymchwil meintiol SWEMWBS ac ONS4 gan fod gostyngiad yn nifer yr arolygon ar ôl y gweithgarwch/digwyddiad a gwblhawyd. Daw awduron yr adroddiad i'r casgliad bod yr anawsterau a gafwyd wrth ddefnyddio pecyn offer lles meintiol yn pwysleisio pa mor bwysig yw dulliau ansoddol fel rhan o adroddiad methodoleg gymysg.

#### 4.1.4 Y Comisiwn Coedwigaeth

Y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr yw adran y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddiogelu, ehangu a hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar goetiroedd. Mae'r Comisiwn yn rheoli coetiroedd cyhoeddus yn Lloegr yn uniongyrchol yn ogystal â rheoleiddio'r rheolaeth ar goetiroedd sy'n eiddo i dirfeddianwyr preifat. Cefnogir y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr gan ddwy asiantaeth weithredol, sef Forestry England sy'n gweithredu fel rheolwr tir mwyaf y wlad, a Forest Services sy'n rhoi cyngor arbenigol, grantiau a rheoleiddio i dirfeddianwyr preifat i'w helpu i reoli eu coedwigoedd a'u coedwigoedd eu hunain yn gynaliadwy. Nid yw'r Comisiwn Coedwigaeth yn casglu dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas ag effaith gymdeithasol gan nad yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am hynny na mynnu ei gael ac nid oes unrhyw gyllid wedi'i ddarparu i gefnogi hyn.

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn defnyddio Arolwg Pobl a Natur ar gyfer Lloegr (PaNS) ac Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd (POFS) i ddeall tueddiadau pobl ynghylch mynediad, deall a mwynhau byd natur a sut mae'n cyfrannu at les. Megis Arolwg Pobl a Natur Cymru, mae Arolwg Pobl a Natur ar gyfer Lloegr yn casglu data ac ystadegau ar brofiad pobl a'u barn am yr amgylchedd naturiol a sut mae'n cyfrannu at lesiant. I'r Comisiwn Coedwigaeth, mae'r arolygon cenedlaethol hyn yn ffynhonnell ehangach o wybodaeth am newidiadau mewn ymddygiad ac agwedd. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl

priodoli nac asesu cyfraniad gwaith y Comisiwn Coedwigaeth yn uniongyrchol i unrhyw newid yn y metrigau sydd yn y ddau arolwg PaNS na POFS. Gellir cymharu hyn â rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru nad yw ar hyn o bryd yn gallu mesur ei chyfraniad yn uniongyrchol at unrhyw newidiadau yn nangosyddion Coetiroedd i Gymru, sy'n tynnu ar ddata arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd Cymru. Mae hyn oherwydd na ellir ynysu rôl Coedwig Genedlaethol Cymru oddi wrth y cyd-destun ehangach er mwyn galluogi mesur ei chyfraniad penodol at unrhyw newidiadau a welir mewn ymatebion arolwg.

Cyfeiriodd y cynrychiolydd o'r Comisiwn Coedwigaeth a gyfwelwyd at yr ymdrechion blaenorol i gasglu data ar draws nifer o safleoedd coetiroedd a wnaed gan Goed Cadw/ Woodland Trust a greodd y porth Woods for People i goetiroedd ledled y DU fedru casglu a storio data. Y bwriad oedd y gellid defnyddio'r data hwn i osod targedau a mesur cynnydd ar fynediad i goetiroedd. Fodd bynnag, mae'r porth yn segur ar hyn o bryd oherwydd diffyg cyllid i gydlynu'r broses o gasglu data.

Mae'r cynllun cymorth i greu coetiroedd yn Lloegr, sef the England Woodland Creation Offer (EWCO), wedi'i weinyddu gan y Comisiwn Coedwigaeth ac mae'n cynnig cyllid ar gyfer gwaith cyfalaf i gefnogi creu coetiroedd newydd a gosod seilwaith i gefnogi rheoli coetiroedd neu ddarparu mynediad hamdden. Mae'r adrodd i'r cynllun hwn yn galluogi casglu data ar seilwaith hamdden newydd, gan gynnwys llwybrau troed hygyrch.

Gall rheolwyr safleoedd wneud cais am ddau fath o daliad ar gyfer gwaith cyfalaf i helpu i sefydlu a chynnal eu coetir. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer eitemau cost safonol a gweithgareddau i greu coetir newydd a thaliad tuag at gost gosod seilwaith i gefnogi rheoli coetiroedd neu ddarparu mynediad hamdden. Gall rheolwyr safleoedd hefyd wneud cais am gyfraniadau ychwanegol os bydd lleoliad a dyluniad eu coetir yn darparu buddion cyhoeddus yn seiliedig ar feini prawf a sefydlwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth.

Er bod hyn yn dangos y potensial ar gyfer casglu data gan berchnogion neu reolwyr coetiroedd sy'n derbyn cyllid, nid yw'n uniongyrchol berthnasol i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru o gofio nad yw hi'n darparu cyllid grant ar gyfer safleoedd yn y Cynllun Statws.

Er nad yw'r Comisiwn Coedwigaeth yn rheolaidd yn casglu metrigau ar effaith gymdeithasol, awgrymodd y cyfwelai o'r Comisiwn Coedwigaeth fod angen i unrhyw ddull mesur ystyried yn ddigonol yr amrywiaeth a'r gwahaniaethau rhwng y safleoedd coetiroedd a choedwigoedd. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu anfon pecyn offer a dulliau gwahanol i fesur effaith i wahanol safleoedd coetiroedd a choedwigoedd. Er enghraifft, fel y dywedodd y cyfwelai o'r Comisiwn Coedwigaeth, er y byddai'n gwneud synnwyr cyfeirio ymdrechion unrhyw fuddsoddiad tuag at gasglu niferoedd a phrofiadau ymwelwyr mewn coedwigoedd cyrchfan (e.e. Sherwood Forest, New Forest neu Kielder Forest), eto ni fyddai'n ymarferol nac yn gost-effeithiol cymhwyso hyn i bob safle coetir a choedwig.

Yr awgrym a wnaed ganddynt oedd y gellid bwrw ymlaen â hyn drwy greu disgrifiadau neu deipolegau penodol o safleoedd coetir neu goedwig a chymhwyso gwahanol ddulliau mesur effaith yn seiliedig ar natur sut mae'r safle'n cael ei ddefnyddio gan ymwelwyr,

gwirfoddolwyr a chymunedau. Mae’r awgrym hwn yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw ddull mesur effaith i’w weithredu gan raglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

### 4.1.5 Coedwigoedd a Thiroedd yr Alban (Forestry and Land Scotland)

Coedwigoedd a Thiroedd yr Alban (FLS) yw asiantaeth Llywodraeth yr Alban sy’n gyfrifol am reoli coedwigoedd a thiroedd cenedlaethol yr Alban. Mae eu safleoedd yn cwmpasu 9% o arwynebedd tir yr Alban, maent yn derbyn dros 10 miliwn o ymweliadau’r flwyddyn ac yn cynhyrchu £110 miliwn o wariant twristiaeth ar gyfer economi ehangach yr Alban. Mae eu gwefan yn cynnwys manylion tri chant o gyrchfannau sy’n goetiroedd a choedwigoedd, gan gynnwys chwe pharc coedwig, a phum cant o lwybrau. Sonnir ar y wefan hefyd fod y coedwigoedd a’r tir a reolir gan yr asiantaeth yn chwarae rhan allweddol yng ‘ngwasanaeth iechyd naturiol’ yr Alban, gan ddarparu mannau lle gall pobl o bob oed dreulio amser yn gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol.

Yn debyg i’r Comisiwn Coedwigaeth, eu nod yw trefnu eu safleoedd ar sail haenau i lywio eu gwaith mesur effaith. Awgrymodd y cyfwelai o’r FLS y gallai hyn gynnwys dynodi safleoedd cenedlaethol, safleoedd rhanbarthol a safleoedd lleol. Y safleoedd cenedlaethol fyddai’r cyrchfannau uchel eu proffil sy’n bwysig i economi ymwelwyr a thwristiaeth yr Alban. Byddai safleoedd rhanbarthol yn llai ac yn denu ymwelwyr o awr neu ddwy i ffwrdd ond yn cyfrannu’n bwysig at economïau lleol. Mae safleoedd lleol yn adnoddau allweddol i gymunedau lleol ond efallai na fyddant yn cael llawer o ymwelwyr o’r tu allan i’r ardal gyfagos.

Mae’r FLS wedi sefydlu rhaglen fonitro i alluogi mesur cynnydd yn erbyn eu strategaethau perthnasol ar gyfer coedwigoedd a thiroedd cenedlaethol yr Alban, gan gynnwys eu Strategaeth Ymwelwyr a’u Strategaeth Cymunedau. Yn y Strategaeth Ymwelwyr nodir sut mae’r FLS yn rheoli gwasanaethau a chyfleusterau i groesawu pawb i’r coedwigoedd a’r tir cenedlaethol ar gyfer hamdden, iechyd a lles ac addysg. Mae’n eistedd ochr yn ochr â’r Strategaeth Cymunedau sy’n canolbwyntio ar sut y gall cymunedau gymryd mwy o ran yn y penderfyniadau, y rheolaeth a’r defnydd o goedwigoedd a thiroedd cenedlaethol i helpu i gyflawni eu hamcanion. Cesglir data ar niferoedd ymwelwyr, niferoedd gwirfoddolwyr a gwariant twristiaeth. Mae’r rhaglen fonitro yn cynnwys cyfres o safleoedd astudiaethau achos lle archwilir data mwy manwl ar ymddygiadau ymwelwyr a thueddiadau ymwelwyr. Mae’r FLS wedi sefydlu pedair blaenoriaeth strategol sy’n cael eu monitro’n flynyddol trwy’r ystod o ddangosyddion a amlinellir dros y dudalen. Nid yw’r tîm gwerthuso wedi gallu cael mynediad at unrhyw ddadansoddiad technegol o sut y caiff y dangosyddion hyn eu cyfrifo.

### 4.1.6 Blaenoriaethau a dangosyddion strategol Coedwigoedd a Thiroedd yr Alban (FLS)

Mae dangosyddion o dan y flaenoriaeth Newid Hinsawdd yn cynnwys:

- Nifer y cyrchfannau sydd â datrysiadau trafnidiaeth gynaliadwy neu deithio llesol
- Arwynebedd tir yr FLS o fewn ffin ardal drefol
- Canran o wastraff ymwelwyr a ailgylchir – sbwriel a gwastraff masnachol
- Nifer y prosiectau i amddiffyn yr amgylchedd neu fywyd gwyllt ar safleoedd ymwelwyr

- Nifer y prosiectau i wella gwydnwch seilwaith hamdden rhag difrod stormydd.

Mae dangosyddion o dan y flaenoriaeth Cymuned yn cynnwys:

- Nifer y cynlluniau ymgysylltu cymunedol ar brosiectau/gwasanaethau ymwelwyr
- Cilometrau o lwybrau a reolir gan gymunedau ar dir yr FLS
- Nifer y prosiectau Iechyd a Thwristiaeth y cefnoga'r FLS gyda chymunedau
- Diwrnodau gwirfoddoli ar dir yr FLS.

Mae dangosyddion o dan y flaenoriaeth Economi Wledig yn cynnwys:

- Incwm ymwelwyr yr FLS
- Gwariant ymwelwyr yr FLS
- Gwerth prosiectau a ddarperir gan yr FLS i gefnogi twristiaeth wledig
- Amcangyfrif o effaith economaidd prosiectau'r FLS neu bartneriaid ar goedwigoedd a thiroedd yr Alban
- Nifer y prosiectau i wella cyllid cynaliadwy'r FLS.

Mae dangosyddion o dan y flaenoriaeth Iechyd ac Addysg yn cynnwys:

- Nifer y rhwystrau ffisegol i fynediad sydd wedi'u symud/dileu
- Nifer yr ymwelwyr newydd sy'n mynychu digwyddiadau
- Nifer y prosiectau iechyd
- Nifer y prosiectau addysg.

Ffynhonnell: Coedwigoedd a Thiroedd yr Alban / Forestry and Land Scotland (FLS)

Y tu hwnt i gasglu'r dangosyddion allweddol a amlinellwyd uchod, mae'r FLS wedi casglu profiad ymwelwyr a'u barn am fuddion ymweld â safleoedd coetir a choedwig drwy arolwg ar raddfa fawr. Y tro diwethaf i'r FLS gasglu adborth arolwg helaeth gan ymwelwyr oedd yn 2013 ac nid yw hyn wedi'i ddiweddaru eto, yn bennaf oherwydd y costau, ac awgrymodd cynrychiolydd yr FLS a gyfwelwyd y gallai'r costau ei gynnal o bosibl olygu defnyddio adnoddau y gellid eu buddsoddi fel arall yn eu safleoedd coetir a choedwig. Mae casglu data ar raddfa lai wedi'i wneud ar feysydd pwnc penodol, er enghraifft ymchwil ffocws ar feicio mynydd gyda pharciau coedwig.

Disgrifiodd y cynrychiolydd a gyfwelwyd o'r FLS eu bod wrthi'n archwilio'r defnydd o atebion technoleg i'w galluogi i gasglu data ar niferoedd ymwelwyr mewn ffordd fwy cost-effeithiol, gan gynnwys Strava Metro sy'n blatfform blaenllaw ar gyfer data trafnidiaeth egnïol gan gynnwys hamdden awyr agored. Maent hefyd yn archwilio defnyddio data Mannau Gwerthu (Point of Sale) o gyfleusterau manwerthu neu arlwyo pan geir y rhain ar safleoedd coetir neu goedwig i fod yn fesur dirprwyol i gefnogi asesu twf yn niferoedd ymwelwyr a chyfraniad safleoedd i economïau lleol.

Yn ystod y gweithdy mesur effaith a gynhaliwyd yn rhan o'r gwerthusiad hwn, codwyd hefyd y defnydd o ddulliau arloesol i gasglu data am weithgarwch a phroffil ymwelwyr gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn Cyfoeth

Naturiol Cymru a Forest Research. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau gan gyfranogwyr y gweithdy i dreialu'r defnydd o systemau data lleoliadol i ddefnyddio gwybodaeth ffonau symudol i amcangyfrif niferoedd ymwelwyr, proffil, llif ac amser aros. Adroddodd un o fynychwyr y gweithdy fod Strava Metro yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gan Natural England a'r Comisiwn Coedwigaeth. Awgrym arall o sesiwn y gweithdy oedd archwilio defnyddio data meysydd parcio fel dull mesur dirprwyol i fesur twf yn nifer yr ymwelwyr a chael cipolwg ar arferion ymweld gan gynnwys amser, diwrnod a hyd yr ymweliad. Roedd diddordeb gan gyfranogwyr y gweithdy i ddysgu mwy am ddefnyddio'r dulliau arloesol hyn, yn enwedig i ddeall beth y gellid ei wneud drwyddynt, eu cyfyngiadau a'u costau.

Mae'r dangosyddion a gesglir gan yr FLS yn uniongyrchol berthnasol i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru, ond y gwahaniaeth allweddol yw eu bod yn eu casglu o safleoedd y maent yn eu rheoli yn hytrach na gofyn am ddata gan reolwyr safleoedd coetir a choedwig eraill. Er na all y dangosyddion hyn ar eu pen eu hunain ddangos effaith, rhywbeth a gododd cyfranogwyr yn y gweithdy mesur effaith hefyd, eto ym marn y tîm gwerthuso gellir eu defnyddio ochr yn ochr ag ymchwil a thystiolaeth sy'n bodoli eisoes i awgrymu effeithiau a buddion tebygol ymwelwyr a chymunedau.

Ymhellach, ystyriaeth berthnasol ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru hefyd yw'r pwynt a wnaed gan yr FLS ynghylch cydbwyso'r angen i sefydlu systemau mesur effaith yn erbyn sicrhau bod gan safleoedd coetiroedd a choedwigoedd ddigon o adnoddau i gefnogi eu darpariaeth a'u rheolaeth. Soniodd y rhai a fynychodd y gweithdy mesur effaith hefyd am yr angen i sicrhau bod unrhyw system mesur effaith yn gymesur. Dylid adlewyrchu hyn mewn unrhyw ddull mesur effaith a fabwysiedir ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

## 4.2 Achrediadau, ardystiadau a safonau

Un opsiwn ar gyfer mesur effaith rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru a gyflwynwyd gan ddau randdeiliad polisi coedwigaeth yng Nghymru yn ystod cyfweliadau yw defnyddio'r data a'r gwaith asesu a wneir gan safleoedd coetir a choedwig ar gyfer achrediadau cydnabyddedig. Ym marn y tîm gwerthuso, byddai hwn yn opsiwn deniadol i lawer o reolwyr safleoedd coetir a choedwig gan y gallai leihau'r angen i gasglu data ychwanegol os ydynt eisoes yn meddu ar achrediadau penodol.

Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) yw'r safon dechnegol ar gyfer rheoli coedwigoedd cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n cyflwyno dull gweithredu pedair llywodraeth y DU drwy ddiffinio'r gofynion a chynnig canllawiau i goedwigwyr ar sut i reoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Mae'n darparu sail ar gyfer gweithredu cynlluniau grant a rheolaethau swyddogol, ynghyd â chefnogaeth ar gyfer prosesau rheoleiddio yn y DU.

Fel yr amlinellwyd yn y canllawiau, mae'r UKFS yn cynnig y sylfaen ar gyfer nifer o gynlluniau ardystio a sicrhau ansawdd gwirfoddol a ddefnyddir yn y DU. Mae'r safon yn cynnwys manylion am ystod o ofynion a chanllawiau ar draws meysydd fel bioamrywiaeth, newid hinsawdd ac, sy'n berthnasol ar gyfer mesur effaith gymdeithasol, pobl. Amlinella'r safon y disgwyliad y byddai cynlluniau rheoli coetiroedd a choedwigoedd yn ymgorffori dangosyddion i alluogi mesur cynnydd yn erbyn gofynion yr UKFS ar adegau rheolaidd.

Fodd bynnag, nid yw'r safon yn cynnwys unrhyw ganllawiau penodol ar brosesau ar gyfer mesur canlyniadau ac effeithiau. Ar gyfer coetiroedd sy'n defnyddio safon yr UKFS i arwain eu cynlluniau rheoli coetiroedd, nid oes gwiriad ffurfiol ar gydymffurfiaeth â'r safon.

Mae safon wahanol ar gael drwy Ardystiad Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) sy'n achredu bod cynhyrchion yn dod o goedwigoedd a reolir yn gyfrifol sy'n darparu buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae'r FSC wedi datblygu set o 10 egwyddor a 57 o feini prawf y mae'n rhaid i safleoedd eu cyflawni i ddod yn goedwig ardystiedig gan yr FSC. Mae Egwyddor 7 yn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd gael cynllun rheoli, sydd eisoes yn ofyniad gorfodol gan Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol. Mae Egwyddor 8 yn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd ymrwymo i wneud gwaith monitro sy'n briodol i raddfa a dwyster rheoli eu coedwig, ynghyd ag asesu cyflwr y goedwig, cynnyrch sy'n dod o'r goedwig, cadwyn cystodaeth, gweithgareddau rheoli a'u heffeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Y safleoedd eu hunain sy'n penderfynu sut y gwneir y monitro hwn. Eglura'r canllawiau fod gweithgarwch monitro a gwerthuso i'w cynnal yn gymesur â graddfa, dwyster a risg gweithgareddau rheoli. Mae'n ofynnol i safleoedd ardystiedig yr FSC sicrhau bod crynodeb o ganlyniadau eu gweithgarwch monitro ar gael i'r cyhoedd. Mae cost yn gysylltiedig â chynllun yr FSC. Ar hyn o bryd mae Llais y Goedwig yn archwilio sut y gallai coetiroedd cymunedol ddod at ei gilydd i ennill achrediad er mwyn lleihau'r costau ar gyfer safleoedd coetiroedd cymunedol unigol.

Yn olaf, mae Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig (UKWAS) yn safon ardystio annibynnol ar gyfer gwirio rheolaeth gynaliadwy ar goetiroedd yn y DU. Mae angen i berchnogion/rheolwyr coetiroedd benodi corff ardystio achrededig i gynnal archwiliadau yn erbyn safon UKWAS. Mae cost hefyd yn gysylltiedig ag UKWAS.

Caiff yr UKWAS ei chydnabod gan gynlluniau'r FSC a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC) ill dau, sy'n golygu nad oes rhaid i safleoedd wneud cais ar wahân i bob cynllun.

Mae hyn yn berthnasol i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru gan y gallai safleoedd yn y Cynllun Statws sydd wedi sicrhau achrediadau, ardystiadau a safonau cydnabyddedig fod eisoes yn casglu data monitro ac effaith a allai o bosibl gefnogi mesur effaith gymdeithasol. Nid yw'n ofyniad i safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru fod ag achrediad, ardystiad na safon gydnabyddedig. Caiff cynlluniau rheoli a gyflwynir gan safleoedd sy'n gwneud cais i ymuno â Chynllun Statws y Goedwig Genedlaethol eu hasesu yn unol â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS). Fodd bynnag, byddai mapio safleoedd presennol y Cynllun Statws yn helpu i ddeall pa rai sydd eisoes ag achrediad, ardystiad a safon gydnabyddedig. Gellid ychwanegu hyn fel cwestiwn ychwanegol at ffurflen gais y Cynllun Statws.

Gellid gwneud gwaith pellach i ddeall i ba raddau y mae gan safleoedd achrediadau, ardystiadau a safonau perthnasol ac yna penderfynu beth sy'n cael ei gasglu drwy'r cynlluniau hyn ac i ba raddau y gallant ddarparu data a thystiolaeth i gefnogi asesu effaith rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Byddai hyn yn helpu i osgoi unrhyw ddyblygu wrth

gasglu data a lleihau'r baich gweinyddol ar reolwyr safleoedd coetir a choedwig yn y Cynllun Statws.

## 4.3 Offer a fframweithiau pennu gwerth

Gan mai ffocws y gwerthusiad hwn yw argymell dyluniad ar gyfer asesu effeithiau cymdeithasol yn y dyfodol, mae'n werth edrych ar y defnydd o offer pennu gwerth a fframweithiau effaith gymdeithasol. Mae dysgu defnyddiol i'w wneud o ymchwil flaenorol ar ddulliau pennu gwerth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, yn 2023 comisiynodd Llywodraeth Cymru brosiect ymchwil i ddeall yr ystod o fuddion, costau a risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo asedau coetir i drydydd partïon. Nod yr ymchwil oedd llywio datblygu canllawiau cyfeirio Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi gwerthuso prosiectau yn y dyfodol, gan gynnwys eu gwerth cymdeithasol, mewn perthynas â mynediad cymunedol neu drydydd sector at goetir ac/neu bren ar Ystad Coetiroedd llywodraeth Cymru. Daeth yr adolygiad ymchwil i'r casgliad bod diffyg cyson mewn tystiolaeth empirig gadarn ar effaith trosglwyddo asedau ar gymunedau a chymdeithas ehangach, ac yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau bioffisegol, economaidd ac ariannol. Nododd yr ymchwil fod y dystiolaeth gryfaf ar gyfer effeithiau lles yn gysylltiedig â phrofiad/mynediad gwell i goetiroedd a chymryd rhan mewn gwirfoddoli. Archwiliodd y tîm ymchwil hefyd ystod o ffynonellau pennu gwerth a fframweithiau gwerthuso a allai gynnig opsiynau i asesu effeithiau cymdeithasol yn y dyfodol – gallai hyn fod yn berthnasol i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Roedd yr offer yn cynnwys Canllawiau Llesiant Trysorlys EM ar gyfer Gwerthuso, sy'n galluogi mesur lles goddrychol, a'r Pecyn Pennu Gwerth Hamdden yn yr Awyr Agored (ORVal) sy'n rhagweld nifer yr ymweliadau â mannau gwyrdd presennol a newydd yng Nghymru a Lloegr ac yn amcangyfrif gwerth lles yr ymweliadau hynny mewn termau ariannol.

Roedd ymchwil ychwanegol wedi treialu dau becyn gwerthuso i ymchwilio i'r dulliau pennu gwerth cymdeithasol hyn ar gyfer coedwigoedd a reolir gan y gymuned. [troednodyn 13]

Y prosiect a ddewiswyd ar gyfer treialu'r offer oedd cynllun arfaethedig i'r gymuned yn Nhreherbert gymryd drosodd stiwardiaeth y goedwig ym masn Cwm Saerbren.

Aeth y prosiect ati i dreialu fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru, sef system fesur a ddatblygwyd ar gyfer sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i asesu a chynyddu'r gwerth cymdeithasol maen nhw'n ei greu drwy gaffael. Mae'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Cymru, gan ddefnyddio saith thema, 35 o ganlyniadau, a 93 o fesurau i olrhain cyfraniadau at lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn ffordd gyson, safonol ledled cyrff cyhoeddus. Treialwyd ganddo hefyd y defnydd o'r Peiriant Gwerth Cymdeithasol/Social Value Engine, sydd wedi'i ddatblygu i gefnogi anghenion asesu effaith gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

---

**Troednodiadau**

[13] Chris Blake, Matt Reardon, Ian Thomas, Chloe-Jayne Shellard, Maria Wilding, Kate Denner, a Madeleine Palmer. Evaluating Social Value for Community Managed Forestry. Adroddiad heb ei gyhoeddi, Gorffennaf 2025.

Daeth y prosiect peilot i'r casgliad mai'r Peiriant Gwerth Cymdeithasol oedd yr offeryn mwyaf ymarferol a hygyrch ond y byddai angen cefnogaeth a hyfforddiant cychwynnol ar ddarpar ddefnyddwyr i'w galluogi i'w weinyddu ar gyfer eu safle coetir neu goedwig eu hunain. Nid yw'r adroddiad yn nodi'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn ond byddai hyn yn ddysgu gwerthfawr i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

Nid yw'n glir i ba raddau y mae perchnogion coedwigoedd a choetiroedd yn y Cynllun Statws yn defnyddio offer pennu gwerth a gwerthuso tebyg. Byddai casglu'r data hwn naill ai fel rhan o ffurflen gais y Cynllun Statws neu drwy arolwg byr i safleoedd y Cynllun Statws yn helpu i lywio opsiynau ar fesur effaith yn y dyfodol ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

Mae canfyddiadau o'r prosiect peilot y cyfeirir ato uchod yn awgrymu bod rhinwedd mewn ymgorffori'r Peiriant Gwerth Cymdeithasol fel offeryn mesur mewn unrhyw ddull mesur effaith a fabwysiedir gan raglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Byddai angen i unrhyw ddefnydd o'r offeryn hwn benderfynu a yw'n canolbwyntio'n benodol ar goetiroedd a reolir gan y gymuned yn y Cynllun Statws neu a yw'n berthnasol yn fwy cyffredinol i bob safle. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud gwaith tebyg i roi prawf ar ddefnyddio'r offeryn mewn safleoedd a reolir gan y gymuned sydd yn y Cynllun Statws i gael deall drwy'r rheolwyr safleoedd a fyddai'r Peiriant Gwerth Cymdeithasol yn offeryn sy'n berthnasol i'r gwaith maen nhw'n ei wneud yn eu coetir ai peidio.

## 4.4 Opsiynau ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru

Mae'r dystiolaeth a welwyd drwy ymgysylltu â rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill a'r bobl hynny sy'n ymwneud yn agos â chynnal rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn awgrymu na ddylai fod un dull ar gyfer mesur effaith gymdeithasol. O gofio amrywiaeth gwahanol y safleoedd sydd yn rhwydwaith y Cynllun Statws, mae angen i'r dull o fesur effaith gymdeithasol fod yn gymesur ac yn addas i safleoedd o ran eu maint, eu perchnogaeth, eu capasiti a'u strwythur rheoli a natur y gweithgareddau a gynhelir yno.

Mae rhan hon yr adroddiad yn cynnig amrywiaeth o opsiynau a allai ffurfio sail y dull mesur effaith ar gyfer y rhaglen. Mae'r opsiynau isod yn dangos rhai o'r prif ystyriaethau i'w cadw mewn cof, megis yr adnoddau sydd eu hangen a manteision a chyfyngiadau gwahanol ddulliau mesur effaith y gall Llywodraeth Cymru eu defnyddio i lywio eu penderfyniadau ynghylch pa rai i'w mabwysiadu ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Bydd angen ymgysylltu ymhellach â safleoedd y Cynllun Statws i archwilio a deall eu safbwyntiau ar ymarferoldeb a dichonoldeb bwrw ymlaen â gwahanol ddulliau mesur effaith yn y dyfodol.

Gellir crynhoi'r prif bwyntiau dysgu o'r rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill ac o'r gweithdy mesur effaith a ddylai fod yn sail i'r opsiynau hyn fel a ganlyn:

- Mae adborth o gyfweliadau â rhanddeiliaid polisi coedwigaeth yng Nghymru, awgrymiadau gan gyfweleion o'r rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd a mynychwyr y gweithdy mesur effaith yn awgrymu pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ddull mesur effaith yn gymesur ac yn ddigon hyblyg i gydnabod yr amrywiaeth a'r gwahaniaethau rhwng safleoedd coetiroedd a choedwigoedd gwahanol.

- Mae'r dangosyddion a'r allbynnau a ddefnyddir gan y rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd mewn ardaloedd eraill o'r DU a ddisgrifir uchod yn canolbwyntio'n bennaf ar gasglu data sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ac allbynnau. Yn absenoldeb dangosyddion ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, dylai unrhyw ddull mesur effaith geisio cyflwyno'r rhain yn gyntaf i gasglu mesurau cyson o weithgarwch ac yna ehangu'r dull i gefnogi mesur canlyniadau ac effeithiau.

- Byddai'n werthfawr casglu gwybodaeth o bob un o 72 safle'r Cynllun Statws ar nifer y gwirfoddolwyr maen nhw'n eu cefnogi a nifer yr oriau gwirfoddoli a wneir. Gellid gwneud gwaith pellach i drefnu cynnal arolwg safonol i wirfoddolwyr ar draws yr holl safleoedd i archwilio'r effaith gymdeithasol gadarnhaol ar wirfoddolwyr trwy eu gwaith yn rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

- Yn seiliedig ar adborth o gyfweliadau â rhanddeiliaid polisi coedwigaeth yng Nghymru ac awgrymiadau gan y rhai a gyfwelwyd o raglenni coetiroedd a choedwigoedd mewn ardaloedd eraill o'r DU, dylai unrhyw ofynion tystiolaeth neu feysydd polisi adrannau'r llywodraeth lywio paramedrau'r dull mesur effaith.

- Dylid ystyried amserlen o 3 i 5 mlynedd ar gyfer gwneud gwaith asesu effaith manylach ar draws y rhaglen er mwyn rhoi digon o amser i fesur cynnydd. Mae rhaglenni eraill fel Coedwig Genedlaethol Lloegr yn gweithredu amserlenni tebyg, ac ym marn y tîm gwerthuso, mae'n debygol y bydd yr amlder hwn yn lleihau'r baich gweinyddol a'r gost i safleoedd yn y Cynllun Statws.

- Cefnogir rhaglen Active Forests gan adnoddau pwrpasol i gynorthwyo â chasglu data fel rhan o raglen monitro a gwerthuso hydredol. Awgryma hyn ei bod hi'n bwysig pennu pa adnoddau sydd ar gael i gefnogi casglu data ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru er mwyn llywio'r dewis ar y dull mesur effaith i'w fabwysiadu. Mae rhaglen Active Forests wedi gweithio'n uniongyrchol gyda chyfranogwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu mewn safleoedd coetiroedd a choedwigoedd. Mae'r dull hwn yn wahanol i fynd ati i fesur effaith gydag ymwelwyr cyffredinol â safleoedd coetiroedd a choedwigoedd. Byddai defnyddio dull tebyg yn berthnasol i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru os oes gan safleoedd raglen weithgareddau y gellir ei chymharu a phan fo cyfranogwyr yn fwy tebygol o ymgysylltu â dulliau casglu data a mesur effaith fel defnyddio arolygon, pecyn offer asesu a chyfweliadau ansoddol. Mae'r hyn a ddysgwyd o gynllun peilot presgripsiynu cymdeithasol gyda rhaglen Active Forests hefyd yn tynnu sylw at yr anawsterau sydd ynghlwm â defnyddio offer lles meintiol fel SWEMWBS neu ONS4 ac felly pwysigrwydd defnyddio dulliau ansoddol fel rhan o gymysgedd o ddulliau. Awgryma hyn mai'r peth gorau fyddai defnyddio unrhyw ddull cymharol mewn nifer fach o safleoedd arddangos yn amodol ar fod digon o adnoddau ar gael ar gyfer yr ymchwil.

- Yn seiliedig ar dystiolaeth o Goedwig Genedlaethol Lloegr a'r rhaglen Active Forests, byddai llawer i'w ddweud dros sefydlu cyllideb ymchwil i ddarparu capasiti ac arbenigedd i gofnodi effeithiau cymdeithasol drwy gydweithio â safleoedd. Dylid ystyried yr amserlenni y mae cyllid ymchwil ar eu cyfer er mwyn osgoi creu sefyllfa sylfaenol heb y cyllid angenrheidiol i ddiweddaru'r ymchwil hon yn y dyfodol.

- Dangosodd cyfweliadau â rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill ledled y DU sut y dewisodd y rhaglenni hyn offer mesur effaith sy'n benodol i'r meysydd y mae eu rhaglenni'n anelu at wneud effaith ynddynt (e.e. lles, dysgu, cysylltedd cymdeithasol, gweithgarwch corfforol). Bydd hyn yn ystyriaeth bwysig i Goedwig Genedlaethol Cymru wrth ddewis pa offer a dulliau fyddai fwyaf priodol ac ar gyfer pa safleoedd. Byddai angen i'r offer a'r dulliau hyn hefyd adlewyrchu blaenoriaethau cyffredinol y rhaglen.

- Yn seiliedig ar awgrymiadau gan y Comisiwn Coedwigaeth a'r FLS, gallai rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru ystyried sefydlu teipoleg o safleoedd coetiroedd a choedwigoedd a defnyddio hyn i ddewis sampl o safleoedd ar gyfer mesur effaith yn fanylach. Er enghraifft, safleoedd cenedlaethol, safleoedd rhanbarthol a safleoedd lleol.

- Mae'r rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd mewn ardaloedd eraill o'r DU naill ai'n cynnal peilot neu'n archwilio opsiynau i gynnal peilot ar ddefnyddio technolegau arloesol i gefnogi safleoedd i gasglu data ar weithgarwch, allbwn ac effaith. Dylai'r dull mesur effaith a fabwysiedir ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru geisio darparu ar gyfer treialu technolegau priodol i gynhyrchu dysgu a mewnwelediad. Dylai'r broses beilot hefyd archwilio pa grwpiau o bobl y gallai gael eu heithrio o'r data a gesglir drwy ddefnyddio'r technolegau hyn (e.e. pobl heb ffôn clyfar) a sut y caiff hyn ei ystyried mewn unrhyw ddadansoddiad data.

- Dylai Coedwig Genedlaethol Cymru fapio pa mor gyffredin yw achrediadau, ardystiadau a safonau mewn safleoedd coetiroedd a choedwigoedd a phenderfynu i ba raddau y gall y rhain ddarparu data a thystiolaeth i gefnogi asesu effaith y rhaglen.

- Dylid darparu hyfforddiant, canllawiau ac adnoddau i safleoedd i'w hannog a'u galluogi i ddefnyddio offer mesur effaith cydnabyddedig. Er enghraifft, defnyddio'r Peiriant Gwerth Cymdeithasol os ystyrir bod hyn yn briodol ar gyfer safleoedd coetiroedd.

- Dylid ystyried dyheadau a chapasiti safleoedd yn y disgwyliadau ar gyfer sut y dylai safleoedd fesur eu heffaith gymdeithasol. Yn seiliedig ar brofiadau'r rheiny a gyfwelwyd o'r rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill ledled y DU, dylai cymryd rhan fod yn wirfoddol, nid yn orfodol ac ni ddylai dynnu oddi ar eu gwaith o reoli eu safle coetir neu goedwig.

Mae profiadau rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill a mynychwyr y gweithdy mesur effaith wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio gyda safleoedd ac adeiladu ar weithgarwch monitro a mesur effaith sy'n bodoli eisoes i sicrhau bod ymdrechion presennol yn cael eu cydnabod ac nad ydynt yn cael eu dyblygu.

Efallai y bydd hyn yn gofyn am gynnal ymarfer ymgynghori byr i feincnodi pa ddulliau a gweithgareddau mesur effaith sydd eisoes yn cael eu defnyddio yn rhwydwaith y 72 safle yn y Cynllun Statws, pa offer mesur sy'n cael eu defnyddio a meysydd o ddiddordeb mewn

perthynas â mesur effeithiau cymdeithasol. Ar gyfer safleoedd sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mae'n bosibl y bydd opsiynau i bwyso ar ddata am ymwelwyr presennol neu gynnwys cwestiynau am Goedwig Genedlaethol Cymru mewn arolygon i aelodau neu ymwelwyr yn y dyfodol. Ar gyfer safleoedd sydd wedi cael grant TWIG, gallai hyn gynnwys cynnal dadansoddiad thematig o'u hadroddiad gwerthuso diwedd grant i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Mae Canllawiau'r Cynllun Statws yn amlinellu y gellir gofyn i safleoedd sy'n cytuno i ddod yn rhan o rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru am wybodaeth ynghylch sut mae eu coetiroedd yn cyfrannu at ddangosyddion strategaeth Coetiroedd i Gymru. [troednodyn 14] Yng nghyd-destun mesur effaith, ac yn seiliedig ar brofiad y tîm gwerthuso, mae'n bwysig egluro'r derminoleg a ddefnyddir wrth drafod monitro a mesur cyn dechrau unrhyw gasglu data o safleoedd y Cynllun Statws. Er enghraifft, dylid egluro'r gwahaniaeth rhwng gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau.

Er y gellir defnyddio Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Arolwg Pobl a Natur Cymru i weld newidiadau ym marn, ymddygiad a phrofiad y cyhoedd mewn cysylltiad â safleoedd coetiroedd a choedwigoedd, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd priodoli unrhyw newidiadau a nodwyd yn yr arolygon hyn i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru oherwydd methodoleg yr arolygon a meintiau'r samplau a ddefnyddiwyd. Nid yw'r her hon yn unigryw i Gymru.

Gellid archwilio opsiynau i gynyddu meintiau samplau'r arolwg i asesu unrhyw wahaniaethau mewn cymunedau o amgylch safleoedd yn y Cynllun Statws fel rhan o ddull mesur effaith yn y dyfodol i benderfynu a fyddai hyn yn galluogi unrhyw asesiad ystadegol gadarn o effaith rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

#### 4.4.1 Defnyddio'r sylfaen dystiolaeth sy'n bodoli eisoes

Fel y gwelir yn nulliau monitro Coedwig Genedlaethol Lloegr a Choedwigoedd a Thiroedd yr Alban (FLS), mae llawer o'u dangosyddion perfformiad allweddol hwy yn ymwneud â gweithgareddau ac allbynnau yn hytrach na chanlyniadau ac effeithiau. Pan nad yw'n bosibl darparu adnoddau helaeth ar gyfer mesur effaith gymdeithasol, dylai'r dull a ddewisir gan raglen Coedwig Genedlaethol Cymru fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar theori i helpu i fynd i'r afael â chwestiynau ynghylch a yw gweithgareddau a gynhelir ar draws safleoedd y Cynllun Statws yn creu effeithiau cymdeithasol ai peidio, ac os ydynt sut a pham y digwyddodd hyn, a sut y gallai cyd-destun fod wedi dylanwadu ar hyn er mwyn helpu i ddeall i ba raddau y gellir cyffredinoli canlyniadau ar lefel rhaglen.

Gellir defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar theori i ymchwilio ac archwilio'r cadwyni achosol y credir eu bod yn achosi newid yn ogystal â deall sut mae'r newid yn digwydd. Yn strwythur model Theori Newid, byddai hyn yn cynnwys creu dealltwriaeth o sut mae gweithgareddau wedi'u cynnal ar safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru a'r allbynnau o'r gweithgareddau hyn yn creu canlyniadau ac effeithiau y gellir arsylwi arnynt a'u mesur.

---

**Troednodiadau**

[14] Mae Dangosyddion Coetiroedd i Gymru yn mesur cynnydd tuag at y canlyniadau lefel uchel a ddisgrifir yng Nghoetiroedd i Gymru, sef y strategaeth 50 mlynedd ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru.

Er bod Theori Newid wedi'i greu yng ngwerthusiad Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol, ar hyn o bryd nid oes model ar lefel rhaglen ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru. Byddai hwn yn fan cychwyn defnyddiol i gael y bensaernïaeth ar gyfer gwerthuso effaith y rhaglen. Er enghraifft, mae defnyddio'r Peiriant Gwerth Cymdeithasol yn gofyn am greu model Theori Newid.

Drwy'r dull hwn mae'n bosibl defnyddio tystiolaeth bresennol ar yr hyn sy'n debygol o gael ei greu trwy weithgareddau ac allbynnau tebyg. Wrth ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar theori, gellir helpu i brofi'r rhagdybiaethau ynghylch sut y disgwylir i weithgareddau gyflawni'r effeithiau cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu gweld yn seiliedig ar ymyriadau neu weithgareddau tebyg. Er enghraifft, pan fo safleoedd yn casglu data i ddangos twf yn nifer yr ymwelwyr, gellir defnyddio'r sylfaen dystiolaeth bresennol i ddangos y cyfraniad tebygol y bydd hyn yn ei wneud i feysydd fel cysylltu â natur a buddion corfforol a llesiant yn seiliedig ar ymchwil flaenorol.

Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn bodoli ar y buddion (ac anfanteision) a ddaw yn sgil creu coetiroedd, ehangu coetiroedd a rheoli coetiroedd heb eu rheoli'n ddigonol. Mae Adolygiad Tystiolaeth y Goedwig Genedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn tynnu llawer o hyn at ei gilydd ac mae'n adnodd gwerthfawr a all gynorthwyo ymdrechion i sefydlu'r cysylltiadau achosol rhwng y safleoedd sydd wedi ymuno â'r rhwydwaith a'r canlyniadau a'r effeithiau a nodwyd. Yn ehangach mae ystod o ffynonellau tystiolaeth sy'n dangos y canlyniadau a'r effaith ar bobl o gael cysylltiad â natur neu drwy wneud mwy o weithgarwch corfforol a hamdden egnïol.

Mae sylfaen dystiolaeth gref hefyd ar fuddion lles gwirfoddoli ac effeithiau cadarn Ysgolion Coedwig ar blant bach. Gellid defnyddio gwybodaeth sylfaenol a gesglir o safleoedd y Cynllun Statws ynghylch nifer y gwirfoddolwyr ac oriau gwirfoddolwyr neu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol goedwig i ddangos eu cyfraniad at ystod o effeithiau cymdeithasol cadarnhaol a amlinellir yn y sylfaen dystiolaeth bresennol. Pwysleisia hyn y gellid defnyddio'r data a gesglir ar weithgareddau ac allbynnau ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru i ddechrau mesur cyfraniadau safleoedd y Cynllun Statws at ganlyniadau ac effeithiau cymdeithasol a ddiffiniwyd. Fodd bynnag, mae'r tîm gwerthuso yn cydnabod y gallai colli'r adran addysg yn CNC arwain at anawsterau wrth gefnogi safleoedd i ddatblygu gweithgareddau ysgol goedwig.

Mae prosiect ymchwil Bio-Well a ariannwyd gan Coed Cadw/Woodland Trust yn dangos effeithiau cadarnhaol bioamrywiaeth coetiroedd. Mae'r prosiect hwn wedi sefydlu graddfa bioamrywiaeth a lles pobl, sef casgliad o 17 cwestiwn sy'n galluogi asesu'r effaith y mae bioamrywiaeth yn ei chael ar les pobl. Mae'r cwestiynau'n gofyn i unigolion ystyried eu lles mewn perthynas â metrigau a phriodoleddau penodol bioamrywiaeth, gan gynnwys amrywiaeth y rhywogaethau, ymddygiadau, lliwiau, siapiau, gweadau, synau ac arogleuon. Mae'r ymatebion a roddir yn ymwneud â lles corfforol, emosiynol, gwybyddol, cymdeithasol ac ysbrydol. Rhoddir sgôr allan o 100 i ymatebion yn seiliedig ar ba mor gryf y mae eu lles yn ymateb i fioamrywiaeth.

Gall canfyddiadau prosiect ymchwil Bio-Well fod yn ffynhonnell dystiolaeth ar gyfraniad safleoedd coetiroedd a choedwigoedd at wella lles pobl. Gellid ystyried y raddfa

bioamrywiaeth a lles pobl hefyd fel offeryn posibl i fod yn ddull mesur effaith i'w fabwysiadu ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

Mae'r dystiolaeth o'r safleoedd astudiaethau achos a adroddwyd yn adran flaenorol yr adroddiad hwn yn dangos bod y rhaglen yn darparu ystod o fuddion i unigolion a chymunedau. Cyflawnir hyn trwy weithgareddau dan arweiniad gwirfoddolwyr, darparu cyfleoedd dysgu a thrwy annog pobl i gymryd rhan mewn hamdden egnïol ar safleoedd coedwig a choedwigoedd. Ym marn y tîm gwerthuso, mae hyn yn dangos y cyfraniad cadarnhaol y mae'r rhaglen yn ei wneud at ystod o gerrig milltir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae enghreifftiau o ba gerrig milltir y mae safleoedd yr astudiaethau achos i'w gweld yn cyfrannu atynt yn cynnwys:


- Cynyddu canran yr oedolion sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach i fwy na 97% erbyn 2050.
- Cynyddu canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 94% erbyn 2035 ac i dros 99% erbyn 2050.
- Cael o leiaf 90% o bobl ifanc 16–24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.
- Cynyddu canran y bobl sy'n gwirfoddoli 10% erbyn 2050, gan ddangos statws Cymru fel cenedl wirfoddoli.
- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy gael gwelliant yn sefyllfa rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad amlwg erbyn 2050.

Roedd consensws ymhlith y rhanddeiliaid a gyfwelwyd oedd yn ymwneud â pholisi coedwigaeth yng Nghymru o Llais y Goedwig, Forest Research, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a thri chynrychiolydd o awdurdodau lleol y byddai'n ddefnyddiol petai unrhyw ddull monitro neu fesur yn creu sylfaen dystiolaeth ar gyfraniad y rhaglen at y cerrig milltir hyn ac at amcanion polisi perthnasol eraill ac y caiff hyn ei gyfleu i gynulleidfa gyhoeddus.

### 4.4.2 Cytuno ar safon y dystiolaeth sydd ei hangen

Wrth ystyried opsiynau ar gyfer mesur effeithiau, mae'n ddefnyddiol pennu pa safon o dystiolaeth y dymuna'r rhaglen ei chael. Mae yna hierarchaeth tystiolaeth sy'n amrywio o farn arbenigwyr a thystiolaeth astudiaethau achos i adolygiadau systematig a threialon rheoledig ar hap (gweler Ffigur 4.1 isod). Awgryma'r hierarchaeth dystiolaeth nad yw pob tystiolaeth yr un peth ac yr ystyrir ambell ymchwil benodol yn gryfach, trwy ddyluniad, nag eraill. Po uchaf y mae safle dyluniad ymchwil ar y pyramid, y mwyaf tebygol yw y gellir adrodd yn hyderus ar y dystiolaeth.

**Ffigur 4.1 Hierarchaeth tystiolaeth**




Ffynhonnell: atgynhyrchwyd o Ysgol Nyrsio Prifysgol Maryland

Gan fod rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn amrywio o ran maint ac amrywiaeth, efallai y bydd lle i ymgymryd ag ymchwil a chasglu tystiolaeth ar wahanol lefelau yn y pyramid tystiolaeth hwn. Er enghraifft, gellid dynodi rhai safleoedd yn safleoedd ymchwil lle gellid dyrannu adnoddau i alluogi defnyddio astudiaethau cohort rheoledig neu astudiaethau cohort heb eu rheoli. Mae astudiaeth cohort rheoledig yn astudiaeth arsylwadol sy’n dilyn grŵp o bobl (cohort) dros amser i gymharu datblygiad canlyniad neu ganlyniadau (e.e. gweithgarwch corfforol) rhwng grŵp sydd wedi’u cyflwyno i ffactor (er enghraifft cymryd rhan mewn rhaglen weithgareddau) a grŵp rheoli nad oedd yn ymwneud â’r ffactor hwnnw. Astudiaeth cohort heb eu rheoli yw astudiaeth arsylwadol sy’n dilyn un grŵp o bobl (cohort) dros amser heb grŵp rheoli i olrhain canlyniadau.

Mae’r rhaglen Active Forests wedi gallu sicrhau lefel o dystiolaeth sy’n cyfateb i astudiaeth cohort heb ei rheoli ar yr hierarchaeth tystiolaeth oherwydd yr adnoddau oedd ar gael iddi. Er hynny, mae rhaglen Active Forests wedi amlygu’r heriau wrth ddefnyddio offer asesu meintiol safonol i fesur effaith ar lesiant yn ogystal ag anawsterau sy’n gysylltiedig â meintiau sampl bach. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu dulliau cymysg, cymesur sy’n defnyddio dulliau ansoddol i fesur a deall effaith ar lefel unigolion (e.e. ar gyfer cyfranogwyr ac ymwelwyr). Yn fras, byddai hyn yn cyd-fynd â’r astudiaethau achos a lefel yr astudiaethau ansoddol a disgrifiadol yn yr hierarchaeth tystiolaeth.

### 4.4.3 Diffinio'r effeithiau i'w mesur

Mae canlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru yn cynnwys ystod o newidiadau a ragwelir ar gyfer pobl a natur. Mae'r rhain yn cyfrannu at yr ystod o feysydd sydd wedi'u hymgorffori yn nangosyddion Coetiroedd i Gymru, gan gynnwys mesurau sy'n gysylltiedig ag iechyd coed, cydbwysedd carbon, cael y gymuned yn rhan a hamdden. Drwy eu cais i ymuno â Chynllun Statws y Goedwig Genedlaethol, aseswyd safleoedd yn erbyn chwe chanlyniad lefel uchel y rhaglen, sef:

Canlyniad hanfodol:

- coetiroedd gwydn o ansawdd da, sydd wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda.

Canlyniadau dymunol

- coetiroedd sy'n hygyrch i bobl
- cyfranogiad cymunedau mewn coetiroedd
- coetiroedd cysylltiedig
- coetiroedd a choed deinamig, aml-bwrpas
- coetiroedd sy'n dangos dysg, ymchwil ac arloesi.

Mae'n bwysig bod unrhyw ddull mesur effaith a fabwysiedir gan raglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn egluro hyd a lled y meysydd effaith i'w cofnodi. Yr hyn sy'n amlwg o raglenni coedwig tebyg yn y Deyrnas Unedig (gweler adran 4.1) yw bod manteision i gofnodi canlyniadau ac effaith ar natur a phobl er mwyn galluogi asesiad mwy cyfannol o'r cyfraniad y mae safleoedd coetir a choedwig yn ei ddarparu ar draws ystod o feysydd polisi. Fodd bynnag, gall yr offer a'r dulliau a ddefnyddir i fesur newidiadau sy'n seiliedig ar natur a'r amgylchedd fod yn wahanol i'r rheiny sy'n ceisio mesur gwerth cymdeithasol ac effeithiau ar bobl a chymunedau. Ar gyfer mesur effaith gymdeithasol rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, gall y pedwar canlyniad allweddol i bobl a fynegir yn strategaeth Coetiroedd i Gymru gynnig ffocws cychwynnol.

Mae sicrhau eglurder ynghylch yr amserlenni y mae effeithiau i'w mesur ynddynt hefyd yn bwysig. Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad Adolygiad Tystiolaeth y Goedwig Genedlaethol: Buddion i Gymdeithas a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mewn llawer o achosion mae angen astudiaethau hydredol i ddangos a yw rhaglenni fel Coedwig Genedlaethol Cymru yn newid agweddau ac ymddygiadau. Un enghraifft o arolwg hydredol yw Arolwg Hydredol Adnewyddu Bioamrywiaeth (ReBLS) yn Lloegr sy'n enghraifft o astudiaeth sy'n archwilio sut mae agweddau unigolion at natur yn newid dros amser. Gan fod rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru wedi'i chynllunio i greu etifeddiaeth barhaol i genedlaethau'r dyfodol, efallai y bydd angen ystyried ymgorffori dulliau cipio data hydredol mewn unrhyw fframwaith mesur effaith i fesur newidiadau a dangos effeithiau cymdeithasol.

Un o'r meysydd a godwyd gan y mynychwyr yn y gweithdy mesur effaith oedd gwerth a phwysigrwydd mesur adborth a barn y safleoedd yn y Cynllun Statws ar y gefnogaeth y

maent wedi'i derbyn gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, effaith bod yn rhan o'r rhwydwaith ar eu rheolaeth ar eu coetiroedd ac i ba raddau y mae bod yn rhan o'r rhaglen wedi eu galluogi i gael mynediad at refeniw neu gyllid grant i gefnogi cyflawni amcanion eu cynllun rheoli.

Awgryma hyn y dylai unrhyw ddull mesur effaith yn y dyfodol geisio dangos tystiolaeth o hyn. Ym marn y tîm gwerthuso, gellid gwneud hyn drwy arolwg i safleoedd a dylid ei gynnal bob 3 i 5 mlynedd ond gydag adborth mwy rheolaidd yn cael ei archwilio fel rhan o gyfarfodydd rhwydwaith.

### 4.4.4 Cael fframwaith hyblyg ar gyfer mesur effaith

Er mwyn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y safleoedd o ran eu capasiti, nifer eu hymwelwyr/defnyddwyr a lefelau'r gwirfoddoli yno, byddai dull haenog yn debygol o fod yn addas fel fframwaith a strwythur i'r dull ar gyfer mesur effaith gymdeithasol. Yn bwysig, byddai'r dull hwn yn seiliedig ar ymgynghori â safleoedd y Cynllun Statws i ganfod eu barn ar y tair lefel a'r dulliau mesur a awgrymir. Gellid eithrio safleoedd rhag unrhyw ofyniad i ymwneud â'r dull mesur effaith gymdeithasol os ydynt yn safleoedd sy'n canolbwyntio ar sicrhau buddion amgylcheddol a bioamrywiaeth yn unig yn hytrach nag effeithiau cymdeithasol neu safleoedd nad ydynt am ddenu ymwelwyr yn weithredol.

Dylid annog safleoedd i gasglu data monitro sylfaenol a data ar weithgareddau (Lefel 1) er mwyn galluogi'r rhaglen i gasglu manylion ynghylch dosbarthiad ac amlder gweithgareddau a chyfraniad gwirfoddolwyr ar draws y 72 safle yn y Cynllun Statws (ac eithrio unrhyw safle sydd am gynnig buddion amgylcheddol a bioamrywiaeth yn unig).

Efallai y bydd nifer llai o safleoedd am fabwysiadu dull mesur sy'n helpu i ehangu'r sylfaen dystiolaeth (Lefel 2). Gallai'r safleoedd hyn ddatblygu theori newid i fynegi sut maent yn disgwyl y byddai'r gweithgareddau a gynhelir ar eu safle coetir yn cynhyrchu allbynnau mesuradwy ac yn creu canlyniadau ac effeithiau y gellir arsylwi arnynt a'u mesur. Gallai safleoedd Lefel 2 ddefnyddio astudiaethau achos effaith ac astudiaethau ansoddol a disgrifiadol, dan arweiniad y meysydd canlyniad ac effaith sydd yn eu theori newid. Byddai hyn yn adeiladu ar y data monitro a data ar allbwn a gasglwyd yn Lefel 1 er mwyn canolbwyntio hefyd ar ddefnyddio dulliau cymysg i gasglu data ar brofiadau ymwelwyr, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr a'r effeithiau cymdeithasol sy'n deillio o'u hymgysylltiad â'r safle coedwig a choetir.

Yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael, gellid pennu llond llaw o safleoedd i fod yn rhai arddangos (Lefel 3). Byddai'r safleoedd hyn yn mynd y tu hwnt i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar theori sy'n benodol i'w safle (Lefel 2) trwy fabwysiadu dull mesur effaith i gynhyrchu tystiolaeth y gellir ei gymhwyso'n eang. Byddai hyn o gymorth i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru trwy ddefnyddio'r safleoedd arddangos hyn i ddangos beth yw'r effeithiau cymdeithasol tebygol ar draws safleoedd sydd â gweithgareddau tebyg. Gallai'r safleoedd hyn fabwysiadu dull mesur yn seiliedig ar ddefnyddio astudiaethau cohort rheoledig neu heb eu rheoli. Yn seiliedig ar brofiad rhaglen Active Forests, byddai hyn yn fwyaf perthnasol i safleoedd sy'n cynnal rhaglenni gweithgareddau ac yn gweithio gyda

chyfranogwyr dros gyfnod parhaus yn hytrach na cheisio casglu data gan ymwelwyr cyffredinol.

Byddai'r dull mesur hwn yn addas ar gyfer astudiaethau hydredol a chasglu data empirig sy'n gallu cynhyrchu tystiolaeth fesuradwy ar effeithiau cymdeithasol diffiniedig. Byddai angen ymrwymiad y safleoedd arddangos hyn i fesur effeithiau dros amser (h.y. 3 i 5 mlynedd).

Ceir enghraifft o strwythur lefel uchel dros y dudalen.

### 4.4.5 Opsiynau ar gyfer dull haenog o fesur effaith

Lefel 1: Adeiladu'r Sylfaen. Awgrymir y dull mesur canlynol:

- Cynhyrchir templed monitro ar gyfer safleoedd a'r templed hwnnw yn canolbwyntio ar weithgareddau ac allbwn hamdden ac addysgol a niferoedd/oriau gwirfoddolwyr.
- Fel yr amlinellwyd yn adran flaenorol yr adroddiad hwn, mae ymweliadau â safleoedd yr astudiaethau achos wedi dangos enghreifftiau o waith cadarnhaol gyda sefydliadau a mudiadau allanol. Gall casglu gwybodaeth am nifer y mudiadau a'r partneriaid allanol sy'n gweithio/cynnal gweithgareddau ar safleoedd yn y Cynllun Statws roi amlinelliad o natur a graddfa'r gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar gefnogi ystod o effeithiau cymdeithasol ar gyfer gwahanol grwpiau o gyfranogwyr neu ymwelwyr.
- Gellid ymgorffori'r templed monitro yn y broses ymgeisio i safleoedd yn y dyfodol sy'n gwneud cais i ymuno â'r Cynllun Statws. Ar gyfer y 72 safle sydd ynddo'n barod, gellid dosbarthu templed monitro y cytunwyd arno i gasglu'r data hwn. Dylid cwblhau'r ymarfer casglu data hwn bob 3 blynedd o leiaf, a byddai'n darparu data ar weithgareddau ac allbynnau ar draws safleoedd y Cynllun Statws i gyfrannu at theori newid ar lefel rhaglen ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru. Byddai hefyd yn darparu'r sylfaen ar gyfer mesur effaith gymdeithasol mwy manwl fel yr amlinellir yn Lefelau 2 a 3 isod.

Yn addas ar gyfer:

- Gallai pob safle gasglu'r wybodaeth hon, gan gynnwys y rheiny sy'n brin eu hadnoddau neu gapasiti ar gyfer casglu data.

Lefel 2: Ehangu ar y sylfaen dystiolaeth. Awgrymir y dull mesur canlynol:

- Gellid cefnogi safleoedd i lunio Theori Newid i'w helpu i fynegi'r effeithiau cymdeithasol y maent yn gobeithio eu cyflawni a sut mae eu gweithgareddau a'u gwaith yn cyfrannu at y rhain. Byddai'r Theori Newid yn cynorthwyo â dylunio offer ymchwil pwrpasol a phenodol i safleoedd – a drafodir yn y pwyntiau bwled isod – a dulliau mesur.
- Gellid defnyddio holiaduron ymwelwyr i sefydlu proffil ymwelwyr a chasglu adborth ar eu profiad ymweld. Mae'r Holiadur Cymunedol a ddefnyddiwyd yn rhan o'r gwerthusiad hwn yn enghraifft o ddull o'r fath.

- Dan arweiniad Theori Newid sy'n benodol i safle, gellid datblygu astudiaethau achos thematig sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol effaith gymdeithasol megis lles neu gysylltedd â byd natur drwy ddefnyddio offer safonol neu bwrpasol i sefydlu'r canlyniadau a'r effeithiau ar y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, dysgu a hamdden (e.e. Peiriant Gwerth Cymdeithasol, graddfa lles Bio-Well, pecyn holiadur cymunedol). Byddid yn elwa o greu templed astudiaeth achos safonol ar gyfer y rhaglen a chanllawiau i safleoedd ar sut i lunio eu hastudiaeth achos.
- Gellid darparu hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr i wneud gwaith ymchwil a chasglu data.
- Yn seiliedig ar enghraifft Buglife a'u gwaith yng Nghoetiroedd Bryn Sirhowy, gall mapio ac ehangu'r defnydd o brosiectau gwyddoniaeth dinasyddion helpu i ddangos ymgysylltiad cymunedol â rheoli coetiroedd ac adfer cynefinoedd yn ogystal â chasglu data gwerthfawr ar gynefinoedd ar draws safleoedd Cynllun y Statws.

Yn addas ar gyfer:

- Safleoedd sydd ag adnoddau staff ac/neu wirfoddolwyr a'r capasiti i gynnal gwaith ymchwil.
- Dylid dosbarthu'r dulliau mesur effaith yn ôl y math o safle er mwyn gwahaniaethu rhwng safleoedd cenedlaethol sydd â phroffil uchel ac yn bwysig i economi ymwelwyr Cymru a safleoedd lleol sy'n bwysig i'w cymunedau eu hunain. Dylai casglu data Lefel 2 geisio cynnwys cymysgedd o'r safleoedd hyn i sicrhau'r dysgu gorau posibl.

Lefel 3: Dwysáu'r sylfaen dystiolaeth. Awgrymir y dull mesur canlynol:

- Gellid darparu adnoddau ar gyfer comisiynu gwaith ymchwil a gwerthuso yn allanol, sef ymchwil sy'n canolbwyntio ar archwilio cyfraniad safleoedd at gerrig milltir y cytunwyd arnynt o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r canlyniadau i bobl yn strategaeth Coetiroedd i Gymru.
- Gellid defnyddio sampl wedi'i hybu o arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd i ganfod unrhyw newidiadau i gymunedau sydd wedi'u lleoli ger safleoedd y Cynllun Statws. Byddai angen digon o adnoddau i gasglu adborth gan ymwelwyr presennol neu ddarpar ymwelwyr gan ddefnyddio dull samplu y cytunwyd arno. Yn seiliedig ar yr adborth o raglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill yn y DU, bydd hyn yn gofyn am adnoddau nid yn unig i gynhyrchu arolwg cychwynnol (llinell sylfaen) ond hefyd i ddiweddaru'r arolwg ar amlder y cytunwyd arno.
- O ystyried bod rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill o bob cwr o'r DU yn treialu defnyddio systemau a thechnolegau data lleoliadol i asesu niferoedd ymwelwyr, proffil ac amser aros, byddai'n werth treialu'r dulliau hyn ar draws rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru.

Yn addas ar gyfer:

- Safleoedd arddangos a all roi cipolwg ar sut mae coetiroedd a choedwigoedd yn cyfrannu at amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

- Safleoedd a all ymrwymo i fesur effeithiau dros gyfnod hirach (h.y. 3 i 5 mlynedd).

Mae cyfleoedd a heriau yn codi yn sgil llwyddiant rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn cynyddu nifer y safleoedd coetir yn y Cynllun Statws. O ran cyfleoedd, gall ehangder ac amrywiaeth safleoedd agor posibiliadau i gynhyrchu dysgu gwerthfawr ar y canlyniadau i natur, pobl a chymunedau. Gallai ymgynghori â safleoedd yn y Cynllun Statws bennu meysydd diddordeb a dyheadau mewn perthynas â mesur effaith gymdeithasol, a gallai hynny lywio pa safleoedd sy'n symud i Lefelau 2 a 3 o'r dull mesur effaith arfaethedig.

Ceir cyfleoedd hefyd i wireddu ac ysgogi sylfaen sylweddol o wirfoddolwyr a rhwydwaith o weithwyr proffesiynol i gasglu data a thystiolaeth ar fuddion a chanlyniadau i bobl, cyfranogwyr a chymunedau, yn ogystal â buddion i fywyd gwyllt a newid cynefinoedd sy'n deillio o reoli coetiroedd gwell.

Mae'n debygol y bydd yr heriau cychwynnol ar gyfer adeiladu sylfaen i'r dull mesur effaith ar Lefel 1 yn cynnwys sicrhau bod y safleoedd yn cefnogi'r cynllun ac yn fodlon casglu dangosyddion mewn ffordd gyson sy'n galluogi crynhoi ar lefel rhaglen. Bydd ehangu a dyfnhau'r sylfaen dystiolaeth yn gofyn am ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i safleoedd ar ddefnyddio pecyn mesur effaith ac o bosibl darparu adnoddau i gomisiynu capasiti ymchwil allanol i weithio gyda sampl o safleoedd dros gyfnod parhaus o amser.

Ar lefel rheoli rhaglen, bydd angen adeiladu amrywiaeth o systemau a phrosesau i alluogi rhannu data yn ddiogel a mynd ati'n systematig i gasglu tystiolaeth o weithgarwch, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau. Bydd hyn yn gofyn am ddigon o adnoddau a chapasiti i wneud y defnydd mwyaf o'r data hwn i gynhyrchu tystiolaeth ar lefel y rhaglen ar yr effeithiau cymdeithasol a gyflawnir gan raglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

Mae Coedwig Ymchwil Cymru wedi'i sefydlu o fewn Rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer ymchwil sy'n seiliedig ar goed yng Nghymru. Dan arweiniad Forest Research, mae gweithgareddau o fewn Coedwig Ymchwil Cymru yn cyfrannu'n uniongyrchol at ganlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae'r Goedwig Ymchwil yn bwriadu hwyluso sefydlu arbrofion ac ardaloedd arddangos ledled Cymru a hynny er mwyn cynyddu opsiynau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau addysgol, a rhannu profiadau.

Mae gan hyn y potensial i hwyluso casglu data sy'n ymwneud â mesur effaith gymdeithasol, er enghraifft defnyddio Gwyddoniaeth Dinasyddion a fyddai'n tystio i gyfranogiad cymunedau yn eu safleoedd coedwig a choetir lleol. Yn ogystal, byddai adeiladu proffil rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru fel rhwydwaith sy'n agored i gydweithredu ymchwil yn gallu helpu i ddenu cyllid allanol i gefnogi mesur effaith gymdeithasol ar Lefelau 2 a 3 o'r dull arfaethedig. Gallai hyn gynnwys cyllid ymchwil trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Cymunedol Cymru neu Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru.

### 4.4.6 Beth sydd angen ei gynnwys yn y rhaglen i alluogi mesur effaith

Ym marn y tîm gwerthuso, dyma'r prif bethau y mae angen eu hymgorffori yn y rhaglen i alluogi'r dulliau asesu effaith a awgrymir:

- arweiniad i safleoedd ar sut i gasglu'r data angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen ar gyfer asesu effaith;
- sicrwydd nad yw cymryd rhan yn yr ymdrechion i ehangu neu ddyfnhau'r sylfaen dystiolaeth yn ofyniad gorfodol ar gyfer bod yn rhan o'r Cynllun Statws; ac
- anogaeth i ddechrau neu barhau â'u taith eu hunain i fesur effaith.

Gellid cynhyrchu canllawiau, gan gynnwys pecyn offer ac adnoddau, a chael y Tîm Cyswllt Coetiroedd i ddosbarthu'r canllawiau hynny i safleoedd y Cynllun Statws i'w cefnogi i gasglu data a dangos tystiolaeth o'u cyfraniad at effeithiau cymdeithasol. Pan ddarperir pecyn offer ac adnoddau, dylai fod yn ofynnol i safleoedd rannu eu data â thîm rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru i alluogi dadansoddi ar lefel y rhaglen. Byddai angen digon o adnoddau a phrofiad yn nhîm y rhaglen i gefnogi casglu a dadansoddi'r data hwn.

Mae'r offer holiadur cymunedol a ddefnyddir gan y gwerthusiad hwn yn un enghraifft o offer casglu data sylfaenol y gellid ei ddarparu i bob safle i'w cefnogi i gasglu adborth gan ymwelwyr/defnyddwyr. Wedi'i agregu ar lefel rhaglen, mae gan hwn y potensial i gynhyrchu mewnwelediad a dysgu gwerthfawr o'r rhaglen. Gellid diweddaru hysbysiadau preifatrwydd a'r holiaduron i gasglu cytundeb gwybodus gan ymatebwyr i rannu eu hymatebion dienw gyda safleoedd i gefnogi eu gweithgareddau monitro eu hunain yn benodol. O ran rheolwyr safleoedd sydd â'u prosesau eu hunain ar gyfer casglu adborth gan ymwelwyr neu aelodau, efallai fod potensial i drafod opsiynau ar gyfer cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

Mae canllawiau'r Cynllun Statws yn nodi y gellir gofyn i safleoedd ddarparu gwybodaeth am sut mae eu coetiroedd yn cyfrannu at set o ddangosyddion a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i fesur sut mae Coedwig Genedlaethol Cymru yn datblygu ac a yw'n cyflawni ei hamcanion ai peidio. Byddai darparu templed i ofyn am set fach o fesurau data safonol gan safleoedd yn fanteisiol wrth asesu cyfraniad cyfunol y rhaglen i ystod o feysydd polisi. Byddai hyn yn cefnogi Lefel 1 Adeiladu'r Sylfaen ar gyfer y dull mesur effaith.

Bydd union gyfansoddiad y set ddata hon ar Lefel 1 yn seiliedig ar y gofynion a nodir gan Lywodraeth Cymru ac yn natblygiad model theori newid ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Fodd bynnag, gallai hefyd gynnwys meysydd fel nifer y gwirfoddolwyr, gweithgareddau addysgol a gynigir, gweithgareddau hamdden ar y safle neu nifer y coed a blannwyd. Gellid casglu data sylfaenol yn ffurflen gais y Cynllun Statws ac yna cael diweddariadau dilynol trwy arolwg byr i'r safleoedd, a hynny bob 3 blynedd i gyd-fynd â'r amserlenni a adroddir gan raglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill. Ar Lefel 2, gellid casglu metrigau ychwanegol i alluogi safleoedd i fesur yn erbyn eu Theori Newid. Gellid rhannu'r metrigau ychwanegol hyn â thîm rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru ond ni fyddai hyn yn orfodol.

O ran rhoi sicrwydd meddwl, un o'r themâu a godwyd yn ystod cyfweliadau â rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill oedd sicrhau nad yw unrhyw ofynion ar gyfer mesur effaith yn golygu bod y safleoedd newydd yn dewis peidio ymuno â'r Cynllun Statws neu'n arwain at safleoedd presennol yn penderfynu tynnu'n ôl o'r cynllun. Byddai hyn yn wrthgynhyrchiol i amcanion y rhaglen. Dylid sicrhau safleoedd y bydd unrhyw geisiadau am ddata a gesglir yn ysgafn eu cyffyrddiad ac y rhoddir canllawiau a chefnogaeth i wneud yn siŵr eu bod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir a sut y bydd y data yn cael ei ddefnyddio. Bydd angen i gefnogaeth ganolog gan dîm rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru ddarparu ar gyfer yr amrywio tebygol mewn capasiti a phrofiad ledled y safleoedd gwahanol wrth gasglu'r data monitro a data am weithgareddau a awgrymir ar gyfer Lefel 1. Dylid darparu canllawiau a chefnogaeth i safleoedd sy'n dymuno mynd ati'n fanylach i fesur effaith.

Dylid annog safleoedd i ehangu lefel y data a'r dystiolaeth a gesglir ganddynt ar effaith eu safle coetir neu goedwig. Mae gan hyn y potensial i gefnogi ymdrechion i sicrhau cyllid a buddsoddiad yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o fuddion ymgysylltu â safleoedd coetir yn eu cymunedau lleol. Gall hyn gynnwys safleoedd sy'n symud ymlaen i Lefel 3 ar y fframwaith mesur effaith os bydd adnoddau'n caniatáu.

Ar gyfer y garfan hon o safleoedd, dylid ystyried creu rhaglen cyllid grantiau i alluogi safleoedd i gael mynediad at gyllid i gefnogi eu gweithgarwch mesur effaith. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, prynu systemau cyfrif ymwelwyr neu systemau data lleoliadol. Mae'r tîm gwerthuso yn rhagweld mai dim ond nifer fach o safleoedd fyddai'n cyrraedd Lefel 3 ar y fframwaith mesur effaith. Byddai'r rhain yn safleoedd arddangos y gellid darparu adnoddau ychwanegol iddynt i gefnogi mesur effaith yn fwy trylwyr a hydredol.

Gallai hyn gynnwys cydweithrediadau ag adrannau academaidd a mynediad at grantiau ymchwil i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r bylchau yn y dystiolaeth fel yr amlinellir yn adroddiad Adolygiad Tystiolaeth y Goedwig Genedlaethol: Buddion i Gymdeithas, sef bod llawer o'r dystiolaeth yn dod o'r tu allan i Gymru ac nad oes fawr dim tystiolaeth o newidiadau'n cael eu cynnal dros y tymor hir. Mae rhaglen Active Forests yn rhoi enghraifft o lefelau'r dystiolaeth effaith y gellir eu casglu pan ddarperir digon o adnoddau dros gyfnod parhaus.

Ym marn y tîm gwerthuso, dylid annog safleoedd hefyd i gymryd rhan weithredol yn Rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru i rannu dysgu ac arferion ar reoli coetiroedd a'u gweithgarwch mesur effaith. Gellid ystyried cynnal Symposiwm Coedwig Genedlaethol Cymru blynyddol i hwyluso cyfnewid gwybodaeth ond hefyd i gydnabod dathlu gwaith safleoedd y Cynllun Statws a'u cyfraniad at ystod o feysydd polisi. Dylai hyn ymgorffori unrhyw ymchwil a wneir dan faner menter Coedwig Ymchwil Cymru. Gallai symposiwm blynyddol hefyd roi cyfle i hyrwyddo'r rhaglen ymhellach. Mae dull tebyg wedi'i fabwysiadu gan Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) i gynnig cyfleoedd i rwydweithio, rhannu arferion a hwyluso dysgu.

Yn olaf, maes allweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef yn y rhaglen mewn perthynas â mesur effaith yw'r capasiti yn ganolog i roi'r dull ar waith ac i roi canllawiau, sicrwydd ac anogaeth i safleoedd yn ogystal â chydlynu'r gwaith canolog o gasglu, prosesu a dadansoddi'r data a'r dystiolaeth a gyflwynwyd. O ystyried bod 72 o safleoedd wedi ymuno â'r Cynllun Statws, ni ddylid tanamcangyfrif faint o ddata a thystiolaeth y gellid ei gynhyrchu.

Mae hyn yn cynnwys nid yn unig y data a gesglir ar y tair lefel i fesur effaith, ond tystiolaeth bosibl hefyd yn deillio o gynlluniau rheoli coetiroedd y safleoedd a chyflwyniadau i'r cyrff achredu coetiroedd a choedwigoedd.

Bydd defnyddio'r ffynhonnell gyfoethog hon o ddata ar lefel y rhaglen er mwyn deall, dysgu a thystiolaethu yn gofyn am ddigon o gapasiti a sgiliau yn nhîm y rhaglen. Bydd angen i Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru gytuno ar sut y caiff y swyddogaeth ei strwythuro a pha adnoddau a ddarperir. Bydd angen digon o adnoddau hefyd i drefnu a chynnull cyfarfodydd y rhwydwaith, a allai gynnwys is-grwpiau neu gymunedau ymarfer penodol a grëwyd i ddwyn ynghyd safleoedd Cynllun Statws sy'n archwilio meysydd effaith penodol. [troednodyn 15] Os penderfynir ar yr opsiwn i gynnal symposiwm blynyddol, bydd angen ystyried cynnwys hyn hefyd yng nghapasiti'r rhaglen.

**Troednodiadau**

[15] Awgrymwyd hyn yn adroddiad Cam 1, gwerthusiad canol tymor Coedwig Genedlaethol Cymru.

# 5 Casgliadau ac Argymhellion

## 5.1 Casgliadau

Mae’r gwerthusiad annibynnol hwn ar raglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn ymwneud â’r cyfnod cyflawni o fis Medi 2022 hyd at ddiwedd Hydref 2025. Mae’r adroddiad Cam 2 hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yng Ngham 1 y gwerthusiad a ganolbwyntiai ar weithredu rhaglen y Goedwig Genedlaethol o 2022 ymlaen, gan gynnwys archwilio pa mor effeithiol oedd y dulliau cyflawni a gyflwynwyd, rolau staff, cyllid a Chynllun Statws y Goedwig Genedlaethol.

Mae’r adroddiad Cam 2 hwn yn canolbwyntio ar ddeall barn cymunedau, mudiadau a sefydliadau ynghylch y Goedwig Genedlaethol fel cysyniad ar gyfer cynyddu faint o goetir sydd yng Nghymru a thrwy eu profiadau o safleoedd y Goedwig Genedlaethol hyd yn hyn, gan gynnwys unrhyw farn am fuddion. Archwiliodd yr adroddiad hefyd pa ddulliau fyddai fwyaf addas i werthuso effaith cymdeithasol y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol, a pha elfennau sydd angen eu cynnwys yn y rhaglen i alluogi hyn.

## 5.2 Y Goedwig Genedlaethol fel cysyniad i gael mwy o goetir yng Nghymru

Mae canfyddiadau arolwg barn diweddaraf y cyhoedd ar goedwigoedd (POFS) yn cynnig cyd-destun defnyddiol ar gyfer unrhyw newid mewn agweddau at amrywiaeth o feysydd gan gynnwys buddion ac anfanteision coetiroedd, hamdden mewn coetiroedd ac ymgysylltu cymunedol. Awgryma canfyddiadau arolwg POFS 2025 fod angen ymdrechion parhaus i hyrwyddo buddion coetiroedd i bobl, bywyd gwyllt a’r amgylchedd. Ym marn y tîm gwerthuso, pwysleisia hyn y cyfraniad cadarnhaol y gall rhaglen y Goedwig Genedlaethol ei wneud i hyrwyddo buddion coedwigoedd a choetiroedd ac annog mwy o bobl i ymweld â nhw.

Mae tystiolaeth o ymweliadau â safleoedd yr astudiaethau achos yn awgrymu mai isel yw’r lefelau ymwybyddiaeth o gynllun Coedwig Genedlaethol Cymru ymhlith ymwelwyr. Pan ddywedai gwirfoddolwyr yn safleoedd yr astudiaethau achos eu bod wedi clywed am y rhaglen, roedd eu gwybodaeth am yr hyn yr oedd yn ei olygu yn aml yn gyfyngedig.

Cafwyd lefelau llawer uwch o ymwybyddiaeth ymhlith ymatebwyr yr holiadur cymunedol, a allai fod wedi cynnwys ymwelwyr a gwirfoddolwyr. Er nad yw barn yr ymwelwyr a’r gwirfoddolwyr a holwyd ar y safleoedd neu a atebodd yr holiadur cymunedol o reidrwydd yn gynrychioliadol o lefelau ymwybyddiaeth ymhlith y sylfaen ymwelwyr neu wirfoddolwyr ehangach ar draws y safleoedd hyn, fodd bynnag, awgryma hyn bod angen gwaith pellach i gefnogi safleoedd i godi ymwybyddiaeth o’r rhaglen.

Er mai isel oedd lefelau ymwybyddiaeth o gynllun Coedwig Genedlaethol Cymru ymhlith ymwelwyr a gwirfoddolwyr a gyfwelwyd ar y safleoedd, eto roedd cefnogaeth gyffredinol i’r syniad o Goedwig Genedlaethol i Gymru fel ffordd o blannu coed neu reoli coetiroedd presennol yn dda pan eglurwyd hyn gan y tîm gwerthuso. Cefnogir y canfyddiad hwn gan ymatebwyr i’r holiadur cymunedol gan y cafwyd barn gadarnhaol iawn ar gysyniad o

Goedwig Genedlaethol fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel.

Mae cynnwys cymunedau yn y coetiroedd yn un o chwe chanlyniad Coedwig Genedlaethol Cymru. Nododd mwyafrif y bobl a ymatebodd i'r holiadur cymunedol nad oedd unrhyw un erioed wedi eu holi ynghylch cynlluniau ar gyfer rheoli safle yr oeddent wedi ymweld ag ef. Dywedodd ychydig dros draean o ymatebwyr yr holiadur cymunedol y byddent yn hoffi bod yn rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol. Mae hyn yn dangos y potensial i reolwyr safleoedd gael barn a chefnogaeth gan gymunedau i'w cynorthwyo i fwrw ymlaen â'u cynlluniau rheoli coetir.

Y prif newidiadau y sylwyd arnynt ers i'r safleoedd ymuno â'r Cynllun Statws oedd llwybrau wedi'u gwneud yn fwy hygyrch, cael gwared ar goed a chynnydd mewn gweithgareddau gwirfoddoli. Mae pedwar o'r safleoedd sy'n astudiaethau achos wedi derbyn cyllid trwy gynllun grant TWIG sy'n cefnogi'r newidiadau y sylwodd ymwelwyr arnynt. Mae'r newidiadau hyn a adroddwyd gan ymatebwyr yr holiadur cymunedol yn gadarnhaol o gofio bod ymchwil sy'n bodoli eisoes yn awgrymu mai hygyrchedd yw un o'r prif rwystrau i fynd i goetiroedd, yn enwedig i bobl hŷn sydd â phroblemau symudedd a phobl anabl.

Yn seiliedig ar yr atebion i'r holiadur cymunedol, mae safleoedd yr astudiaethau achos yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau hamdden gan gynnwys cerdded, mynd â chŵn am dro, gwylio bywyd gwyllt, rhedeg, beicio, crefftau coed a physgota. Dengys hyn y cyfraniad a wna'r safleoedd i feysydd polisi sy'n ymwneud â chael pobl yn egnïol a mabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Gallai ymchwil bellach asesu i ba raddau y mae rhwydwaith y 72 o safleoedd ledled y Cynllun Statws yn cyfrannu at ffyrdd iach o fyw.

Mae gwirfoddolwyr yn rhoi cefnogaeth gref ym mhob un o'r wyth safle sy'n astudiaeth achos. Mae cyfweliadau â staff y safleoedd, grwpiau ffocws a chyfweliadau â gwirfoddolwyr mewn saith o safleoedd yr astudiaethau achos yn awgrymu bod yr adnodd gwirfoddoli hwn yn galluogi'r safleoedd i wneud amrywiaeth o weithgareddau rheoli coetir ac ymgysylltu cymunedol, yn ogystal â sicrhau buddion i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Nid yw'r gwirfoddolwyr hyn gan amlaf yn deall bod eu gwaith yn cefnogi eu safle i gyfrannu at ganlyniadau ehangach rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae hyn yn tynnu sylw at gyfle i godi ymwybyddiaeth o gynllun Coedwig Genedlaethol Cymru a rhoi adborth i wirfoddolwyr ynghylch pwysigrwydd eu cyfraniad nhw.

Un thema amlwg a gododd o'r cyfweliadau ar y safleoedd gydag ymwelwyr oedd yr awydd am ragor o wybodaeth am gynefinoedd, gwaith cadwraeth a dulliau rheoli coetiroedd, gan gynnwys byrddau dehongli mewn lleoliadau addas. Mae'r gwaith hwn ar y gweill mewn safleoedd sydd wedi cael cyllid grant TWIG gan fod y cyllid yn helpu i wella arwyddion a dehongliadau yn y safleoedd.

Yn sgil yr ymgysylltu ar y safleoedd ag ymwelwyr a gwirfoddolwyr, cafwyd cyfoeth o wybodaeth am y buddion i gymunedau ar draws yr wyth safle sy'n astudiaethau achos. Roedd y rhain yn cynnwys buddion cynhenid yn deillio o dreulio amser ar safleoedd coedwig a chysylltu â natur, ynghyd â buddion cyfrannol o gymryd rhan mewn gweithgarwch wedi'i drefnu neu ddysgu sgiliau newydd.

Soniodd pobl a atebodd yr holiadur cymunedol hefyd am gael ystod eang o fuddion yn sgil ymweld â'u safle Coedwig Genedlaethol Cymru. Er mai iechyd corfforol a meddyliol gwell oedd y buddion mwyaf cyffredin a adroddwyd, tynnodd yr ymatebion sylw at ehangder y buddion. Dywedodd ychydig dros ddau o bob tri o ymatebwyr yr holiadur cymunedol fod eu safle coetir neu goedwig wedi gwella ansawdd eu bywyd yn gyffredinol.

Mae safleoedd yr astudiaethau achos yn cynnwys enghreifftiau cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o fudiadau allanol i ymestyn y cyrhaeddiad i gymunedau a gwneud y mwyaf o werth safleoedd coetiroedd er budd cymunedol. Maent yn dangos ehangder yr effaith y gall safleoedd Coedwig Genedlaethol ei chael ar gymunedau. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n ymgysylltu ac yn cefnogi amrywiaeth o bobl, gan gynnwys y rhai a allai fod heb gynrychiolaeth ddigonol ym mhroffil ymwelwyr i safleoedd coetiroedd a choedwigoedd. Mae enghreifftiau pellach i'w gweld ledled rhwydwaith ehangach y safleoedd sydd yn y Cynllun Statws fel y dangosir yn eu ceisiadau i ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol.

Mae tystiolaeth hefyd bod safleoedd yr astudiaethau achos yn galluogi ac yn hwyluso gwaith pwysig yn ymwneud â chasglu data i gefnogi amcanion bioamrywiaeth drwy ddefnyddio dull Gwyddoniaeth Dinasyddion. Gall y dull hwn olygu cael y capasiti a'r sgiliau i gasglu data i gynorthwyo dealltwriaeth am sefyllfa rhywogaethau mewn coetir neu goedwig. Gall defnyddio'r data hwn fod yn sail i waith a dulliau yn y dyfodol o gefnogi adferiad rhywogaethau ar draws safleoedd y Cynllun Statws ac ar safleoedd coetiroedd a choedwigoedd yng Nghymru yn ehangach. Fel y dangosir yn eu ceisiadau i ymuno â rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru, mae llawer o safleoedd y Cynllun Statws eisoes yn defnyddio dull Gwyddoniaeth Dinasyddion, a hynny'n dangos cyfraniad cyfunol tebygol y rhaglen at amcanion bioamrywiaeth ac adferiad rhywogaethau.

Un o'r themâu mwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr ymweliadau â safleoedd yr astudiaethau achos oedd pwysigrwydd rhannu arferion, dysg a gwybodaeth ar draws y rhaglen er mwyn cefnogi safleoedd i reoli eu coetiroedd. Mae hyn eisoes ar waith drwy Rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru. Gall rhannu gwybodaeth ac arfer gorau yn effeithiol gynorthwyo safleoedd yn unigol yn ogystal â'r rhaglen gyfan i gyflawni yn erbyn canlyniadau lefel uchel Coedwig Genedlaethol Cymru a'r cerrig milltir cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Gwelwyd cefnogaeth gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid coedwigaeth yng Nghymru i sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel. Roedd cefnogaeth gref i rannu dysgu ar draws rhwydwaith y safleoedd er mwyn parhau i ategu eu rheoli ansawdd, ond hefyd i gefnogi ymdrechion eiriolaeth i arddangos gwerth a chyfraniad y rhaglen i ystod o feysydd polisi.

Roedd yr adborth gan yr holl randdeiliaid coedwigaeth wedi dangos dyhead am ragor o wybodaeth a mewnwelediad ynghylch sut mae'r rhaglen yn gweithredu a'r ystod o fuddion y mae hi'n esgor arnynt, ar lefel safleoedd unigol ac ar lefel rhwydwaith. Mewn gwirionedd,

mae'r rhwydwaith o 72 o safleoedd yn esgor ar fuddion a manteision i gymunedau ac i fyd natur a chynefinoedd, fel y nodwyd ganddynt yn eu ffurflenni cais.

Thema gyffredin a godwyd i wahanol raddau ym mhob cyfweliad â rhanddeiliaid coedwigaeth oedd argaeledd adnoddau i gefnogi safleoedd presennol i reoli eu coetiroedd yn dda neu i gefnogi darpar safleoedd i wneud gwaith adfer i'w cael mewn sefyllfa lle gallent wneud cais i ymuno â'r rhwydwaith. Er bod cydnabyddiaeth nad yw'r rhaglen wedi'i chynllunio i ddarparu cyllid refeniw parhaus i safleoedd coetiroedd sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws, awgrymwyd y gallai fod angen cyllid ychwanegol ar safleoedd yn y rhwydwaith i'w galluogi hwy a'r rhaglen ehangach i wireddu eu potensial. Nid oedd unrhyw awgrym yn ystod y cyfweliadau hyn y dylai'r cyllid hwn gael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru o reidrwydd, ond yn hytrach y dylai'r gwaith o barhau â'r opsiynau i gefnogi neu gyfeirio safleoedd at ffynonellau cymorth cyllid gael ei wneud fel rhan o waith y tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd a thrwy rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru.

## 5.3 Dulliau gwerthuso effaith

Mae ymchwil flaenorol wedi pwysleisio natur 'dameidiog' y dystiolaeth ar effeithiau a chanlyniadau coetiroedd a choedwigoedd cymunedol. Er bod newid wedi bod mewn ffocws o fesur effeithiau bioffisegol yn unig i fesur effeithiau cymdeithasol, eto gall monitro a gwerthuso ganolbwyntio'n ormodol ar fesur allbynnau yn hytrach na'r effeithiau tymor hwy ar bobl a chymunedau.

Yn ôl y dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg wrth ymgysylltu â rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill a'r rheiny sy'n ymwneud yn agos â chyflawni rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, awgrymir na ddylai fod un dull ar gyfer mesur effaith gymdeithasol. O ystyried amrywiaeth gwahanol y safleoedd sydd yn rhwydwaith y Cynllun Statws, mae angen i'r dull o fesur effaith gymdeithasol fod yn gymesur ac yn addas i safleoedd o ran eu maint, eu perchnogaeth, eu capasiti a'u strwythur rheoli a natur y gweithgareddau a gynhelir yno. Dylai paramedrau'r dull mesur effaith a fabwysiedir ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru fod yn seiliedig ar unrhyw feysydd polisi neu ofynion tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, a gallai fod angen adlewyrchu'r rhain yn y dull mesur effaith a fabwysiedir.

Mae'r dangosyddion a'r allbynnau a ddefnyddir gan y rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd mewn ardaloedd eraill o'r DU a ddisgrifir uchod yn canolbwyntio'n bennaf ar gasglu data sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ac allbynnau. Yn absenoldeb y rhain ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, dylai unrhyw ddull mesur effaith geisio cyflwyno'r rhain yn gyntaf i gasglu mesurau cyson am weithgarwch ac yna ehangu'r dull i gefnogi mesur canlyniadau ac effeithiau. Gwelwyd o brofiadau'r rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill ledled y DU ac o'r gweithdy mesur effaith pa mor bwysig yw gweithio gyda safleoedd ac adeiladu ar weithgarwch monitro a mesur effaith sy'n bodoli eisoes i sicrhau bod ymdrechion presennol yn cael eu cydnabod ac nad ydynt yn cael eu dyblygu.

Byddai'n werthfawr casglu gwybodaeth o bob un o 72 safle'r Cynllun Statws ar nifer y gwirfoddolwyr maen nhw'n eu cefnogi a nifer yr oriau gwirfoddoli a wneir. Gellid gwneud gwaith pellach i drefnu cynnal arolwg safonol i wirfoddolwyr ar draws yr holl safleoedd i

archwilio'r effaith gymdeithasol gadarnhaol ar wirfoddolwyr trwy eu gwaith yn rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn bodoli ar y buddion a ddaw yn sgil creu coetiroedd, ehangu coetiroedd a rheoli coetiroedd sydd heb eu rheoli'n ddigonol. Mae Adolygiad Tystiolaeth y Goedwig Genedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn tynnu llawer o hyn at ei gilydd ac mae'n adnodd gwerthfawr a all gynorthwyo ymdrechion i sefydlu cysylltiadau achosol rhwng y safleoedd sydd wedi ymuno â'r rhwydwaith a'r canlyniadau a'r effeithiau a nodwyd. Yn fwy cyffredinol mae ystod o ffynonellau tystiolaeth sy'n mynegi bod canlyniadau ac effeithiau ynghlwm i bobl wrth gysylltu â byd natur neu wrth gynyddu gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol.

Er mwyn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y safleoedd sydd yn y Cynllun Statws, byddai dull haenog yn debygol o fod yn addas fel fframwaith a strwythur i'r dull ar gyfer mesur effaith gymdeithasol. Dylid annog pob safle i gasglu data monitro sylfaenol a data ar weithgareddau (Lefel 1) er mwyn galluogi'r rhaglen i gasglu manylion ynghylch dosbarthiad ac amlder gweithgareddau a chyfraniad gwirfoddolwyr ar draws y 72 safle yn y Cynllun Statws.

Mae'n bosibl y bydd nifer llai o safleoedd yn dymuno mabwysiadu dull mesur sy'n helpu i ehangu'r sylfaen dystiolaeth ar effaith trwy ddefnyddio astudiaethau achos ac astudiaethau ansoddol a disgrifiadol (Lefel 2). Byddai hyn yn adeiladu ar y data monitro ac allbwn a gasglwyd ar Lefel 1 ac yn canolbwyntio ar ddefnyddio dulliau cymysg i gasglu data ar brofiadau ymwelwyr, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr a'r effeithiau cymdeithasol sy'n deillio o'u hymgysylltiad â'r safle coedwig a choetir. Ar gyfer y safleoedd hyn, byddai eu dull mesur yn seiliedig ar Theori Newid ar gyfer pob safle.

Yn amodol ar adnoddau, gellid dynodi llond llaw o safleoedd i fod yn safleoedd arddangos (Lefel 3). Gallai'r safleoedd hyn greu tystiolaeth y gellir ei gyffredinoli i bob safle na Lefel 2 drwy fabwysiadu dull mesur effaith ar lefel uwch ar yr hierarchaeth tystiolaeth. Byddai hyn o gymorth i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru drwy ddefnyddio'r safleoedd arddangos hyn i ddangos beth yw'r effaith gymdeithasol debygol ledled y safleoedd sydd â gweithgareddau tebyg. Gallai'r safleoedd hyn fabwysiadu dull mesur sy'n seiliedig ar ddefnyddio astudiaethau cohort rheoledig neu heb eu rheoli. Awgryma tystiolaeth o Goedwig Genedlaethol Lloegr a rhaglen Active Forests y byddai'n fuddiol iawn sefydlu cyllideb ymchwil i ddarparu capasiti ac arbenigedd i gofnodi effeithiau cymdeithasol drwy gydweithio â safleoedd. Dylai'r dull mesur effaith a fabwysiedir ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru geisio darparu ar gyfer treialu technolegau priodol i gynhyrchu dysgu a mewnwelediad.

Maes allweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef yn y rhaglen mewn perthynas â mesur effaith yw'r capasiti yn ganolog i roi'r dull ar waith, rhoi arweiniad, sicrwydd ac anogaeth i safleoedd ynghyd â chydlynu'r gwaith canolog o gasglu, prosesu a dadansoddi'r data a'r dystiolaeth a gyflwynir.

O ystyried bod 72 o safleoedd wedi ymuno â'r Cynllun Statws, ni ddylid tanamcangyfrif faint o ddata a thystiolaeth y gellid ei gynhyrchu. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig y data a

gesglir ar y tair lefel i fesur effaith, ond tystiolaeth bosibl hefyd yn deillio o gynlluniau rheoli coetiroedd y safleoedd a chyflwyniadau i'r cyrff achredu coetiroedd a choedwigoedd. Bydd defnyddio'r ffynhonnell gyfoethog hon o ddata ar lefel y rhaglen er mwyn deall, dysgu a thystiolaethu yn gofyn am gael digon o gapasiti a sgiliau yn nhîm y rhaglen. Bydd angen i Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru gytuno ar sut y caiff y swyddogaeth ei strwythuro a pha adnoddau a ddarperir.

## 5.4 Argymhellion

Cynigir yr argymhellion canlynol i fod yn sail i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru ar ôl 2025.

Argymhelliad 1

Dylid llunio Theori Newid ar lefel rhaglen ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru i sicrhau pensaernïaeth lefel uchel ar gyfer y dull mesur effaith a fabwysiedir.

Argymhelliad 2

Mae angen ymdrechion parhaus i hyrwyddo a chodi proffil rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru a safleoedd unigol. Dylai hyn gynnwys adnoddau, cefnogaeth ac anogaeth i alluogi safleoedd i hyrwyddo'r rhaglen a'i hamcanion i'w hymwelwyr, gwirfoddolwyr, sefydliadau partner a chymunedau.

Argymhelliad 3

O gofio'r rôl bwysig sydd gan wirfoddolwyr yn y gwaith o reoli safleoedd sydd yn y Cynllun Statws, dylai'r rhaglen archwilio opsiynau i sefydlu cysylltiadau â phlatfform Gwirfoddoli Cymru. Bydd hyn yn cynorthwyo safleoedd i ddenu gwirfoddolwyr i gefnogi'r amcanion i wella'r rheolaeth ar goetiroedd ac ehangu cyfleoedd hamdden i gymunedau lleol.

Argymhelliad 4

Er mwyn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y safleoedd gwahanol, dylid mabwysiadu dull hyblyg a haenog o fesur effaith gymdeithasol. Dylai'r rhaglen gynnig canllawiau ac adnoddau i gynorthwyo safleoedd â'u gweithgarwch mesur effaith eu hunain a dylid ystyried opsiynau i ddefnyddio'r data a'r gwaith asesu a wneir eisoes gan safleoedd coetiroedd a choedwigoedd ar gyfer achrediadau cydnabyddedig. Dylai'r rhaglen hefyd gasglu mesurau cyson am weithgarwch ar draws safleoedd cyn ehangu'r dull i gefnogi mesur canlyniadau ac effeithiau.

Argymhelliad 5

Yn seiliedig ar dystiolaeth o raglenni coedwigaeth eraill y Deyrnas Unedig, byddai'n fuddiol tu hwnt sefydlu cyllideb ymchwil i ddarparu capasiti ac arbenigedd i gofnodi effeithiau cymdeithasol drwy gydweithio â safleoedd. Dylid ystyried yr amserlenni y mae cyllid ymchwil ar eu cyfer er mwyn osgoi creu gwaelodlin o'r sefyllfa nawr heb y cyllid angenrheidiol i ddiweddaru'r ymchwil hon yn y dyfodol.

Argymhelliad 6

Mae cefnogaeth gref i rannu dysgu ac arferion ar draws safleoedd y Cynllun Statws. Mae hyn yn pwysleisio gwerth a phwysigrwydd rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru. Dylai'r rhaglen adolygu gallu a sgiliau tîm y rhaglen i reoli'r rhwydwaith er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith yn gwireddu ei botensial.

Argymhelliad 7

Dylid cael eglurder ynghylch ffocws y rhaglen i'r dyfodol o ran naill ai ceisio tyfu'r rhwydwaith a chynyddu nifer y safleoedd neu atgyfnerthu'r rhaglen i gefnogi safleoedd presennol. Dylai hyn ystyried y goblygiadau ar allu tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd i gefnogi safleoedd sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws.

# Atodiad A: Cynlluniau gwaith maes yn ôl safle

## Gerddi a Chastell y Waun

### Trosolwg

- Rhaglen reolaidd o weithgareddau, gan gynnwys ymweliadau gan grwpiau ac ysgolion.
- Wedi'i gefnogi gan Dîm Parcmyn Gwirfoddol, gyda Thîm Ymgysylltu Ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn goruchwylio gweithgareddau a'r ymgysylltu.

### Dull gweithredu

- Cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb â dau aelod o'r Tîm Parcmyn Gwirfoddol.
- Mynychu sesiwn wirfoddoli gyda gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Caer (Awst) a chynnal grŵp ffocws (10 cyfranogwr) i archwilio'r ymwneud ag elfennau'r ystad sy'n berthnasol i'r Goedwig Genedlaethol.
- Cynnal grŵp ffocws arall gyda thri gwirfoddolwr rheolaidd Castell y Waun.
- Arddangos cod QR i'r holiadur yn y llety ymwelwyr ac mewn ardaloedd eraill yn y coetir trwy gydol mis Medi.

## Coed Cymunedol Mynydd Mawr

### Trosolwg

- Grŵp Facebook ar y cyd â pharc gwledig arall (Llynllydd Owen a Mynydd Mawr); mae gan y grŵp Cyfeillion 800 o aelodau.
- Grŵp Cyfeillion gweithgar (40 aelod) yn ymweld bob dydd; mae defnydd hamdden ar y safle yn cynnwys cerdded, beicio mynydd a marchogaeth ceffylau.
- Tir Coed yn cynnal sesiynau wythnosol; cynhaliodd Coed Lleol weithgareddau yn 2021–2023 ac mae'n bwriadu ailddechrau.
- Ysgol gynradd gyfagos (Ysgol y Tymbl) yn defnyddio'r coetir o bryd i'w gilydd.
- Cael ei reoli gan Dîm Parcmyn; maes parcio ar gael.

### Dull gweithredu

- Ymgynghoriad rhithwir gyda staff Tir Coed wedi'i gwblhau; yn aros am gyswllt gyda staff Coed Lleol (wedi'i ohirio tan fis Hydref).
- Ymgynghoriad wedi'i gynllunio gyda staff Ysgol y Tymbl ar ôl gwyliau'r ysgol; gofynnwyd am fanylion cyswllt ond nis derbyniwyd eto.
- Holiadur defnyddwyr ar-lein wedi'i ddosbarthu trwy dudalen Facebook y grŵp Cyfeillion; taflen cod QR wedi'i chreu a'i harddangos ar hysbysfyrddau'r safle.

- Ymweliadau â'r safle:
    - 30 Awst: trafodaethau â chynrychiolwyr y grŵp Cyfeillion a dau gyfranogwr yng ngweithgaredd y Grŵp Cyfeillion (nifer isel wedi dod oherwydd y tywydd).
    - 24 Medi: trafodaethau strwythuredig â chyfranogwyr a staff Tir Coed.

## Coetiroedd Stad Stagbwll

### Trosolwg

- Wedi'i gefnogi gan ddau grŵp gwirfoddol: gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (dydd Mawrth cyntaf y mis) a grŵp arall yn ymweld yn fisol.
- Yr ystad yn cynnwys Canolfan Ddysgu Awyr Agored Stagbwll (wedi'i reoli'n allanol) ac yn gwasanaethu fel canolfan ymwelwyr.
- Yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau: teithiau cerdded meddwlgarwch, cerdded Nordig, teithiau cerdded hanes, chwilota am fwyd yn y gwyllt, ioga, a chrefftau natur i'r teulu.

### Dull gweithredu

- Ymgynghori â Chyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'i gwblhau; grwpiau gwirfoddol eraill naill ai codi arian yn unig neu newydd eu sefydlu.
- Dim cyswllt eto ag arweinwyr digwyddiadau.
- Holiadur ar-lein wedi'i hyrwyddo trwy hysbysfyrddau'r safle, cylchlythyr FPCNP, tudalen Facebook yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac e-fwletin.
- Ymweliadau â'r safle:
    - 2 Medi: holi pedwar o wirfoddolwyr y Cyfeillion a rheolwr y gwirfoddolwyr.
    - Gwnaed ymweliad arall gan gael cyfweliadau ag 20 o ddefnyddwyr y safle (prynhawn/min nos).

## Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise (Cwmni buddiant cymunedol)

### Trosolwg

- Yn brysur ar Facebook, Instagram, a'r wefan; yn cynhyrchu cylchlythyr.
- Yr ardd goedwig ar agor bob dydd Mawrth a phob trydydd dydd Sadwrn (10am–4pm).
- Wedi'i chefnogi gan 12 gwirfoddolwr; yn cadw Siop Eco (ar agor Llun–Sad, 10am–3pm) wedi'i rhedeg gan wirfoddolwyr.
- Yn ymwneud â mudiadau fel The Lighthouse, Dechrau'n Deg, a Theatr Byd Bach.

- Diwrnod agored wedi'i gynnal ym mis Medi.

**Dull gweithredu**

- Ymgynghoriadau wedi'u cynllunio gyda grwpiau defnyddwyr; Dechrau'n Deg wedi'i gwblhau, eraill yn yr arfaeth (heb dderbyn manylion cysylltiadau er holi dilynol).
- Holiadur ar-lein wedi'i ddosbarthu drwy Facebook a chod QR yn ystod ymweliad â'r safle; pump ymateb wedi'u cofnodi.
- Ymweliadau â'r safle:
  - 26 Awst: trafodaethau â gwirfoddolwyr a chyfranogwyr Dechrau'n Deg.
  - 20 Medi (diwrnod agored): holi chwe gwirfoddolwr a chwe ymwelydd (nifer isel wedi dod oherwydd y glaw).

## Coed y Bont / Coed Dolgoed

**Trosolwg**

- Wedi'i reoli gan dîm gwirfoddolwyr Coed y Bont; gwefan a thudalen Facebook prysur.
- Sesiynau gwirfoddoli rheolaidd (trydydd Sul y mis, 6 i 18 o fynychwyr).
- Wedi'i leoli ar lwybr cerdded Ystrad Fflur; yn boblogaidd gyda phobl yn mynd â'u cŵn am dro.
- Mae'r cyfleusterau'n cynnwys maes parcio, ardal bicnic, a lloches bren.

**Dull gweithredu**

- Arolwg ar-lein wedi'i ddosbarthu drwy Facebook; taflen â chod QR wedi'i harddangos ar hysbysfwrdd y safle.
- Ymweliadau â'r safle:
  - 7 Awst: holi saith o ddefnyddwyr y safle (pobl yn cerdded/mynd â'u ci am dro).
  - 14 Medi: siarad â saith o wirfoddolwyr yn ystod sesiwn (glaw wedi effeithio ar y nifer a ddaeth).
- Yn aros am fanylion cyswllt yr ysgol gynradd leol sy'n defnyddio'r safle yn wythnosol ar gyfer gweithgareddau Ysgol Goedwig.

## Parc Gwledig Porthceri

**Trosolwg**

- Yn eiddo i Gyngor Bro Morgannwg; yn cynnwys coetir, dolydd, pyllau a thraethau.
- Llwybr Arfordirol Cymru yn rhedeg drwy'r safle.

- Cynllun rheoli coetir yn sail i'r gweithgareddau ymgysylltu: ymweliadau ysgol (tua thri'r wythnos yn ystod y tymor) a gwirfoddoli gydag Innovate Trust (sesiynau wythnosol i oedolion ag anableddau dysgu).
- Yn brysur ar Facebook ac wedi bod ar gyfrif "Visit the Vale".

#### Dull gweithredu

- Cynhaliwyd cyfweliadau gyda dau barcmon a Thîm Sgiliau a Llesiant Innovate Trust (nid oedd gwirfoddolwyr ar gael oherwydd problemau staffio).
- Postiwyd cod QR yr holiadur o amgylch y coetir a'i rannu â grŵp Cyfeillion Porthceri.
- Gwnaed ymdrechion i gysylltu â thair ysgol i ddosbarthu'r holiadur; anfonwyd e-byst dilynol.
- Ymweliad arall â'r safle ar 25 Medi i roi hwb i nifer yr ymatebion i'r holiadur.

### Coetir Ysbryd y Llynfi

#### Trosolwg

- Wedi'i sefydlu ar hen safle diwydiannol; yn eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru, yn cael ei reoli gan grŵp lleol o wirfoddolwyr.
- Yn boblogaidd gyda chymunedau lleol, rhedwyr, a phobl yn mynd â'u cŵn am dro; yma mae'r cerflun "Ceidwad y Pyllau Glo".
- Mae gwirfoddolwyr yn cwrdd yn fisol mewn gorsaf dân gerllaw; teclynnau cyfrif ymwelwyr wedi'u gosod yn ddiweddar; mwy o weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol.

#### Dull gweithredu

- Ymweliad â'r safle ar 13 Medi yn ystod diwrnod gwirfoddolwyr: siarad â'r trefnydd, un gwirfoddolwr, a dau ymwelydd (tywydd gwael).
- Codau QR wedi'u dosbarthu i'r holiadur; aros am opsiynau dosbarthu eraill oddi wrth reolwr y safle.
- Ymweliad dilynol ar 25 Medi i roi hwb i sampl yr holiadur.

### Coetiroedd Bryn Sirhowy

#### Trosolwg

- Wedi'i leoli ar domen sbwriel a gwastraff sydd wedi'i adfer (gwastraff y diwydiant dur a gwastraff cartrefi tan y 1970au).
- Wedi'i reoli gan gwmni buddiant cymunedol ers 2016, sy'n cynnwys trigolion lleol.
- Ar agor i gerddwyr; cyflwynwyd gwartheg pori yn ddiweddar.

- Yn cynnig gwasanaethau fel tynnu a symud coed, tocio, teneuo, a meinciau pwrpasol.
- Yn cynnwys ardal addysg ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion; y nod hirdymor yw cynaliadwyedd ariannol trwy wasanaethau a hyfforddiant.

**Dull gweithredu**

- Mynychu digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd 'Woodland Wonderland' (7 Medi): siarad â gwirfoddolwyr a rheolwyr y cwmni buddiant cymunedol, dosbarthu codau QR yr holiadur i ymwelwyr (teuluoedd yn bennaf).

# Atodiad B: Offer ymchwilio

## Cyfweliadau â rhanddeiliaid ar gyfer gwerthuso rhaglen y Goedwig Genedlaethol

Cwestiynau ar gyfer trafodaeth

1. A fyddech gystal â chyflwyno eich hun a sut rydych chi yn/wedi bod yn rhan o raglen y Goedwig Genedlaethol. Pa brofiad neu gysylltiad ydych chi wedi'i gael â'r rhaglen?
2. Sut byddech chi'n crynhoi'r hyn y mae rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn ceisio'i gyflawni?
3. Beth yw eich barn am y cysyniad o gael Coedwig Genedlaethol fel ffordd o blannu coed neu o gael rheolaeth dda ar goetiroedd sy'n bodoli eisoes?
4. Beth yw eich barn ar y cynnydd y mae rhaglen y Goedwig Genedlaethol wedi'i wneud o 2022 ymlaen? A yw hyn yn cyd-fynd â'ch disgwyliadau?
5. Sut mae rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn cymharu â rhaglenni coedwigaeth eraill? e.e. cynlluniau rheoli/creu coetiroedd, hwyluso mynediad i gymunedau lleol ac ymwelwyr.
6. O'ch safbwynt chi, beth fyddai llwyddiant i'r rhaglen yn y tymor canolig a'r tymor hwy? *O ran tymor canolig rydym yn golygu erbyn 2030 a'r tymor hwy y tu hwnt i hynny*.
7. I ba raddau mae rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn cyfrannu at bolisïau a strategaethau mewn perthynas ag a) newid yn yr hinsawdd, b) creu cymunedau cryf a chydlynol, c) cysylltu pobl â byd natur, a d) cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Pa fecanweithiau neu alluogwyr sydd angen bod ar waith i sicrhau'r cyfraniad hwn?
8. A oes gennych chi unrhyw farn ynghylch sut y dylai'r rhaglen Goedwig Genedlaethol edrych yn y cyfnod ar ôl 2025?
9. Gan fod rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn ymrwymiad hirdymor, a oes gennych unrhyw farn ar ffocws y rhaglen yn y dyfodol o ran ei nodau a'i hamcanion? Ydych chi'n credu y dylai fod unrhyw newidiadau i ffocws y rhaglen ar ôl 2025?
10. Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r pynciau rydyn ni wedi'u trafod heddiw neu ynghylch gwerthuso rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn fwy cyffredinol? Neu a oes unrhyw beth penodol y dylai'r gwerthusiad geisio ei archwilio nad ydym eisoes wedi sôn amdano?

## Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: mesur effaith

Pwyntiau trafod

Cwestiynau 'ar lawr gwlad'

Mae'r casgliad hwn o gwestiynau ar gyfer unigolion ar lawr gwlad sy'n rheoli safleoedd coetir penodol.

1. A fyddech gystal â chyflwyno eich hun a'ch rôl?
2. Rhowch fanylion am y safleoedd coetiroedd a choedwigoedd rydych chi'n eu rheoli? (e.e. nifer y safleoedd, cyfanswm maint y safleoedd, amrywiaeth y safleoedd).
3. Sut mae eich sefydliad yn cael ei ariannu (gan gynnwys cyllid grant at ddibenion penodol)? Pa ofynion adrodd, os o gwbl, sydd ynghlwm â'r ffordd rydych chi'n cael eich ariannu?
4. Beth yw eich amcanion ar gyfer rheoli eich safleoedd coetir a choedwig? Amlinellwch unrhyw amcanion perthnasol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
    a. Pobl
    b. Natur
    c. Yr hinsawdd
    d. Yr economi
5. Pa raglenni neu weithgareddau a gynhelir yn y safleoedd coetir a choedwig rydych chi'n eu rheoli sy'n cefnogi canlyniadau i bobl (e.e. digwyddiadau cymunedol, hamdden, gwirfoddoli, addysg)?
6. A oes gennych chi gynllun cyflawni ac/neu Theori Newid sy'n mynegi'r nodau a'r amcanion rydych chi'n gweithio tuag at eu cyflawni?
7. Beth yw eich dull o fesur effaith eich gwaith ar draws y safleoedd coetir a choedwig rydych chi'n eu rheoli? Amlinellwch:
    a. Pa ddata ydych chi'n ei gasglu? Ai metrigau penodol neu ddisgrifiadau ansoddol yw'r rhain, neu gymysgedd?
    b. Pa mor rheolaidd mae hyn yn cael ei gasglu?
    c. Pwy sy'n ei gasglu?
    d. Ydych chi'n defnyddio gwyddoniaeth dinasyddion?
    e. Sut mae eich dull yn adlewyrchu amrywiaeth safleoedd coetiroedd a choedwigoedd? Pa hyblygrwydd sydd yn eich dull?
    f. A oes unrhyw fylchau yn y data?
8. Pa hyfforddiant neu gefnogaeth a gynigir i safleoedd i'w cynorthwyo i gasglu data a thystiolaeth er mwyn gallu mesur eu heffaith?
9. Sut mae eich sefydliad/mudiad yn adrodd ac yn cyfleu effaith eich coetiroedd ac i bwy? Os ydych chi'n casglu data o sawl safle, sut caiff y data hwn ei ddwyn ynghyd?
10. Wrth feddwl am eich dull presennol o fesur effaith coetir a reolir a gweithgarwch ar safleoedd coedwig:
    a. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r dull hwn? Pam ydych chi'n dweud hynny?

   b. A oes unrhyw gynlluniau i newid neu wella eich dull o gasglu tystiolaeth? Er enghraifft, cynyddu faint o ddata rydych chi'n ei gasglu. Pam ydych chi'n dweud hynny?

11. Ydych chi wedi dod ar draws unrhyw heriau wrth fesur effaith eich gwaith? Os felly, sut ydych chi wedi goresgyn y rhain? (e.e. capasiti, systemau casglu data, ansawdd data)
12. A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar opsiynau i fesur effaith rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd yn y dyfodol?

Cwestiynau strategol:

Mae'r casgliad hwn o gwestiynau wedi'i anelu at unigolion sy'n rheoli neu'n ariannu safleoedd coetir. Mae'n debygol bod hyn yn cynnwys rheoli ar gyfer ariannu sawl safle.

1. A fyddech cystal â chyflwyno eich hun a'ch rôl?
2. A allech chi amlinellu'r prif ardaloedd a rhaglenni coetir a choedwig y mae eich sefydliad yn eu hariannu neu'n eu rheoli?
3. Pa fathau o safleoedd coetiroedd a choedwigoedd y mae eich sefydliad fel arfer yn eu hariannu / rheoli [yn dibynnu ar eu hateb i gwestiwn 2 ynghylch a yw ariannu neu reoli yn fwyaf priodol]?
   (e.e. nifer y safleoedd, cyfanswm arwynebedd, amrywiaeth y safle)
   a) Beth yw amcanion strategol eich sefydliad o ran cefnogi safleoedd coetiroedd a choedwigoedd? Amlinellwch unrhyw nodau perthnasol sy'n gysylltiedig â: Pobl, Natur, Hinsawdd a'r Economi.
4. A yw eich sefydliad yn mesur buddion ac effeithiau'r safleoedd coetir a choedwig y mae'n eu hariannu neu'n eu rheoli? Os ydyw, sut [Awgrym: ai metrigau penodol neu ddisgrifiadau ansoddol neu gymysgedd yw'r rhain]?
   a. A yw hyn yn amrywio ledled gwahanol raglenni neu fathau o safleoedd?
   b. A ystyrir amrywiaeth safleoedd wrth osod metrigau? Sut?
   c. A oes unrhyw ddata neu dystiolaeth orfodol y mae'n rhaid ei chasglu yn y safleoedd a ariennir? A yw hyn yn cyd-fynd ag amrywiaeth y safleoedd? Sut?
   d. [Os atebir yn gadarnhaol i 4b] A ddarperir unrhyw hyfforddiant neu ganllawiau i gefnogi prosiectau wrth gasglu'r dystiolaeth hon?
5. Wrth feddwl am eich dull presennol o fesur effaith gweithgarwch y safleoedd coetir a choedwig a ariennir / a reolir:
   a. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r dull hwn? A oes unrhyw feysydd i'w gwella?
   b. A oes unrhyw gynlluniau i newid neu wella eich dull o gasglu tystiolaeth? Er enghraifft, i adrodd yn well yn erbyn nodau strategol eich sefydliad?
6. Pa hyfforddiant neu gefnogaeth a gynigir i safleoedd rydych chi'n eu hariannu neu'n eu rheoli i'w cynorthwyo i gasglu data a thystiolaeth er mwyn gallu mesur eu heffaith?
7. Sut mae'r dystiolaeth a gesglir gennych yn cael ei defnyddio neu ei chyfleu i ddangos effaith ar lefel rhaglen neu sefydliad? I bwy ydych chi'n adrodd hyn?
8. A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar opsiynau i fesur effaith rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd yn y dyfodol?

## Gwerthuso’r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: ymgysylltu â staff rheoli safleoedd

Cwestiynau ar gyfer safleoedd sy’n astudiaethau achos

1. A fyddech chi gystal â chyflwyno eich hun a’ch rôl yn rheoli’r safle?
2. Beth yw eich barn ar y cysyniad o gael Coedwig Genedlaethol Cymru fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel?
3. A yw’r rheolaeth ar eich safle wedi newid ers iddo ddod yn rhan o rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru neu fel rhan o baratoi i ddod yn rhan o’r rhwydwaith? Os ydyw, rhowch fanylion (e.e. rheoli coed) a phryd oedd hyn.
4. A yw eich safle yn ymgysylltu ac yn cynnwys cymunedau? Sut mae’n gwneud hynny? A yw hyn wedi newid ers i chi ddod yn rhan o rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru neu fel rhan o baratoi i ddod yn rhan o’r rhwydwaith? Os do, cadarnhewch pryd y digwyddodd y newid hwn.
5. I ba raddau mae pobl neu gymunedau lleol yn ymwneud â datblygu syniadau ar gyfer sut mae’r coetir yn cael ei ddefnyddio neu ei reoli?
6. A ydych chi wedi cymryd unrhyw gamau i gysylltu eich safle â safleoedd coetir yn y gymdogaeth a’r ardal ehangach? Ydych chi’n cydweithio â safleoedd coetiroedd eraill? Os felly, beth ydych chi wedi cydweithio arno (e.e. rheoli coetiroedd, gweithgareddau hamdden wedi’u trefnu ar y safle ac ati)
7. Beth ydych chi’n ei wybod am broffil eich ymwelwyr? (e.e. o ble maen nhw’n teithio, cyfnodau prysuraf ymweliadau).
8. Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i nifer yr ymwelwyr ers i’ch safle ddod yn rhan o rwydwaith y Goedwig Genedlaethol?
9. Pa gyfleoedd, os rhai o gwbl, sydd wedi agor i’ch safle ers i chi ddod yn rhan o rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru?
10. I ba raddau ydych chi’n credu bod bod yn rhan o rwydwaith y Goedwig Genedlaethol wedi codi proffil eich safle?
11. A oes unrhyw ddysgu wedi digwydd o’ch profiad o fod yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru hyd yn hyn y gellid ei ddefnyddio i gefnogi gwelliannau yn y rhaglen yn y dyfodol?
12. Beth yw eich uchelgeisiau ar gyfer eich safle coetir yn y dyfodol? Pa rôl ydych chi’n ei gweld ar gyfer rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru? Sut ydych chi’n meddwl y bydd cael statws Coedwig Genedlaethol yn eich helpu i gyflawni’r uchelgeisiau hyn?

## Gwerthuso’r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: ymgysylltu â gwirfoddolwyr

Cwestiynau ar gyfer gwirfoddolwyr sy’n cefnogi safleoedd y Goedwig Genedlaethol

A fyddech gystal â dweud ychydig am y canlynol wrthym?

1. Ers faint ydych chi wedi bod yn gwirfoddoli ar safle Coedwig Genedlaethol Cymru [ychwanegu enw]? Sut ddaethoch chi i fod yn wirfoddolwr ar y safle?
2. Beth wnaeth eich ysgogi i wirfoddoli ar y safle? Pam y safle hwn yn benodol?
3. Pa swyddogaethau ydych chi’n eu gwneud ar y safle? Pa effaith y mae eich gwirfoddoli yn ei gael ar y safle hwn?
4. Ydych chi wedi clywed am Goedwig Genedlaethol Cymru?
5. Beth yw eich barn am y cysyniad o gael Coedwig Genedlaethol Cymru fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel? Awgrym: Ydych chi’n cefnogi’r syniad hwn?
6. Oeddech chi’n gwybod bod y safle hwn yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru? Ers [ychwanegwch y dyddiad ymuno]
7. A yw’r safle’n ymgysylltu â chymunedau ac yn eu cynnwys? Sut?
8. Pa newidiadau ydych chi wedi’u gweld yn eich safle ers iddo ddod yn rhan o rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru yn [ychwanegwch y dyddiad] neu wrth iddo baratoi i ddod yn rhan o rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru? Er enghraifft:
    - Gwell mynediad a hygyrchedd
    - Proffil cryfach yn y gymuned leol
    - Cyfleusterau gwell ar y safle (e.e. maes parcio, toiledau, mannau cymunedol)
    - Ymgysylltiad gwell â’r gymuned
    - Mwy o grwpiau cymunedol, clybiau neu fudiadau yn defnyddio’r safle?
    - Ystod ehangach o weithgareddau wedi’u cynnal ar y safle (e.e. lles, addysg, cadwraeth)
    - Recriwtio mwy o wirfoddolwyr ac/neu fwy o amrywiaeth ym mhroffil gwirfoddolwyr
    - Newidiadau i reoli’r coetir
    - Newidiadau ymarferol i’r safle – o ran offer, meinciau, ffensio ac ati
    - Gwell dulliau cadwraeth neu fioamrywiaeth
    - Cysylltedd gwell
    - Mwy o ymchwil yn weladwy ar y safle
9. Ydych chi wedi bod yn rhan o gefnogi unrhyw un o’r newidiadau hyn drwy eich rôl yn gwirfoddoli? Os ydych, rhowch fanylion.
10. Sut ydych chi’n meddwl bod y gwaith rydych chi wedi’i wneud fel gwirfoddolwr wedi effeithio ar y gymuned leol? [awgrym: Beth tybiwch chi fyddai’r effaith ar y safle a’r gymuned pe na bai’r gwirfoddoli hwn yn digwydd?]
11. Sut cafodd y newidiadau hyn eu cyflawni? Er enghraifft, drwy gyllid y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (TWIG)/ Cronfa Treftadaeth y Loteri.
12. A oes gennych unrhyw awgrymiadau sut y gall y safle gryfhau ei hymwneud â’r gymuned leol?

13. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau i wella eich rôl neu'ch profiad gwirfoddoli?
14. Sut ydych chi wedi elwa o'ch profiad yn gwirfoddoli yn y safle? Beth oedd effeithiau gwirfoddoli arnoch chi?
15. A oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y gwerthusiad?

## Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: grŵp ffocws i ymwelwyr

Cwestiynau i ymwelwyr / awgrymiadau cwestiynau ar gyfer safleoedd astudiaethau achos

Cyflwyniad

1. A fyddech gystal â rhoi rhywfaint o gefndir ynghylch eich profiad fel gwirfoddolwr ar y safle gan gynnwys pam a phryd y dechreuoch chi ddid yn rhan?
    a) Awgrymiadau: beth oedd wedi'ch ysgogi i ddod yn rhan? Pa rolau/gwaith ydych chi'n eu gwneud?

Coedwig Genedlaethol Cymru

2. Ydych chi wedi clywed am Goedwig Genedlaethol Cymru?
3. Os do, beth yw eich dealltwriaeth chi o'r Goedwig Genedlaethol?
    a) Awgrymiadau: cael mwy o goetiroedd, bioamrywiaeth, coetiroedd sy'n hygyrch i bobl, mynediad cyhoeddus, coetiroedd cysylltiedig, cael y gymuned yn rhan
    b) Awgrymiadau: os nad oes dealltwriaeth dda o'r cynllun, a oes unrhyw beth a allai helpu hyn?

    [Os nad yw cyfranogwyr yn ymwybodol o gysyniad y Goedwig Genedlaethol neu os nad oes ganddynt ddealltwriaeth glir ohono, yna bydd Wavehill yn rhoi esboniad ac yn gofyn eu barn ar hyn.]
4. A wyddech chi bod y safle hwn ers [ychwanegwch y dyddiad] yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru?
5. Ydych chi wedi gweld unrhyw newidiadau i'r safle ers iddo ddod yn rhan o rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru neu wrth iddo baratoi i ddod yn rhan o rwydwaith y Goedwig Genedlaethol?
    a) Awgrymiadau: ynghylch hygyrchedd, proffil lleol, gwelliannau i gyfleusterau, defnydd cyhoeddus, ymgysylltiad cymunedol, mwy o waith/ffocws o fath penodol e.e. bioamrywiaeth, cadwraeth, newidiadau i reoli'r coetir, mwy o gysylltedd, ymchwil mwy gweladwy ar y safle.
6. Ydych chi wedi bod yn rhan o gefnogi unrhyw un o'r newidiadau hyn drwy eich rôl yn gwirfoddoli? Os ydych, rhowch fanylion.

Effaith

7. Sut ydych chi'n meddwl bod y gwaith rydych chi wedi'i wneud fel gwirfoddolwr wedi effeithio ar y gymuned leol? Beth yw effeithiau ehangach eich gwaith gwirfoddoli yn

eich barn chi? [awgrym: Beth tybiwch chi fyddai'r effaith ar y safle a'r gymuned pe na bai'r gwirfoddoli hwn yn digwydd?]

8. Ydych chi'n credu y gellid gwneud unrhyw newidiadau eraill i wella effaith gadarnhaol y safle ar y gymuned leol?
9. Sut ydych chi'n meddwl bod yr hyn rydych chi'n ei wneud yn cyfrannu at y Goedwig Genedlaethol? Oeddech chi'n gwybod bod yr hyn rydych chi'n ei wneud yn debygol o fod wedi cefnogi'r safle i gael ei statws Coedwig Genedlaethol?
10. Sut ydych chi wedi elwa o'ch profiad yn gwirfoddoli yn y safle? Beth oedd effeithiau gwirfoddoli arnoch chi?
    a) Awgrymiadau: iechyd a lles; addysg; cwrdd â phobl newydd, balchder dinesig

Gorffen

11. A oes gennych chi unrhyw adborth arall am y safle, neu ar Goedwig Genedlaethol Cymru yn fwy cyffredinol?
    a) Awgrym: unrhyw feysydd i'w gwella, cyfleoedd a gollwyd neu fylchau mewn cefnogaeth?
12. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei grybwyll, neu unrhyw beth yr ydych chi'n meddwl y dylid adfyfyrio arno yn ein gwerthusiad?

## Gwerthuso’r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: offer ymchwil Ymweliad ag Astudiaeth Achos

Ymweliadau â safleoedd sydd wedi ymuno â rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru

I’w lenwi cyn yr ymweliad

- Rhif cyfeirnod yr ymweliad
- I ble rydym yn mynd
- Safle’r coetir
- Cyflwyniad byr i’r prosiect/gweithgaredd y byddwn yn ymweld â nhw
- Pwy sy’n mynd i fod yno?
- Pam eu bod yno? Beth maen nhw’n ei wneud?

Ar ôl yr ymweliad

- Trosolwg cyffredinol o bwy oedd yn y ‘digwyddiad’, y gweithgareddau a gynhaliwyd
- Â phwy wnaethoch chi siarad? Faint o bobl wnaethoch chi siarad â nhw?
- A oeddech chi wedi gallu siarad â thrawstoriad da o gyfranogwyr? Os naddo, pam ddim?
- Sylwadau cyffredinol, er enghraifft eu barn ar fyd natur
- A wnaeth y cyfranogwyr siarad am unrhyw newid yn eu barn am natur dros y 12 mis diwethaf? Os do, beth?
- A wnaeth y cyfranogwyr siarad am unrhyw fuddion personol o gymryd rhan? Os do, beth? (e.e. sgiliau, buddion iechyd, cysylltiadau cymdeithasol)
- A wnaeth y cyfranogwyr sôn am unrhyw fuddion i’r gymuned o gymryd rhan? Os, do, beth oedd y rheiny?

1. Ynghylch Rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru

Cwestiynau

- Ydych chi wedi clywed am Goedwig Genedlaethol Cymru?
  Os ydynt,
    - Sut clywsoch chi am y Goedwig Genedlaethol?
    - Beth yw eich barn ar y cysyniad o gael Coedwig Genedlaethol Cymru fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel? Oeddech chi’n gwybod bod [enw’r safle] yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru?

  Os nad ydynt [Wavehill i amlinellu’r cysyniad]

    - Yn seiliedig ar y cysyniad hwn, beth yw eich barn ar y cysyniad o gael Coedwig Genedlaethol Cymru fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel?

Beth fyddai’n eich helpu i ddeall Coedwig Genedlaethol Cymru yn well a’r ffaith fod y safle hwn yn rhan ohoni?

Cwestiynau

- Ydych chi wedi clywed am Goedwig Genedlaethol Cymru?
  Os ydynt,
    - Sut clywsoch chi am y Goedwig Genedlaethol?
    - Beth yw eich barn ar y cysyniad o gael Coedwig Genedlaethol Cymru fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel? Oeddech chi'n gwybod bod [enw'r safle] yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru?

  Os nad ydynt [Wavehill i amlinellu'r cysyniad]

    - Yn seiliedig ar y cysyniad hwn, beth yw eich barn ar y cysyniad o gael Coedwig Genedlaethol Cymru fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel?

Beth fyddai'n eich helpu i ddeall Coedwig Genedlaethol Cymru yn well a'r ffaith fod y safle hwn yn rhan ohoni?

2. Profiadau â'r safle

Cwestiynau

- Ers pa mor hir ydych chi wedi defnyddio/ymweld ag [enw'r safle]?
- Beth yw eich profiadau o [enw'r safle] ers iddo ddod yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru [ychwanegwch y dyddiad]?
- Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i [enw'r safle] ers iddo ddod yn rhan o raglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn [ychwanegwch y dyddiad]?
- Ydych chi'n byw yn lleol i [enw'r safle]?
- A yw faint o amser rydych chi'n ei dreulio yn ymweld â [enw'r safle] neu goetiroedd neu goedwigoedd eraill wedi newid yn ystod y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol? Os ydyw, rhowch fanylion.

A oes unrhyw un erioed wedi eich holi/ymgynghori â chi ynghylch cynlluniau ar gyfer rheoli [enw'r safle]? Os nac oes, a hoffech fod yn rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol?

3. Beth maen nhw'n ei wneud? (aelodau'r cyhoedd, mynd heibio yn unig.)

Cwestiynau

- Beth ydych chi'n ei wneud yma heddiw? e.e. gwirfoddoli, hamddena, digwyddiad, gweithgarwch dysgu
- Pa mor hir ydych chi wedi bod yn rhan o'r gweithgaredd hwn?
- Pa weithgareddau hamdden, os rhai o gwbl, ydych chi'n eu gwneud wrth ymweld ag [enw'r safle]?
- Beth yw eich barn am y gweithgareddau a'r cyfleoedd sydd ar gael yn [enw'r safle] yn fwy cyffredinol?

Ydych chi'n credu bod eich gweithgaredd yn cyfrannu at y safle hwn yn cael bod yn safle'r Goedwig Genedlaethol ac felly'n rhan o raglen Coedwig Genedlaethol Cymru? Ydych chi wedi ystyried y cysylltiadau rhwng yr hyn rydych chi'n ei wneud yma a'r safle yn cael statws Coedwig Genedlaethol? [Nodyn: gofynnir hyn yn unig i'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i drefnu yn unig]

4. Buddion y safle i gymunedau lleol

Cwestiynau

- Beth yn eich barn chi yw budd [enw'r safle] i gymunedau lleol?
- Pa fudd ydych chi wedi'i gael o ymweld â [enw'r safle]?

5. Edrych i'r dyfodol

Cwestiynau

- Beth hoffech chi weld Coedwig Genedlaethol Cymru yn ei wneud a'i gyflawni? Awgrym: cyfleusterau ymwelwyr, gweithgareddau, cyfleoedd gwirfoddoli neu addysg.

Unrhyw sylwadau eraill

## Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: grŵp ffocws i ymwelwyr

Cwestiynau i ymwelwyr / awgrymiadau cwestiynau ar gyfer safleoedd astudiaethau achos

Cyflwyniad

1. A fyddech gystal â rhoi rhywfaint o gefndir ynghylch beth rydych chi'n ei wneud / yn cymryd rhan ynddo heddiw?
    a. Awgrym: a ydyn nhw'n ymwelwyr / cyfranogwyr rheolaidd neu'n ymwelwyr / cyfranogwyr tro cyntaf? Sut oedden nhw'n gwybod am y safle / gweithgaredd? Pa mor aml maen nhw'n ymweld? Ers faint maen nhw wedi bod yn dod i'r safle?
2. Ydych chi wedi clywed am raglen Coedwig Genedlaethol Cymru?
3. A oeddech chi'n gwybod bod y safle hwn yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru? Beth yw eich barn ar y cysyniad o gael Coedwig Genedlaethol Cymru fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel?
4. Beth yw eich barn am hyn? Ydych chi'n meddwl bod hyn wedi cael effaith ar y safle neu'r bobl sy'n ymweld â'r lle?

Ysgogiadau a buddion

5. Beth oedd eich cymhellion dros ymweld â'r safle / cymryd rhan yn y gweithgaredd ar y safle hwn?
    a. Awgrym: beth maen nhw'n ei hoffi amdano? os ydynt yn ymwelwyr / mynychwyr rheolaidd, pam maen nhw'n dal i ddod yn ôl?
6. Beth ydych chi'n teimlo eich bod chi'n ei gael o ymweld â'r safle / cymryd rhan yn y gweithgaredd ar y safle hwn?
    a. Awgrym: rhywbeth i'w wneud, lles, cysylltu â byd natur, ymarfer corff, cymdeithasu
7. Ydych chi'n credu bod eich gweithgarwch yn cyfrannu at nodi'r safle hwn yn safle'r Goedwig Genedlaethol ac felly'n rhan o raglen Coedwig Genedlaethol Cymru? Ydych chi wedi ystyried y cysylltiadau rhwng yr hyn rydych chi'n ei wneud ar y safle a'r safle yn cael statws Coedwig Genedlaethol? [Nodyn: gofynnwch hyn i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i drefnu yn unig]
8. Ydych chi'n credu y byddech chi'n cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn pe na bai'n digwydd mewn coetir/ar y safle hwn?
9. Pa fuddion, os rhai o gwbl, ydych chi'n teimlo bod cymunedau lleol yn eu cael o'r safle hwn a'i weithgarwch?
    a. Awgrym: mynediad at ofod gwyrdd, bod yn lleoliad cymunedol, denu ymwelwyr
    b. Awgrym: os nad yw manteision a buddion yn cael eu teimlo cymaint, beth gellid ei wneud i'w galluogi?

Edrych i'r dyfodol

10. Ydych chi'n teimlo bod unrhyw rwystrau i ymweld â'r safle, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau?
    a. Awgrym: trafnidiaeth, arwyddion, ansawdd llwybrau, diffyg mesurau hygyrchedd, cyfleusterau
    b. Gofynnwch: unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â rhwystrau

11. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei weld ar y safle hwn? Os oes, beth?
    a. Awgrym: cyfleusterau ymwelwyr, gweithgareddau, cyfleoedd gwirfoddoli neu addysg

Gorffen

12. Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei grybwyll, neu unrhyw beth yr ydych chi'n meddwl y dylid adfyfyrio arno yn ein gwerthusiad?

## Gwerthuso'r Goedwig Genedlaethol 2023 i 2025: Holiadur cymunedol i'r astudiaethau achos

1. A fyddech gystal â chadarnhau pa un o'r safleoedd canlynol yr oeddech wedi ymweld â nhw yn ddiweddar:
    - Castell y Waun
    - Coed y Bont / Coed Dolgoed
    - Coed Cymunedol Mynydd Mawr
    - Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise
    - Parc Gwledig Porthceri
    - Coetiroedd Bryn Sirhowy
    - Coetir Ysbryd y Llynfi
    - Coetiroedd Stad Stagbwll
2. Ydych chi wedi clywed am Goedwig Genedlaethol Cymru?
    - Do
    - Naddo
3. [Os do] Sut clywsoch chi am y Goedwig Genedlaethol?
    - Gwefan y llywodraeth
    - Sylw yn y cyfryngau lleol (e.e. teledu neu radio)
    - Rhywun wedi sôn
    - Gweld arwyddion yn y safle coetir
    - Rhywbeth arall (manylwch)

Nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i greu Coedwig Genedlaethol i Gymru yng Ngwanwyn 2020. Mae'r Goedwig Genedlaethol yn brosiect cenedlaethol sy'n para degawdau, a'i nod yw adfer a chynnal coetiroedd presennol a'u cysylltu ag ardaloedd coetir newydd trwy blannu coed. Caiff y Goedwig Genedlaethol ei sefydlu trwy greu rhwydwaith o safleoedd coetiroedd presennol a rhai sydd newydd eu plannu. Gallwch ddarllen mwy am Goedwig Genedlaethol Cymru yma.

4. Beth yw eich barn am y cysyniad o gael Coedwig Genedlaethol Cymru fel ffordd o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel? Ymateb agored
5. Pa weithgareddau hamdden, os unrhyw rai o gwbl, ydych chi'n eu gwneud wrth ymweld ag [enw'r safle]? Ticiwch bob un sy'n berthnasol
    - Cerdded
    - Mynd â chŵn am dro
    - Rhedeg
    - Gwylio bywyd gwyllt
    - Crefftau coed
    - Pysgota
    - Beicio/beicio mynydd
    - Rhywbeth arall (manylwch)

6. Oeddech chi'n gwybod bod [enw'r safle] yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru?
    - Oeddwn
    - Nac oeddwn
7. Ers pryd ydych chi wedi yn ymweld/ defnyddio [enw'r safle]?
    - fewn y 3 mis diwethaf
    - 3-12 mis
    - 1-2 flynedd
    - Dros 2 flynedd
    - Ddim yn gwybod/methu cofio
8. Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i [enw'r safle] ers [y dyddiad pan ymunodd y safle â'r Goedwig Genedlaethol] neu [dyddiad] pan gawsant gyllid y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (TWIG)?
    - Mae llwybrau wedi'u gwneud yn fwy hygyrch
    - Mae'r cyfleusterau i ymwelwyr wedi'u gwella
    - Mae gweithgareddau wedi'u cynnig ar y safle nad oeddent ar gael o'r blaen
    - Coed wedi'u plannu
    - Coed wedi'u symud/torri i lawr
    - Mwy o weithgareddau gwirfoddol
    - Mwy o sesiynau hyfforddi neu sgiliau ar gael
    - Dulliau cadwraeth neu fioamrywiaeth gwell
    - Cysylltedd gwell
    - Mwy o ymchwil yn weladwy ar y safle
    - Rhywbeth arall (manylwch)
9. Ydych chi'n byw yn lleol i [enw'r safle]? (h.y. o fewn pellter cerdded 15 munud)
    - Ydw
    - Nac ydw
10. A oes unrhyw un erioed wedi ymgynghori â chi ynghylch cynlluniau ar gyfer rheoli [enw'r safle]?
    - Do
    - Naddo
    - Dwi ddim yn gwybod
11. Os naddo, a hoffech fod yn rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol?
12. Pa fuddion, os unrhyw rai o gwbl, ydych chi wedi'u cael o ymweld ag [enw'r safle]? Ticiwch bob un sy'n berthnasol:
    - Gwella fy iechyd corfforol
    - Gwella fy iechyd meddwl
    - Fy helpu i ddysgu am yr amgylchedd
    - Rhoi cyfleoedd i mi gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden neu ddiwylliannol
    - Rhoi lle i mi gael hwyl gyda fy ffrindiau ac/neu fy nheulu
    - Rhoi cyfleoedd i mi gwrdd â phobl newydd
    - Gwella ansawdd fy mywyd yn gyffredinol
    - Rhywbeth arall (manylwch)
    - Ni chredaf fy mod wedi cael unrhyw fudd

13. Wrth feddwl am goedwigoedd a choetiroedd, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

(1) = cytuno'n gryf (5) = anghytuno'n gryf

1. Maent yn cyfrannu at yr economi leol
2. Maent yn lleoedd lle gall pobl ymlacio a lleddfu straen ynddynt
3. Maent yn llefydd lle gall pobl wneud ymarfer corff a chadw'n heini ynddynt
4. Maent yn llefydd lle gall pobl gael hwyl a mwynhau eu hunain ynddynt
5. Maent yn lleoedd lle gall pobl ddysgu am yr amgylchedd
6. Maent yn lleoedd lle gall pobl ddysgu am ddiwylliant neu hanes lleol
7. Maent yn fannau pwysig i fywyd gwyllt
8. Maent yn dod â'r gymuned at ei gilydd
9. Maent yn gwneud ardaloedd yn llefydd brafiach i fyw ynddynt
10. Maent yn cael pobl i gymryd rhan mewn materion lleol

(2) Beth arall, os unrhyw beth o gwbl, yr hoffech chi ei weld yn y safle coetir hwn?

Ateb agored

(3) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch [enw'r safle]?

Ateb agored